# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

<table>
<tr><th colspan="2">RHYBUDD O GYFARFOD</th><th colspan="2">NOTICE OF MEETING</th></tr>
<tr><td colspan="2">PWYLLGOR SAFONAU</td><td colspan="2">STANDARDS COMMITTEE</td></tr>
<tr><td colspan="2">DYDD MERCHER, 14 MEHEFIN 2023<br>am 10:00 o'r gloch</td><td colspan="2">WEDNESDAY, 14 JUNE 2023<br>at 10:00 am</td></tr>
<tr><td colspan="2">CYFARFOD HYBRID - YN YSTAFELL BWYLLGOR 1 AC YN RHITHWIR</td><td colspan="2">HYBRID MEETING - VIRTUAL AND IN COMMITTEE ROOM 1</td></tr>
<tr><td>Swyddog Pwyllgor</td><td colspan="2">Mrs Shirley Cooke<br>01248 752514</td><td>Committee Officer</td></tr>
</table>

**Aelodau Annibynnol / Independent Members**

Dr Thomas Rhys Davies (Is-Gadeirydd/Vice-Chair)
Mrs Celyn Menai Edwards
Mr John Robert Jones (Cadeirydd/Chair)
Mrs Gill Murgatroyd
Mrs Sharon Warnes

**Yn cynrychioli'r Cyngor Sir / Representing the County Council**

Y Cynghorydd/Councillor Trefor Lloyd Hughes MBE
Y Cynghorydd/Councillor Dafydd Rhys Thomas

**Yn cynrychioli'r Cynghorau Tref/Cymuned / Representing the Town/Community Councils**

Mr Iorwerth Roberts
Mrs Margaret Thomas

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdudrod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod.***

**R H A G L E N**

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

I dderbyn unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2 COFNODION Y CYFARFOD** (Tudalennau 1 - 12)

Cadarnhau cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2022.

**3 ADRODDIADAU BLYNYDDOL AELODAU ETHOLEDIG** (Tudalennau 13 - 16)

Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

**4 HYFFORDDIANT AELODAU ETHOLEDIG** (Tudalennau 17 - 30)

Adroddiad gan y Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol.

**5 CWYNION AM YMDDYGIAD A GYFLWYNWYD I OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU** (Tudalennau 31 - 36)

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro mewn perthynas â:-

(a) Cynghorwyr Sir, a
(b) Cynghorwyr Tref a Chymuned
ar gyfer Chwarter 3 a Chwarter 4 o 2022/2023.

**6 PENDERFYNIADAU GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU** (Tudalennau 37 - 52)

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar Ganlyniadau Ymchwiliadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a gyhoeddwyd ers y Pwyllgor Safonau diwethaf a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2022.

**7 PENDERFYNIADAU GAN BANEL DYFARNU CYMRU** (Tudalennau 53 - 62)

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar benderfyniadau Panel Dyfarnu Cymru yng Nghymru ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau ar 14 Rhagfyr 2022.

**8 CEISUADAU AM GANIATÂD ARBENNIG**

Mae'n arferol bod adroddiad yn cael ei baratoi gan y Swyddog Monitro ar y ceisiadau am ganiatâd arbennig a ystyriwyd gan y Pwyllgor Safonau. Yn ystod y cyfnod ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau ar 28 Mehefin 2022 a dyddiad cyhoeddi'r agenda, nid oedd unrhyw geisiadau o'r fath wedi eu derbyn. Ar y sail hwn, nid oes adroddiad wedi'i gynnwys.

**9** **PROTOCOL DATRYSIAD LLEOL AR GYFER Y CYNGHORAU TREF A CHYMUNED** (Tudalennau 63 - 66)

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro ar ddatblygiad Protocol Datrysiad Lleol at ddefnydd Cynghorau Tref a Chymuned.

**10** **DIWEDDARIAD O'R FFORWM PWYLLGOR SAFONAU CENEDLAETHOL** (Tudalennau 67 - 68)

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro ar y Fforwm Cenedlaethol ar gyfer Aelodau Annibynnol Pwyllgorau Safonau yng Nghymru.

**11** **ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU** (Tudalennau 69 - 104)

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro yn cynnwys yr Adroddiad Blynyddol drafft ar gyfer 2022/23.

**12** **ADRODDIAD PENN** (Tudalennau 105 - 124)

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro yn nodi manylion yr ymateb a baratowyd gan y Pwyllgor Safonau mewn ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar yr argymhellion a wnaed yn adroddiad Penn.

**13** **CYNLLUNIAU HYFFORDDIANT Y CYNGHORAU TREF A CHYMUNED** (Tudalennau 125 - 128)

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro yn nodi manylion yr ymatebion a dderbyniwyd gan y Cynghorau Tref a Chymuned i gais y Pwyllgor Safonau am ddogfennaeth.

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR SAFONAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2022

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | **Aelodau Annibynnol**<br><br>Mr John R Jones (Cadeirydd)<br>Dr Thomas Rhys Davies (Is-gadeirydd)<br>Mrs Celyn Menai Edwards<br>Mrs Gill Murgatroyd<br>Mrs Sharon Warnes<br><br>**Cynrychioli'r Cynghorau Tref a Chymuned**<br><br>Y Cynghorydd Iorwerth Roberts |
| **WRTH LAW:** | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro<br>Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) (MY)<br>Rheolwr Hyfforddi Adnoddau Dynol (MW)<br>Swyddog Pwyllgorau (SC) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes MBE (Cynrychiolydd y Cyngor Sir)<br>Y Cynghorydd Dafydd R Thomas (Cynrychiolydd y Cyngor Sir)<br>Y Cynghorydd Margaret Thomas (Cynrychiolydd y Cyngor Tref a Chymuned) |

---

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod. Croesawodd y Cynghorydd Iorwerth Roberts, a oedd yn dychwelyd fel aelod o'r Pwyllgor Safonau.

### 1. DATGAN DIDDORDEB

Bu i Mrs Celyn Edwards ddatgan diddordeb personol yn eitem rhif 9 ar yr agenda, mewn perthynas â'i gwaith y tu allan i'r Pwyllgor hwn.

### 2. COFNODION Y CYFARFOD

Cadarnhawyd bod cofnodion drafft y cyfarfod o'r Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2022 yn gywir, yn amodol ar y canlynol:-

**Materion yn codi o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2022:-**

- Adroddodd y Cadeirydd ei fod ef, ynghyd â'r Is-gadeirydd, wedi mynychu cyfarfod o Fforwm y Cynghorau Tref a Chymuned ym mis Medi 2022.

- Cadarnhaodd y Cadeirydd bod y Cyngor wedi cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar 30 Medi 2022.

## 3. ADRODDIADAU BLYNYDDOL YR AELODAU

Cyflwynwyd – adroddiad gan Reolwr Busnes y Gwasanaethau Democrataidd ar y broses a'r amserlen ar gyfer cyflwyno Adroddiadau Blynyddol gan Aelodau.

Adroddodd y Rheolwr Busnes bod modd i bob aelod baratoi adroddiad y gweithgareddau y maent wedi eu cyflawni. Dywedodd bod y Pwyllgor Safonau wedi gofyn i'r Arweinyddion Grŵp annog pob un o'u haelodau i gyflwyno adroddiad, er nad oes gofyniad statudol i wneud hynny, gan fod hynny'n rhan bwysig o'u cynllun datblygu blynyddol.

Nodwyd mai dim ond 4 aelod allan o'r 18 aelod cymwys (aelodau a ddychwelodd yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022) a oedd wedi cyflwyno adroddiad, ac roedd y Pwyllgor Safonau'n siomedig iawn o glywed hynny. Mae'r adroddiadau a ddaeth i law wedi cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Mewn perthynas ag adroddiadau blynyddol 2022/23, rhannwyd templed â'r aelodau ar 14 Gorffennaf 2022 i'w hatgoffa i gofnodi / casglu data i'w gyflwyno yn eu hadroddiad blynyddol nesaf. Cyflwynwyd amserlen ddrafft a oedd yn cynnwys y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r adroddiadau ar gyfer 2022/23 i'r Pennaeth Democratiaeth, sef 31 Mai 2023.

Roedd aelodau'r Pwyllgor yn poeni bod cyn lleied o aelodau wedi cyflwyno adroddiad blynyddol. Gofynnwyd pe byddai'n bosib i'r Pwyllgor Safonau dderbyn copi o Adroddiad y Pennaeth Democratiaeth, a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Arweinyddion Grwp ym mis Mehefin 2023, ar y nifer o aelodau o bob Grwp sydd heb gwblhau adroddiad blynyddol erbyn y dyddiad cau. Cytunodd y Pwyllgor hefyd y byddai adroddiadau blynyddol gan aelodau etholedig yn cael ei gynnwys fel eitem agenda / unrhyw fater arall yng nghyfarfod nesaf Fforwm Cenedlaethol y Pwyllgorau Safonau.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi cynnwys yr adroddiad.**
- **Bod Rheolwr Busnes y Gwasanaethau Democrataidd yn gofyn i'r Pennaeth Democratiaeth newydd anfon copi o'r adroddiad y bydd yn ei gyflwyno i'r Arweinyddion Grŵp ym mis Mehefin 2023 ar adroddiadau blynyddol yr aelodau i'r Pwyllgor Safonau yn unol â chais y Pwyllgor.**
- **Bod y Swyddog Monitro yn gwneud cais i drafod adroddiadau blynyddol gan aelodau etholedig yng nghyfarfod nesaf Fforwm Cenedlaethol y Pwyllgor Safonau ar 27 Ionawr 2023, er mwyn:-**
  - **gweld a ydi'r patrwm yr un fath mewn rhannau eraill o Gymru o ran y nifer isel o adroddiadau sy'n cael eu cyflwyno gan aelodau, a**
  - **thrafod p'un ai a ddylid cynyddu statws yr adroddiadau hyn a'u gwneud yn orfodol.**

- **Bod y Cadeirydd a’r Is-gadeirydd yn trafod ffyrdd o annog aelodau i gyflwyno adroddiadau blynyddol gyda’r Arweinyddion Grwp a chadarnhau pam bod rhai aelodau mor gyndyn o gyflwyno adroddiad.**
- **Bod y Rheolwr Busnes a’r Rheolwr Hyfforddi AD yn trafod ffyrdd o annog / cefnogi aelodau i gyflwyno adroddiad blynyddol.**

**Gweithred: Gweler y Penderfyniadau uchod**

## 4. DATBLYGU AELODAU

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Rheolwr Hyfforddi Adnoddau Dynol ar y sesiynau hyfforddi a gynigwyd i’r aelodau ers mis Mai 2022.

Adroddodd y Rheolwr Hyfforddi Adnoddau Dynol bod 47 o sesiynau hyfforddi wedi cael eu darparu i aelodau er mis Mai 2022. Darparwyd hyfforddiant ar bob math o bync(bynciau) ee Cynllunio, Trwyddedu, Archwilio, Sgiliau TGCh, Sgiliau Cadeirio ar gyfer Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Sgriwtini.  Bwriedir cynnal hyfforddiant bellach ar Iechyd, Diogelwch a Lles yn y Flwyddyn Newydd. Nodwyd bod lefelau presenoldeb yn ystod y sesiynau hyfforddi wedi amrywio.

Roedd y Pwyllgor Safonau’n cytuno’n unfrydol bod cadeirio cyfarfodydd wedi dod yn fater mwy cymhleth ers cyflwyno cyfarfodydd hybrid, a chytunwyd y dylid gofyn i’r Arweinyddion Grwp fynnu bod yr hyfforddiant ar sgiliau cadeirio yn dod yn hyfforddiant mandadol ar gyfer Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau.

Nodwyd gan y Rheolwr Hyfforddi bod amser yr hyfforddiant; yn ystod y dydd/ hwyr yn y prynhawn/ yn gynnar gyda’r nos, yn cael ei ystyried yn barhaus er mwyn ystyried ymrwymiadau gwaith/gofal yr aelodau.

Codwyd pryder nad oes modd gweld gwybodaeth ynglŷn â’r sesiynau hyfforddai a fynychwyd gan aelodau ar wefan y Cyngor. Nodwyd bod yr hyfforddiant a fynychir gan aelodau’n cael ei gofnodi gan yr aelodau yn eu hadroddiadau blynyddol a bod y rhain yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Adroddodd y Rheolwr Hyfforddi bod staff AD ar gael i gefnogi aelodau i gwblhau a chyhoeddi eu hadroddiadau blynyddol. Dywedodd nad ydi gwybodaeth ynglŷn â’r hyfforddiant a’r sesiynau briffio y mae aelodau’r Pwyllgor Safonau wedi’u mynychu’n cael ei gyhoeddi ar-lein, ond bod eu presenoldeb yn cael ei nodi a’i gofnodi gan yr adran Adnoddau Dynol.

Mynegwyd pryder gan y Pwyllgor mewn perthynas â thri o’r pedwar hyfforddiant mandadol a amlinellwyd yn yr adroddiad. Mae 35 wedi cwblhau’r modiwl ar ddiogelwch seibr ond dim ond 24 allan o’r 35 sydd wedi cwblhau’r hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth a dim ond 12 allan o’r 35 sydd wedi cwblhau’r hyfforddiant ar ddiogelu data. Nodwyd hefyd bod 6 o’r 35 aelod heb gwblhau hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad; er bod hyn yn orfodol o dan y Cod Ymddygiad a fabwysiadwyd gan y Cyngor Sir.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi cynnwys yr adroddiad.**
- **Bod y Cadeirydd, a'r Is-gadeirydd yn codi'r materion canlynol yn ystod cyfarfod o'r Arweinyddion Grwp yn y dyfodol:-**
  - **Cynnig bod yr hyfforddiant Sgiliau Cadeirio yn dod yn hyfforddiant mandadol i Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion wedi iddynt gael eu penodi (neu eu hail-benodi), a bod yr hyfforddiant yn cael ei gynnal pob 2 flynedd. Dylid cynnwys aelodau annibynnol anetholedig a Chadeiryddion ac Is-gadeiryddion cyfetholedig yn yr hyfforddiant hwn, ac**
  - **Argymell bod yr Arweinyddion Grwp yn annog eu haelodau i ddiweddaru'r wybodaeth sydd ar gael ar-lein mewn perthynas â'r hyfforddiant a'r sesiynau briffio y maent wedi eu mynychu.**
- **Bod y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn anfon copi o'r Newyddlen a fydd yn cael ei drafftio, yn dilyn y cyfarfod hwn, at yr Arweinyddion Grwp.**
- **Ar ôl derbyn data gan swyddogion ar yr aelodau sydd heb gwblhau'r hyfforddiant mandadol bod y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn gofyn i'r Arweinyddion Grwp adrodd yn ôl ar y modd y maent yn bwriadu delio â'r mater.**
- **Bod sgiliau cadeirio Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau Safonau yn cael ei godi yng nghyfarfod nesaf Fforwm Cenedlaethol y Pwyllgorau Safonau.**

**Gweithred: Gweler y Penderfyniadau uchod**

## 5. CWYNION YNGLŶN AG YMDDYGIAD I OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) ar ffurf matrics wedi'i ddiweddaru ynglŷn â'r cwynion chwarterol a dderbyniwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â (a) Cynghorwyr Sir, a (b) Cynghorwyr Tref/Cymuned.

Adroddodd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) bod yr Ombwdsmon wedi derbyn un gŵyn gan aelod o'r cyhoedd mewn perthynas â Chynghorwyr Sir rhwng mis Ebrill – Mehefin 2022 (Ch1), ond nad ymchwiliwyd i'r gŵyn honno. Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion mewn perthynas â Chynghorwyr Sir rhwng mis Gorffennaf – Medi 2022 (Ch2).

Nodwyd bod yr Ombwdsmon wedi derbyn dwy gŵyn mewn perthynas â Chynghorwyr Tref/Cymuned yn ystod Chwarter 1, 2022. Penderfynodd yr Ombwdsmon beidio â pharhau i ymchwilio i'r achos gyntaf a pheidio ag ymchwilio i'r ail achos. Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion mewn perthynas â Chynghorwyr Tref/Cymuned yn ystod Chwarter 2.

Mewn ymateb i gwestiynau ar dueddiadau newydd , dywedodd y Swyddog Monitro ei bod hi'n anodd dod o hyd i unrhyw dueddiadau penodol gan bod cyn lleied o gwynion yn cael eu cyflwyno. Os daw unrhyw batrymau i'r amlwg o ran y math o gwynion sy'n cael eu cyflwyno, bydd y swyddog Monitro'n rhoi gwybod i Gadeirydd y Pwyllgor Safonau ac yn trafod ymyraethau addas.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi cynnwys Atodiadau 1- 4.**
- **Bod y Swyddog Monitro'n rhannu Atodiadau 1- 4 â'r Cynghorau Tref a Chymuned a'r aelodau etholedig a chyfetholedig drwy'r Newyddlenni.**

**Gweithred: Gweler y Penderfyniadau uchod**

**6. PENDERFYNIADAU OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) a oedd yn rhoi crynodeb o ganfyddiadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas ag achosion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad rhwng 1 Mehefin a 30 Tachwedd 2022, sydd bellach ar gael ar wefan yr Ombwdsmon.

Nododd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) bod 13 achos wedi'i adrodd yn ystod y cyfnod hwn. Nodwyd y themâu canlynol:-

Mae'r prawf dau gam yn dal i gael ei ddefnyddio, lle mae'r Ombwdsmon yn ystyried p'un ai a oes tystiolaeth bod y Cod Ymddygiad wedi cael ei dorri yn y lle cyntaf ac, os felly, p'un ai a fyddai ymchwiliad o fudd i'r cyhoedd.

Roedd sawl achos lle'r oedd testun y gŵyn wedi rhoi'r gorau i fod yn gynghorydd rhwng y dyddiad pryd y cafodd y cod ei dorri ac ymchwiliad yr Ombwdsmon. Mae'n bwysig nodi bod cyn-gynghorwyr yn dal i ddod dan awdurdodaeth yr Ombwdsmon, hyd yn oed os ydynt wedi rhoi'r gorau i fod yn gynghorydd, cyn belled bod yr achos wedi digwydd tra'r oeddent yn y swydd. Yr unig wahaniaeth yw'r effaith ar y prawf budd y cyhoedd a'r cosbau mwy cyfyngedig sydd ar gael (mae gan y Pwyllgor Safonau'r hawl i geryddu o hyd ac mae gan dribiwnlys achos Panel Dyfarnu Cymru'r awdurdod i wahardd cynghorydd am hyd at 12 mis a rhoi cerydd o hyd at 5 mlynedd).

Roedd achos 3 a 5 wedi eu cynnwys ar yr Agenda o dan Eitem 7, gan eu bod yn achosion a gyfeiriwyd at Banel Dyfarnu Cymru gan yr Ombwdsmon.

Achos 4 a 13 - materion a gafodd eu cyfeirio at y Pwyllgor Safonau perthnasol ond roedd y cosbau a oedd ar gael i'r Pwyllgorau yn gyfyngedig gan nad oedd y cynghorwyr yn dal i wasanaethu fel cynghorwyr.

Achos 6 – er bod un aelod o'r cyngor cymuned wedi bod yn destun ymchwiliad gan yr Ombwdsmon, a'i fod ef/hi wedi torri'r Cod Ymddygiad, fe wnaeth yr Ombwdsmon argymell bod y Cyngor Cymuned yn cwblhau hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi'r adroddiad a'r atodiadau.**
- **Annog yr holl gynghorwyr tref a chymuned i gwblhau'r hyfforddiant at y Cod Ymddygiad.**

- **Cynnwys themâu penodol yn yr adroddiad yn y Newyddlenni a fydd yn cael eu rhannu ag aelodau CSYM ac aelodau'r cynghorau tref a chymuned .**

**Gweithred: Gweler y Penderfyniadau uchod**

## 7. PENDERFYNIADAU PANEL DYFARNU CYMRU

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) a oedd yn crynhoi'r prif faterion a'r pwyntiau dysgu ym mhenderfyniadau Banel Dyfarnu Cymru (a gyhoeddwyd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau ar 28 Mehefin 2022).

Nodwyd cywiriad mewn perthynas ag achos 3 ar dudalen 55 yn y fersiwn Gymraeg o'r adroddiad; lle cyfeiriwyd at baragraff 5(c) yn hytrach na pharagraff 4(c).

Achos 1 – Honiad bod Cynghorydd wedi camarwain y Cyngor Tref ynglŷn â'i gymhwystra i fod yn gynghorydd tref, gan fod ganddo euogfarn a oedd yn ei atal yn awtomatig rhag ymgeisio i fod yn gynghorydd. Cafodd yr unigolyn ei wahardd am 2 flynedd gan Banel Dyfarnu Cymru. Mae'r achos hwn yn dangos bod Panel Dyfarnu Cymru yn ystyried bod y Cod Ymddygiad yn berthnasol, hyd yn oed i'r rheiny nad ydynt yn gymwys i gael eu hethol yn y lle cyntaf.

Achos 2 – honiad bod Cynghorydd wedi torri'r Cod Ymddygiad i Aelodau, gan ei bod wedi troseddu yn ystod ei chyfnod fel cynghorydd. Cafodd ei gwahardd am flwyddyn gan Banel Dyfarnu Cymru. Yn ogystal â chosbi'r unigolyn, fe wnaeth y Panel hefyd argymell y canlynol: yn gyntaf, bod aelodau'r Cyngor Cymuned yn mynychu hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad cyn pen tri mis; ac yn ail, bod y Cyngor Cymuned yn ystyried ei gwneud hi'n ofynnol i Glerc y Cyngor hefyd gwblhau'r hyfforddiant.

Achos 3 – Roedd yr achos hwn yn cynnwys ystyried 3 chŵyn unigol mewn perthynas â'r un Cynghorydd, gyda phob un yn ymwneud â defnydd / sylwadau amhriodol ar y cyfryngau cymdeithasol. Cafodd yr unigolyn ei wahardd am 3 blynedd gan y Panel.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi cynnwys y crynodebau o achosion**
- **Cynnwys gwybodaeth am yr achosion, a'r pwyntiau dysgu yn benodol, yn y Newyddlenni i Aelodau CSYM ac aelodau'r cynghorau tref a chymuned.**

**Gweithred: Gweler y Penderfyniadau uchod**

## 8. CEISIADAU AM GANIATÂD ARBENNIG

Ni chyflwynwyd adroddiad, a nodwyd nad oedd unrhyw geisiadau am ganiatâd arbennig wedi eu derbyn ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau a dyddiad cyhoeddi'r agenda hwn.

## 9. PWYLLGOR SAFONAU YN MONITRO SAMPL O GYFARFODYDD CYNGOR/PWYLLGORAU

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro a oedd yn cynnwys manylion yr adolygiad peilot a gynhaliwyd gan bedwar aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau. Nodwyd bod dau aelod wedi mynychu pob cyfarfod o'r Cyngor Sir, Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a'r ddau Bwyllgor Sgriwtini, ar sail rota, er mwyn i'r aelodau allu goruchwylio ymddygiad yr aelodau ym mhob un o'u cyfarfodydd ffurfiol.

Adroddodd y Swyddog Monitro bod taflen werthuso wedi cael ei datblygu i gofnodi unrhyw sylwadau yn ystod y cyfarfodydd (Atodiad 2 yn yr adroddiad). Yn dilyn pob cyfarfod, byddai'r aelodau o'r Pwyllgor Safonau a oedd wedi bod yn goruchwylio yn adrodd yn ôl i'r Cadeirydd perthnasol. Yn dilyn y broses adolygu rhannwyd llythyr manwl â'r Arweinyddion Grwp oedd yn nodi'r adborth cyffredinol; yn ogystal â materion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad, roedd y llythyr hefyd yn cynnwys sylwadau cyffredinol a wnaed gan yr aelodau o'r Pwyllgor Safonau mewn perthynas â phrosesau/ materion cyfansoddiadol/ materion yn ymwneud â chyfarfodydd hybrid.

Nodwyd y cywiriadau canlynol mewn perthynas â'r Rhestr o Gyfarfodydd ar dudalen 45, yn Atodiad 1 yn yr adroddiad:-

Cyfarfod y Cyngor Sir ar 6/12/22 – Cytunwyd cyn y cyfarfod nad oedd disgwyl i'r aelodau annibynnol fynychu'r cyfarfod hwn.

Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 19/10/22 – Nodwyd bod y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a Mrs Gill Murgatroyd, (aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau), wedi mynychu'r cyfarfod hwn.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Derbyn argymhelliad y Prif Weithredwr bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ystyried y materion cyffredinol hynny a nodwyd yn ystod yr ymarfer arsylwi nad ydynt yn rhan o gyfrifoldebau'r Pwyllgor Safonau.**
- **Bod y Pwyllgor Safonau'n parhau i adolygu'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.**
- **Ail-ymweld â'r peilot a'r ffurflen werthuso ymhen 6 mis.**
- **Bod y Pwyllgor Safonau'n darparu adborth i'r aelodau etholedig ar yr ymarfer hwn.**

- **Trafod y cais gan Arweinydd y Cyngor bod y Pwyllgor Gwaith yn arsylwi'r Pwyllgor Gwaith yng nghyfarfod anffurfiol nesaf y Pwyllgor Gwaith.**

**Gweithred: Gweler y Penderfyniadau uchod**

## 10. PROTOCOL DATRYSIAD LLEOL

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar Brotocol Datrysiad Lleol y Pwyllgor Safonau yn dilyn newidiadau a ddaeth i rym yn sgil Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, mewn perthynas â'r ddyletswydd statudol newydd ar Arweinyddion Grwp o ran ymddygiad eu haelodau.

Adroddodd y Swyddog Monitro nad oes gofyniad statudol ar awdurdodau lleol i fabwysiadu Protocol Datrysiad Lleol, er bod Llywodraeth Cymru a'r Ombwdsman yn disgwyl i Gynghorau wneud hynny.

Nodwyd bod y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd wedi cyflwyno fersiwn diwygiedig o'r Protocol i'r Arweinyddion Grwp yn ystod eu cyfarfod ar 29 Medi 2022.

Cyflwynwyd y Protocol i'r Aelodau yn ystod Sesiwn Briffio ar 1 Rhagfyr 2022.

Cyfeiriodd y Swyddog Monitro at y fersiwn drafft newydd o'r Protocol yn Atodiad 1, sydd wedi cael ei symleiddio, ac sy'n ystyried rôl estynedig yr Arweinyddion Grwp mewn perthynas ag ymddygiad aelodau o'u grŵp. Rhoddodd drosolwg o sut y bydd y Protocol newydd yn gweithio, ac eglurodd yr egwyddorion y tu ôl i'r broses.

Nodwyd bod yr Arweinyddion Grwp yn cefnogi egwyddor y Protocol diwygiedig sy'n adlewyrchu'r ddeddfwriaeth bresennol. Gofynnwyd i'r Pwyllgor Safonau gymeradwyo a mabwysiadu'r fersiwn terfynol o'r Protocol.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi cydsyniad yr Arweinyddion Grwp i'r Protocol yn Atodiad 1.**
- **Cymeradwyo a mabwysiadu'r Protocol yn unol â'r drafft yn Atodiad 1.**
- **Annog yr aelodau i ddefnyddio'r Protocol yn Atodiad 1 dan amgylchiadau perthnasol; ac**
- **Adolygu'r broses a fabwysiadwyd a'r ddogfen ei hun ymhen 12 mis.**

**Gweithred: Gweler y Penderfyniad uchod**

## 11. AELODAU CYNGOR CYMUNED O'R PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar y ddau aelod Cyngor Cymuned a benodwyd i'r Pwyllgor Safonau, yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022.

Adroddodd y Swyddog Monitro bod proses wedi cael ei rhoi ar waith lle ysgrifennwyd at glercod y cynghorau tref a chymuned yn gofyn iddynt enwebu hyd at ddau gynghorydd i gynrychioli'r cynghorau tref a chymuned ar y Pwyllgor Safonau.

Ar 6 Hydref 2022, cynhaliwyd pleidlais bost gyda'r holl gynghorau tref a chymuned, a gofynnwyd iddynt ddychwelyd y papur pleidleisio erbyn 19 Tachwedd 2022. Ar 23 Tachwedd, dilyswyd y broses a ddilynwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau a chadarnhawyd pwy oedd y ddau ymgeisydd llwyddiannus.

Cyflwynwyd adroddiad i'r Cyngor Sir yn ystod ei gyfarfod ar 6 Rhagfyr 2022 yn gofyn i'r  Cyngor llawn gadarnhau penodiad yr ymgeiswyr llwyddiannus. Bu i'r Cyngor Sir gymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad, a phenodwyd y cynghorwyr cymuned canlynol i'r Pwyllgor Safonau tan yr etholiadau llywodraeth leol nesaf neu tan na fydd y rhai a benodir yn aelodau cyngor cymuned; pa bynnag un sy'n digwydd gyntaf:-

- Y Cynghorydd Margaret Ann Thomas o Gyngor Tref Llangefni, a'r
- Cynghorydd Iorwerth Roberts o Gyngor Cymuned Bryngwran.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi cynnwys yr adroddiad; a**
- **Nodi penderfyniad y Cyngor Sir yn ei gyfarfod ar 6 Rhagfyr 2022 i benodi'r Cynghorydd Margaret Ann Thomas a'r Cynghorydd Iorwerth Roberts i gynrychioli'r cynghorau tref a chymuned ar y Pwyllgor Safonau.**

**Gweithred: Gweler y Penderfyniadau uchod**

## 12. HYFFORDDIANT AR Y COD YMDDYGIAD I GYNGHORAU TREF A CHYMUNED

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) ar y tri sesiwn hyfforddi ar y Cod Ymddygiad a oedd ar gael i'r cynghorau tref a chymuned yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai 2022.

Adroddodd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Gwybodaeth) bod y Pwyllgor Safonau'n gyfrifol am gynnal safonau uchel o ymddygiad gan Gynghorwyr. Nodwyd nad yw'r hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad yn hyfforddiant gorfodol i gynghorwyr tref a chymuned, ond bod yr Ombwdsmon, Panel Dyfarnu Cymru a'r Pwyllgor Safonau'n disgwyl iddynt wneud hynny.  Mae'n rhaid i bob cyngor tref a chymuned fabwysiadu ei God Ymddygiad ei hun ac mae'n rhaid i bob cynghorydd, ar ôl cael ei ethol, weithredu yn unol â'r Cod Ymddygiad hwnnw.

Trefnwyd hyfforddiant ar y cod i'r cynghorwyr tref a chymuned, ar ran y Pwyllgor Safonau. Nodwyd mai dim ond 37 wnaeth fynychu, er bod lle i 90.  Nodwyd hefyd na wnaeth clercod nac aelodau 29 o'r 40 cyngor tref a chymuned fynychu'r hyfforddiant.

Cyfeiriwyd at dudalen 89 adran 6 paragraff 3 yn y fersiwn Gymraeg o'r adroddiad. Dylid cywiro "ffactor lliniaru" - '*methiant i fynychu hyfforddiant ar y Cod yn cael ei ystyried fel ffactor lliniaru*' - i "ffactor gwaethygol" yn y Gymraeg.

Cafwyd trafodaeth ar ffyrdd o annog cynghorau tref a chymuned i ddarparu adborth yn dilyn sesiynau hyfforddi a pharatoi rhaglen hyfforddi ar gyfer aelodau/clercod, sydd bellach yn ofyniad statudol.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Bod y Pwyllgor Safonau'n ystyried cynnwys yr adroddiad a'r wybodaeth yn Atodiad 1, o ran nifer yr aelodau sydd wedi mynychu'r sesiynau hyfforddi, a'r patrwm o ran nifer y cynghorau tref a chymuned sydd heb gwblhau'r hyfforddiant.**
- **Bod y Pwyllgor Safonau'n cyfeirio at y presenoldeb gwael yn ystod sesiynau hyfforddi, ac yn hyrwyddo hyfforddiant mewn cynghorau tref a chymuned, yn ei Newyddlen i'r Cynghorau Tref a Chymuned.**
- **Bod y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn codi'r mater o bresenoldeb gwael yn ystod sesiynau hyfforddi yn Fforwm y Cynghorau Tref a Chymuned.**

**Gweithred: Gweler y Penderfyniadau uchod**

## 13. CYLCH GORCHWYL FFORWM CENEDLAETHOL Y PWYLLGORAU SAFONAU

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro, yn dilyn yr argymhelliad a wnaed yn Adolygiad Penn i'r Drefn Foeseg yng Nghymru, i sefydlu Fforwm Cenedlaethol ar gyfer Pwyllgorau Safonau, yn lle Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru.

Mae Cylch Gorchwyl y Fforwm ar gael yn Atodiad 1 yn yr adroddiad.

Adroddodd y Swyddog Monitro bod y cyfarfod o'r Fforwm a oedd i fod i gael ei gynnal ar 8 Rhagfyr 2022 wedi cael ei ohirio tan 27 Ionawr am 2.00pm.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi cynnwys yr adroddiad, a'r Cylch Gorchwyl yn Atodiad 1.**
- **Bod Cadeirydd y Pwyllgor Safonau'n mynychu cyfarfod o Fforwm Cenedlaethol y Pwyllgorau Safonau ar 27 Ionawr 2023.**
- **Bod y Swyddog Monitro'n rhannu cofnodion Fforwm Cenedlaethol y Pwyllgorau Safonau ag aelodau'r Pwyllgor Safonau ar ôl iddi eu derbyn.**

**Gweithred: Gweler y Penderfyniadau uchod**

Daeth y cyfarfod i ben am 4.05 pm

**MR JOHN R JONES**
**CHAIR**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | Pwyllgor Safonau |
| **Dyddiad:** | 14 Mehefin 2023 |
| **Teitl yr adroddiad:** | Adroddiadau Blynyddol Aelodau Etholedig |
| **Adroddiad gan:** | Pennaeth Democratiaeth |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Diweddaru'r Pwyllgor ar drefniadau adroddiadau blynyddol 22/23 |

**Cefndir**

1. Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Safonau yn ei gyfarfod ar 14 Rhagfyr yn amlinellu'r trefniadau a'r amserlen ar gyfer casglu a chyhoeddi adroddiadau blynyddol aelodau etholedig am y cyfnod 2022/23.

2. Yn dilyn nifer isel o adroddiadau a gyflwynwyd am y cyfnod 21/22 gofynnodd y Pwyllgor i'r Gwasanaeth Democrataidd gymryd camau i annog a hwyluso'r gwaith o baratoi adroddiadau am 22/23.

3. Mae rhan 5 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Gynghorau i wneud trefniadau er mwyn caniatáu i aelodau baratoi adroddiadau blynyddol ar eu gwaith. Er nad oes gofyn statudol i Aelodau gwblhau adroddiad, mae'n arfer dda er mwyn hybu atebolrwydd lleol a chyflwyno gwybodaeth am eu cyfrifoldebau a swyddogaethau.

4. Yn unol â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru ar adroddiadau blynyddol a wnaed o dan Fesur Llywodraeth Leol (2011), mae'r Cyngor wedi mabwysiadu templed adrodd i hwyluso gwaith aelodau. Mae'r templed yn dilyn argymhellion y canllaw ac yn cynnwys y penawdau canlynol:

    - Rôl a chyfrifoldeb
    - Gweithgarwch yn y Ward
    - Mentrau a Gweithgarwch Arbennig
    - Dysgu a Datblygu
    - Gweithgarwch a Mentrau Eraill

**Trefniadau Adroddiadau Blynyddol 22/23**

5. Caiff yr adroddiadau blynyddol eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor yn yr adran sy'n cynnwys gwybodaeth am aelodau etholedig. Dim ond 4 adroddiad a gyflwynwyd am y cyfnod 2021/22. Cafodd etholiadau lleol Mai 2022 effaith ar hynny ynghyd â swyddi gwag a diffyg capasiti ar y pryd yn y Gwasanaeth Democrataidd.

6. Felly er mwyn paratoi yn effeithiol ar gyfer 22/23 ac er mwyn codi ymwybyddiaeth aelodau newydd o'r drefn, rhannwyd y negeseuon canlynol:

- 14 Gorffennaf 2022 – e-bost at holl aelodau etholedig yn egluro'r drefn a'r amserlen ac yn cynnwys copi o'r templed adroddiad blynyddol.
- 2 Chwefror 2023 – briffio arweinyddion grŵp ar y drefn a'r amserlen ar gyfer cyflwyno adroddiadau.
- 15 Chwefror 2023 – e-bost at holl aelodau etholedig yn eu hatgoffa o'r drefn a'r amserlen ac yn cynnwys copi o'r templed. Eglurwyd hefyd sut i gysylltu gyda'r Gwasanaeth Democrataidd os oedd unrhyw gwestiwn.
- 31 Mawrth 2023 – neges atgoffa yn newyddlen y Pwyllgor Safonau at holl aelodau gyda dolen at y templed (cyhoeddwyd y templed ar fewnrwyd Monitor y Cyngor).
- 17 Mai 2023 – e-bost at holl aelodau etholedig yn eu hatgoffa o'r drefn a'r amserlen ac yn cynnwys copi a dolen at y templed.
- 2 Mehefin 2023 – e-bost at holl aelodau yn cynnwys cais olaf am adroddiadau.

7. Gofynnwyd i aelodau gyflwyno eu hadroddiad i'r Gwasanaeth Democrataidd erbyn 26 Mai 2023. Er mwyn rhoi pob cyfle i aelodau ymateb, rhoddwyd estyniad i'r dyddiad cau a derbyniwyd yr adroddiadau olaf ar 6 Mehefin. Bydd angen adolygu a chyfieithu'r adroddiadau i sicrhau cysondeb. Anelir i gyhoeddi'r adroddiadau ar wefan y Cyngor erbyn diwedd Mehefin.

8. Mae 19 allan o 35 (54%) adroddiad wedi eu derbyn ar gyfer 2022/23. Er bod hynny'n gynnydd sylweddol ar sefyllfa 21/22, fel eglurir ym mharagraff 5 uchod roedd y llynedd yn flwyddyn anarferol. Mae'n fwy cywir cymharu gyda 2020/21 pan gyflwynwyd 16 allan o 30 (53%) adroddiad.

**Camau Nesaf**

9. Bwriedir cyflwyno'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 28 Mehefin a bydd trafodaeth yn y grŵp arweinyddion yn ystod mis Mehefin.

10. Er bod cyflwyno adroddiad blynyddol yn cael ei ystyried yn arfer dda, nid yw'n ofyniad statudol, felly mae sicrhau canran uchel o ymatebion yn heriol. Er mwyn ceisio gwneud y broses mor rhwydd a hwylus â phosibl, dros yr wythnosau nesaf bydd swyddogion y Gwasanaeth Democrataidd yn ystyried camau pellach, gan gynnwys:
    - Rhagor o drafodaethau gyda aelodau unigol i ddeall beth yw'r rhwystrau
    - Trafodaethau gyda chynghorau sir eraill i ddeall os oes arfer da / gwersi i'w dysgu
    - Datblygu'r templed fel ei fod mor hawdd a phosibl i'w ddefnyddio.

**Argymhelliad**

11. Gofynnir i'r Pwyllgor Safonau ystyried cynnwys yr adroddiad hwn.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | PWYLLGOR SAFONAU |
| **DYDDIAD:** | 14eg MEHEFIN 2023 |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | HYFFORDDIANT AELODAU ETHOLEDIG |
| **ADRODDIAD GAN:** | RHEOLWR DATBLYGU ADNODDAU DYNOL |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | MIRIAM WILLIAMS (estyniad 2512) |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | I ROI DIWEDDARIAD AR FATERION HYFFORDDIANT A DATBLYGU AELODAU ETHOLEDIG |

## 1. CEFNDIR

Pwrpas yr adroddiad yma ydi rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Safoau ar faterion Hyfforddiant a Datblygu ers yr adroddiad gyflwynwyd mis Mehefin 2022 ac i roi trosolwg o'r ddarpariaeth gynigwyd i Aelodau Etholedig yn ystod y flwyddyn ariannol diwethaf.

Yn ogystal cyflwynir gwybodaeth ynglyn a'r trefniadau sydd ar y gweill ar gyfer rhaglen Hyfforddiant 2023-2024.

## 2. Y CYNLLUN

Rhwng 11 o Fai a'r 31 Mawrth, cynigwyd 59 diwrnod o hyfforddiant gan Tîm Datblygu Adnoddau Dynol i Aelodau Etholedig - noder fod rhain yn ychwanegol i'r sesiynau briffio rheolaidd sydd ar gael iddynt.

Mae'r hyfforddiant gynigwyd yn ymdrin ag ystod eang o feysydd, rhai yn ymwneud â Pwyllgorau penodol e.e. Cynllunio/ Awdit tra bo sesiynau cyffredinol megis Cadeirio a sgiliau TG hefyd ar gael i bawb. Yn nhermau mynychiant sesiynau, mae hyn wedi amrywio.

Mewn perthynas a'r cyrsiau tybir fod yn fandadol, mae'r lefelau mynychu fel y nodir isod:

- Cod Ymddygiad x29
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth x25
- Egwyddorion Cyffredinol Diogelu Data (GDPR) x19
- Diogelwch Seibr x35

- Diogelwch x21

## 3. CYNLLUN AR GYFER 2023-2024

Fel yr amlygir yn adran 4 o Strategaeth Datblygu Aelodau (gweler atodiad 1), mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi'r cyfle i bob Aelod gael adolygiad blynyddol o'i anghenion hyfforddi. Rhoddwyd trefniadau mewn lle i pob Aelod gael Cyfweliad Datblygu cyn diwedd Ebrill.

Yn ddelfrydol, fe ddylai'r cyfweliad datblygu gael ei cynnal gan arweinydd grŵp yr aelod. Os nad yw hyn yn bosibl, yna fe all y cyfweliad gael ei gynnal gyda'r Pennaeth Democrataidd. Fe ddylai'r cyfweliad ganolbwyntio ar rôl a chyfrifoldebau ar allbwn o'r uchod fydd Cynllun Datblygu unigol ar gyfer pob Aelod sy'n ymgymeryd a cyfweliad neu sy'n rhoi gwybodaeth o'I anghenion datblygu ef/hi I'r Pennaeth Democrataidd (o fewn cyfyngiadau cyllidebau ac adnoddath arall sydd ar gael).

Er mwyn sicrhau fod y Rhaglen Datblygu yn ymateb i anghenion yr Awdurdod yn ogystal a rhai'r Aelodau unigol, ymgynghorir gyda'r Tim Arweinyddiaeth Strategol a Phenaethiaid Gwasanaeth er mwyn ei gwahodd i gynnig unrhyw anghenion datblygu ac hyfforddiant ar gyfer ei maes penodol.

Bydd yr uchod yn cael ei ystyried wrth lunio'r cynllun ar gyfer 2023-2024 ac fydd yn cael ei gyflwyno i Gadeirydd Democrataidd a'r Pennaeth Democrataidd i gael sêl bendith.

## 4. CYFATHREBIADAU

Yn nhermau cyfathrebiadau, ac fel dilyniant i'r cynllun hyfforddiant cychwynnol gyhoeddwyd, mae bwletinau Aelodau Etholedig wedi cael ei cyhoeddi a'i cylchredeg, gyda'r bwriad o hyrwyddo hyfforddiant sydd wedi ei drefnu.

Mae fersiynau electronic o'r bwletinau ar gael o fewn Dashfwrdd Aelodau Etholedig (lansiwyd mis Gorffennaf 2022) ac sydd ar gael ar Platform E-ddysgu'r Awdurdod, Learning Pool. Yma, mae gan Aelodau Etholedig fynediad i wybodaeth yn ymwneud ag Iechyd & Llesiant; modiwlau cyffredinol, yn ogystal â modiwlau sy'n benodol ar gyfer ei rolau.

Yn ogystal â'r uchod, mae gwahoddiadau i fynychu hyfforddiant yn cael ei rhannu drwy e-byst/apwyntiadau.

Fel rhan o drefniant newydd eleni, bydd adroddiadau chwarterol yn cael ei dosbarthu i'r Arweinyddion Grwpiau gyda cofnod o'r sesiynau hyfforddiant mae Aelodau penodol o'u Grŵp wedi'i gwahodd iddynt/mynychu.

## 5. FFURF TROSGLWYDDO

Mae trosglwyddo sesiynau hyfforddiant yn parhau i gymeryd lle drwy gyfryngau fel MSTeams/Zoom yn ogystal â defnyddio adnoddau ychwanegol sydd ar gael ar blatfform E-ddysgu'r Awdurdod, Learning Pool, sy'n galluogi mynediad ar unrhyw amser. Yn ychwanegol i hyn, bydd ystyriaeth yn cael ei roi i gynnal sesiynau dosbarth/hybrid yn ystod 2023/2024.

Mae amseriad sesiynau'n cael ei adolygu'n barhaus o ran pryd maent yn cael ei cynnal e.e. yn ystod y dydd/hwyr pnawn/gynnar gyda'r hwyr, fel bod ymrwymiadau gwaith/gofal yn cael ei cymeryd i ystyriaeth ac er mwyn uchafu'r niferoedd yn mynychu. Lle bynnag yn bosibl ac yn ymarferol, bydd y Tîm Datblygu yn ceisio cynnig opsiynau o ddyddiadau/amseroedd.

## 6. I GRYNHOI

Cydnabyddir fod y nifer sesiynau hyfforddiant ar ddechrau'r cyfnod llynedd yn eitha swmpus ond fel bu i'r flwyddyn fynd heibio lleddfodd rhain. Lle bu i Aelodau Etholedig fethu mynychu rhai o'r sesiynau mandadol, bwriedir trefnu sesiynau pellach fel rhan o'r rhaglen ar gyfer 2023/2024 er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

Yn naturiol, bydd y cynllun gyflwynir eleni yn cael ei adolygu a'i addasu wrth dderbyn mewnbwn gan rhanddeiliaid a bydd hyn yn sicrhau ein bod yn gallu ymateb i'r anghenion hyfforddiant a'i gyflwyno'n amserol.

## 7. ARGYMHELLIAD

- I nodi cynnwys yr adroddiad

**Miriam Williams**
**Rheolwr Hyfforddiant AD**
**Mehefin 2023**

# Cyngor Sir Ynys Môn

# STRATEGAETH DATBLYGU AELODAU

## 2022 - 2027

**‘Llunio’r dyfodol trwy ddatblygu pobl’**

**Dyddiad Adolygu: Mawrth 2027**

# STRATEGAETH DATBLYGU AELODAU

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn cydnabod bod galwadau a disgwyliadau cynyddol ar Aelodau, o ystyried cyflymder y newid deddfwriaethol a'r amgylchedd sy'n newid o hyd. Mae gofyniad felly i sicrhau bod datblygiad a chymorth effeithiol ar waith i'w galluogi i gyflawni gofynion eu rolau.

1.2 Mae'r Cyngor yn gweithredu mewn amgylchedd sy'n newid o hyd, gan orfod ymateb i newidiadau mewn deddfwriaeth (e.e. Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)) 2014). ); Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, sy'n lleihau cyllidebau tra'n ysgwyddo cyfrifoldebau newydd. Mae hyn yn gofyn am Aelodau Etholedig a gweithlu sy'n hyblyg ac yn ymatebol i newid. Mae'r Cyngor yn wynebu rhaglen hynod heriol sy'n cynnwys:-

- Cydweithio ag awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill i wella darpariaeth gwasanaethau.
- Ymateb i doriadau cyllidebol flwyddyn ar ôl blwyddyn.
- Rolau newydd, heriol a newidiol i Aelodau Etholedig.
- Trefniadau rheoli gwleidyddol newydd a chyfrifoldeb am graffu ar ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill.
- Pwyslais ar welliant parhaus.
- Llywodraethu Corfforaethol.
- Datblygiadau Digidol a Thechnegol

1.3 Wrth groesawu'r heriau hyn, rhaid i'r Cyngor barhau i ddatblygu ei Aelodau fel eu bod yn:

- Ymateb i newid.
- Gwneud y defnydd gorau o'r holl adnoddau sydd ar gael.
- Yn gallu herio'r Cyngor a sefydliadau eraill yn deg a nodi arfer gorau.
- Yn canolbwyntio ar wneud y gorau o'r canlyniadau a ddarperir gan wasanaethau cyhoeddus o fewn yr hinsawdd heriol sydd ohoni gydag adnoddau ariannol yn lleihau.
- Yn arweinwyr cymunedol dylanwadol.

## 2. Pwrpas y Strategaeth

2.1 Er mwyn galluogi Cynghorwyr i weithredu’n effeithlon ac effeithiol wrth gyflawni eu rolau amrywiol, mae’n bolisi gan y Cyngor nodi anghenion dysgu a datblygu pob Cynghorydd.

2.2 Mae hyn yn gofyn am agwedd ragweithiol tuag at Ddatblygu Aelodau a chefnogaeth ar ffurf cyflwyniadau, seminarau a gweithdai a hwylusir yn fewnol ac yn allanol yn ogystal â thrwy gyrsiau hyfforddi penodol. Mae'r Cyngor wedi cefnogi datblygiad Aelodau trwy ddyrannu cyllideb benodol ac wedi cymhwyso ei bolisi ar sail gyfartal i bob un o'r 35 Aelod, yn ogystal â chefnogi aelodau cyfetholedig o'r pwyllgorau Safonau, Archwilio a Sgriwtini. Cafodd y system hon ei ffurfioli yn 2008 pan ddyfarnwyd Siarter CLILC ar gyfer Cynorthwyo a Datblygu Aelodau’r Cyngor, a gafodd ei hadnewyddu yn 2019.

2.3 Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i wella ymhellach y cyfleoedd a'r gefnogaeth i Aelodau a'u hanghenion dysgu a datblygu. Mae statws Siarter yn tanlinellu pwysigrwydd parhaus hyfforddiant a datblygiad i Aelodau ac yn sicrhau y bydd darpariaeth yn y dyfodol yn seiliedig ar angen, a ddarperir gan weithwyr proffesiynol lle caiff ansawdd yr hyfforddiant ei fonitro o ran ansawdd a'i ddarparu i bob Aelod ar sail gyfartal.

## 3. Strategaeth Datblygu Aelodau – Nodau ac Amcanion

3.1 Mae Datblygu Aelodau yn cyfeirio at unrhyw weithgareddau datblygu neu raglenni hyfforddi sydd wedi'u cynllunio'n benodol i wella gwybodaeth, sgiliau a galluoedd Aelodau Etholedig yn eu rolau amrywiol.

3.2 Nod y strategaeth hon yw rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar Aelodau yn eu rolau presennol ac yn y dyfodol a diwygio/diweddaru disgrifiadau rôl yn ôl yr angen. Er mwyn sicrhau bod y strategaeth hon yn cwrdd ag anghenion Aelodau a'r Cyngor, bydd gweithgareddau'n cael eu cynllunio'n briodol, yn cael adnoddau o fewn terfynau'r gyllideb bresennol, yn cael eu monitro a'u gwerthuso.

3.3 Prif amcanion y strategaeth yw:-

- Sicrhau dealltwriaeth glir a rennir o rolau amrywiol Aelodau.

- Gwella perfformiad deiliaid uwch swyddi gyda chymorth Cyfweliadau Cymorth a Datblygiad Personol blynyddol.
- Darparu rhaglen anwytho integredig a rhaglen rôl, sgiliau a gwybodaeth barhaus o gyfleoedd datblygu i bob Aelod.
- I gynnig cyfleoedd i Aelodau Etholedig i ddatblygu a gwella ei sgiliau digidol fydd yn ei cynorthwyo i fod yn fwy effeithiol gyda heriau technolegol
- Darparu cymorth wedi'i deilwra i anghenion Aelodau yn seiliedig ar ddadansoddiad o anghenion hyfforddi unigol.
- Monitro effaith y strategaeth a defnyddio adborth i wella dros amser a dathlu llwyddiant.

3.4 Bydd y Cyngor yn darparu hyfforddiant a datblygiad hyblyg ac ymatebol i Aelodau Etholedig sy'n seiliedig ar anghenion unigol a sefydliadol. Bydd hyn yn cynyddu effeithiolrwydd Aelodau yn eu rolau amrywiol i sicrhau bod Cyngor Sir Ynys Môn yn cael ei ystyried fel arweinydd wrth ddarparu cefnogaeth i Aelodau Etholedig ac yn haeddu statws Siarter.

3.5 Dylid darllen y strategaeth hon ar y cyd â “Pholisi Dysgu, Hyfforddi a Datblygu” corfforaethol cyfredol yr Awdurdod.

## 4. Gweithredu Gofynion y Siarter

4.1 Mae'n hanfodol i'w llwyddiant bod Aelodau'n cymryd rhan arweiniol yn ei datblygiad, yn goruchwylio ei gweithrediad, yn fodlon cymryd rhan yng ngofynion y Siarter ac yn chwarae rhan lawn wrth werthuso a monitro ei chynnydd a'i heffeithiolrwydd.

4.2 Mae Siarter Cymru ar gyfer Cynorthwyo a Datblygu Aelodau yn nodi dull gweithredu trwyadl a strwythuredig ar gyfer datblygu Aelodau. Isod mae prif ofynion y Siarter ac ymagwedd y Cyngor at eu gweithredu:-

4.2.1 Cefnogir aelodau gyda disgrifiadau rôl, sy'n cael eu hadolygu yn ôl yr angen ac sy'n amodol ar gymeradwyaeth ffurfiol cyn eu dosbarthu i bob aelod, gan gynnwys aelodau cyfetholedig. Cânt eu defnyddio i lywio'r cynlluniau hyfforddi a datblygu unigol a fydd ar gael i bob aelod.

Gwneir dolenni o’r disgrifiadau rôl safonol a’r manylebau personol i dudalen ar-lein bersonol pob aelod.

4.2.2 Cefnogir aelodau i gyflawni eu dyletswyddau yn unol â safonau ymddygiad uchel - mae hyfforddiant Cod Ymddygiad wedi'i nodi fel elfen graidd o'r Rhaglen Datblygu Aelodau a darperir hyfforddiant yn ôl yr angen.

4.2.3 Cefnogir aelodau i ddeall eu rolau a'u cyfrifoldebau fel y nodir yn y Cyfansoddiad - Darperir hyfforddiant priodol ar rolau amrywiol Aelodau a phwyllgorau.

4.2.4 Mae strategaeth dysgu a datblygu Aelodau wedi'i mabwysiadu - Mae'r ddogfen hon wedi'i mabwysiadu gan y Cyngor fel ei Strategaeth Datblygu Aelodau.

4.2.5 Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi'r cyfle i bob Aelod gael adolygiad blynyddol o'i anghenion hyfforddi. Bydd trefniadau'n cael eu gwneud i bob Aelod gael cynnig Cyfweliad Datblygu ac atgoffir yr Aelodau o'r cyfle hwn yn flynyddol. Mae Siarter CLlLC hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob Aelod sy'n derbyn Cyflog Uwch gael cyfweliad o'r fath.

4.2.6 Er mwyn sicrhau bod yr anghenion hyfforddi a datblygu yn cwmpasu ystod mor eang â phosibl o ofynion Aelodau, pan na fydd Aelodau unigol yn manteisio ar yr opsiwn hwn byddant yn cael y cyfle i ymateb naill ai'n uniongyrchol i'r Pennaeth Democratiaeth a/neu Arweinydd ar gyfer Datblygu'r Gweithlu dros y ffôn, drwy e-bost neu'n ysgrifenedig.

4.2.7 Nodi Anghenion yr Awdurdod – Er mwyn sicrhau bod y rhaglen yn mynd i'r afael ag anghenion cyffredinol yr Awdurdod yn ogystal ag anghenion Aelodau unigol, ymgynghorir yn flynyddol â Thîm Arweinyddiaeth Strategol yr Awdurdod a Phenaethiaid Gwasanaeth i gyflwyno unrhyw anghenion datblygu a hyfforddi Aelodau posibl ar gyfer ei faes cyfrifoldeb.

4.2.8 Cynlluniau Datblygu Unigol - Deilliant yr uchod fydd Cynllun Datblygu Aelod unigol ar gyfer pob Aelod sy'n cynnal cyfweliad neu'n rhoi manylion ei anghenion hyfforddi i'r Pennaeth Democratiaeth (o fewn cyfyngiadau'r cyllidebau sydd ar gael ac adnoddau eraill).

4.2.9 E-Ddysgu – Bydd cyfres o fodiwlau e-ddysgu yn cael eu datblygu a'u defnyddio fel elfen allweddol o ddatblygiad Aelodau.

4.2.10 Mae rhaglen ddatblygu ar gyfer cynghorwyr yn ei lle gyda mecanwaith ar gyfer ei adolygiad blynyddol – Bydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn cytuno ar Raglen Datblygu Aelodau yn flynyddol, gan ystyried a gwerthuso cynllun y flwyddyn flaenorol, adolygiadau datblygu Aelodau unigol, adborth gan Aelodau sy'n ymateb i'r Pennaeth Democratiaeth ac adborth gan swyddogion a Thîm Arweinyddiaeth Strategol yr Awdurdod.

4.2.11 Mae pob Aelod yn cael gwybod am y gweithgareddau datblygu, yn cael eu hannog i gymryd rhan ynddynt ac yn gallu cael mynediad cyfartal iddynt – Bydd rhaglen o ddigwyddiadau hyfforddi yn cael ei dosbarthu i bob Aelod.

4.2.12 Hysbysir darpar ymgeiswyr, ymgeiswyr ac Aelodau newydd o'u rôl a'u cyfrifoldebau – bydd darpar ymgeiswyr yn cael gwybodaeth, digwyddiadau a chefnogaeth briodol yn ystod y cyfnod yn arwain at etholiad.

4.2.13 Mae gweithgareddau datblygu yn berthnasol ac o ansawdd uchel – Defnyddir ystod o ddarpariaeth fewnol ac allanol fel y bo'n briodol a bydd gwerthusiad o bob sesiwn yn cael ei wneud.

4.2.14 Mae cyfrifoldeb clir am arwain y rhaglen, gyrru'r strategaeth a monitro'r canlyniadau – Y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, gyda chefnogaeth y Pennaeth Democratiaeth, fydd yn gyfrifol am y strategaeth hon a'r rhaglen.

4.2.15 Mae adnoddau'n cael eu nodi a'u darparu ar gyfer datblygu Aelodau - Bydd cyllideb hyfforddi flynyddol yn bodoli i gwrdd â gofynion datblygu Aelodau, gyda lefel y gyllideb yn amodol ar gyfyngiadau ariannol yr Awdurdod.

4.2.16 Bydd pob Aelod yn cael cynnig y cyfle i ofyn am fentora gyda mentoriaid sydd wedi derbyn hyfforddiant priodol i ymgymryd â'r rôl.

4.2.17 Darperir cefnogaeth swyddogion ar gyfer datblygu, cefnogi a chraffu Aelodau - Bydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, gyda chefnogaeth y Pennaeth Democratiaeth, yn gyfrifol am sicrhau bod cefnogaeth ddigonol yn bodoli.

4.2.18 Mae'r trefniadau a wneir ar gyfer busnes y Cyngor yn hyblyg ac yn galluogi Aelodau i gyfranogi'n llawn, waeth beth fo'u hamgylchiadau personol – Cyflwynir adroddiad blynyddol i'r Cyngor i ystyried dyddiadau ac amseroedd cyfarfodydd ar gyfer y flwyddyn i ddod, gan gymryd i ystyriaeth ofynion y Cyngor. Deddf

Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac i gyfarch amrywiaeth Aelodau Etholedig.

4.2.19 Rheoli cyswllt a chyfathrebu – bydd aelodau'n cael gwybodaeth briodol fel rhan o becyn Anwytho ac ar fewnrwyd y Cyngor i'w cefnogi i gyflawni eu dyletswyddau.

Bydd yr Awdurdod yn cynnal safonau ar gyfer amseroedd ymateb i e-byst, galwadau ffôn a gohebiaeth ysgrifenedig.

4.2.20 Adroddiadau Blynyddol - Bydd pob Aelod yn cael cynnig y cyfle i gynhyrchu Adroddiad Blynyddol yn unol â'r gofynion

4.2.21 Darperir mynediad digonol i TGCh i bob Aelod – Darperir offer, cefnogaeth a hyfforddiant priodol i Aelodau.

4.2.22 Darperir adnoddau gwybodaeth – Mae adnoddau a gwybodaeth briodol ar gael i Aelodau mewn fformat priodol.

4.2.23 Mae cyfleusterau i Aelodau weithio yn y Cyngor ar gael - Bydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, gyda chefnogaeth y Pennaeth Democratiaeth, yn adolygu o bryd i'w gilydd bod adeiladau, TGCh ac adnoddau cysylltiedig eraill yn ddigonol i ddiwallu anghenion Aelodau.

## 5. Cyflawni Strategaeth

5.1 Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, fel yr Hyrwyddwr Datblygu Aelodau, yn arwain ar hyn, gyda chefnogaeth y Pennaeth Democratiaeth. Bydd y Strategaeth/Cais y Siarter yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ond mae cyfrifoldeb am fabwysiadu'r cynllun blynyddol, monitro ac adrodd yn gyfrifoldeb ar y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

5.2 Pwrpas gwaith y Pwyllgor yn hyn o beth fydd:-

- Sefydlu proses Hyfforddi a Datblygu Aelodau gynhwysfawr a chadarn gan ddefnyddio egwyddorion Siarter CLlLC ar gyfer Datblygu a Chynorthwyo Aelodau.

- Sicrhau bod Datblygu Aelodau yn dod yn rhan o weithgarwch sefydliadol prif ffrwd cyffredinol.
- Gwneud argymhellion i'r Cyngor, fel y bo'n briodol, ar Gymorth i Aelodau, yn enwedig Datblygu Aelodau.
- Cydlynu a gwerthuso’n barhaus y Rhaglen Datblygu Aelodau.
- Monitro cynnydd yn erbyn amcanion y Strategaeth.

5.3 Bydd yr holl weithgareddau hyfforddi a datblygu Aelodau a ddarperir o ganlyniad i’r Strategaeth hon yn:-

- Cael eu sicrhau gan y darparwyr hyfforddiant neu'r hwyluswyr mwyaf effeithiol a phriodol o'r tu mewn neu'r tu allan i'r Awdurdod.
- Ymateb i anghenion yr Aelodau o ran dull ac arddull cyflwyno.
- Cymryd i ystyriaeth egwyddorion polisïau perthnasol y Cyngor.
- Cael eu cynllunio a’i trefnu ar yr amseroedd a'r lleoliadau sydd fwyaf cyfleus i Aelodau er mwyn cyfarch yr ystod eang o Aelodau Etholedig.

## 6. Gwerthusiad o'r Strategaeth

6.1 Bydd cynnydd yn cael ei fonitro a'i werthuso yn barhaus gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a'r Pennaeth Democratiaeth.

6.2 Bydd datblygiad Aelodau o ganlyniad i'r gweithgareddau yn cael ei asesu ganddynt hwy eu hunain gyda chefnogaeth uwch Aelodau a Swyddogion priodol os ydynt yn cymryd rhan yn y Cyfweliadau Cymorth a Datblygiad Personol.

## 7. Adnoddau

7.1 Bydd cyllideb flynyddol yn cael ei chynnwys yn y gyllideb Hyfforddiant Corfforaethol i gefnogi gweithgareddau Hyfforddi a Datblygu Aelodau. Mae gan y Pennaeth Democratiaeth gyfrifoldeb cyffredinol dros Ddatblygu Aelodau ac fe'i cefnogir gan y gwasanaeth AD i gydlynu, cysylltu a threfnu'r hyfforddiant perthnasol.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **14 Mehefin 2023** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Cwynion am Ymddygiad i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor am y cwynion a anfonwyd at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â (a) Cynghorwyr Sir a (b) Cynghorwyr Tref a Chymuned.** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Cyfreithiwr – Llywodraethiant Corfforaethol**<br>**mwycs@ynysmon.llyw.cymru** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.llyw.cymru**<br>**01248 752586** |

## 1. CYFLWYNIAD

Mae'r Pwyllgor Safonau'n derbyn diweddariad bob chwarter ynglŷn â'r cwynion a dderbyniwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â (a) Cynghorwyr Sir a (b) Cynghorwyr Tref / Cymuned.

## 2. DIWEDDARIAD

2.1 Cyflwynwyd yr adroddiadau ar gyfer Chwarter 1 (Ebrill – Mehefin 2022) a Chwarter 2 (Gorffennaf – Medi 2022) yn 2022/2023 yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau ar 28 Mehefin 2022.

2.2 Mae copi o'r adroddiad ar gyfer Chwarter 3 yn 2022/2023 [Hydref – Rhagfyr 2022], ynghylch Cynghorwyr Sir, wedi'i gynnwys yn **Atodiad 1**.

Mae copi o'r adroddiad ar gyfer Chwarter 3 yn 2022/2023, ynghylch Cynghorwyr Tref a Chymuned , wedi'i gynnwys yn **Atodiad 2**.

2.3 Mae copi o'r adroddiad ar gyfer Chwarter 4 yn 2022/2023 [Ionawr – Mawrth 2023], ynghylch Cynghorwyr Sir, wedi'i gynnwys yn **Atodiad 3**.

Mae copi o'r adroddiad ar gyfer Chwarter 4 yn 2022/2023, ynghylch Cynghorwyr Tref a Chymuned , wedi'i gynnwys yn **Atodiad 4**.

2.4 Bydd yr adroddiadau ar gyfer Chwarteri 3 a 4 **(Atodiadau 1 - 4)** yn cael eu dosbarthu o fewn y Newyddlenni i'r Cynghorau Tref a Chymuned ac i aelodau etholedig a chyf-etholedig y Cyngor hwn yn dilyn y cyfarfod yma o'r Pwyllgor Safonau.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Bod aelodau'r Pwyllgor Safonau yn nodi cynnwys **Atodiadau 1 - 4** ac yn ystyried unrhyw dueddiadau a amlygir (os o gwbl) ac unrhyw gamau gweithredu sydd eu hangen er mwyn cywiro pethau.

3.2 I'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro ddosbarthu yr **Atodiadau 1-4** efo'r Cynghorau Tref a Chymuned ac aelodau etholedig a chyf-etholedig y Cyngor o fewn eu Newyddlenni perthnasol.

**CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH CYNGHORWYR CYNGOR SIR YNYS MÔN - DIWEDDARIAD**

**UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" -REGARDING ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCILLORS – UPDATE**

**Chwarter 3 (Hydref - Rhagfyr 2022) – 2022/2023 – Quarter 3 (October – December 2022)**

| Enw'r Cynghorydd<br><br>Name of Councillor | Enw'r Achwynydd<br><br>Name of Complainant | Cyfeirnod y Ffeil<br><br>File Reference<br><br>(i) Un ni/Ours<br>(ii) "O" | Dyddiad y Gŵyn - "O"<br><br>Complaint date - "O" | Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol<br><br>Result of "O" Investigation and date or the current situation |
|---|---|---|---|---|
| DIM I'W ADRODD / NONE TO REPORT | | | | |

**CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH**
**CYNGHORWYR CYMUNEDOL A THREF - DIWEDDARIAD**

**UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" - REGARDING**
**TOWN AND COMMUNITY COUNCILLORS – UPDATE**

**Chwarter 3 (Hydref - Rhagfyr 2022) – 2022/2023 – Quarter 3 (October – December 2022)**

| Enw'r Cynghorydd<br><br>Name of Councillor | Enw'r Achwynydd<br><br>Name of Complainant | Cyfeirnod y Ffeil<br><br>File Reference<br><br>(i) Un ni/Ours<br>(ii) "O" | Dyddiad y Gŵyn - "O"<br><br>Complaint date - "O" | Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol<br><br>Result of "O" Investigation and date or the current situation |
|---|---|---|---|---|
| **DIM I'W ADRODD / NONE TO REPORT** | | | | |

Tudalen 34

**CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH CYNGHORWYR CYNGOR SIR YNYS MÔN - DIWEDDARIAD**

**UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" -REGARDING ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCILLORS – UPDATE**

**Chwarter 4 (Ionawr – Mawrth 2023) – 2022/2023 – Quarter 4 (January – March 2023)**

| **Enw'r Cynghorydd**<br><br>**Name of Councillor** | **Enw'r Achwynydd**<br><br>**Name of Complainant** | **Cyfeirnod y Ffeil**<br><br>**File Reference**<br><br>**(i) Un ni/Ours**<br>**(ii) "O"** | **Dyddiad y Gŵyn - "O"**<br><br>**Complaint date - "O"** | **Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol**<br><br>**Result of "O" Investigation and date or the current situation** |
|---|---|---|---|---|
| **DIM I'W ADRODD / NONE TO REPORT** | | | | |

Tudalen 35

**CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH CYNGHORWYR CYMUNEDOL A THREF - DIWEDDARIAD**

**UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" - REGARDING TOWN AND COMMUNITY COUNCILLORS – UPDATE**

**Chwarter 4 (Ionawr – Mawrth 2023) – 2022/2023 – Quarter 4 (January – March 2023)**

| Enw'r Cynghorydd<br><br>Name of Councillor | Enw'r Achwynydd<br><br>Name of Complainant | Cyfeirnod y Ffeil<br><br>File Reference<br><br>(i) Un ni/Ours<br>(ii) "O" | Dyddiad y Gŵyn - "O"<br><br>Complaint date - "O" | Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol<br><br>Result of "O" Investigation and date or the current situation |
|---|---|---|---|---|
| DIM I'W ADRODD / NONE TO REPORT | | | | |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **14 Mehefin 2023** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Penderfyniadau cyhoeddus ar gyfer holl Gynghorau Cymru gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Cynghori'r Pwyllgor am benderfyniadau Cymru gyfan a gyhoeddwyd ar wefan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Rhagfyr 2022 a 31 Mai 2023.** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Cyfreithiwr – Llywodraethiant Corfforaethol**<br>**mwycs@ynysmon.llyw.cymru** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.llyw.cymru**<br>**01248 752586** |

## 1. CYFLWYNIAD

Fel nodwyd mewn adroddiad blaenorol (Rhagfyr 2022), mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) wedi newid y ffordd mae bellach yn cyhoeddi penderfyniadau ar faterion Cod Ymddygiad.

Ni chyhoeddir Coflyfrau Cod Ymddygiad ers Ebrill 2021 ac mae holl achosion OGCC yn cael eu cyhoeddi ar y wefan o dan benawdau penodol yn awr.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r wybodaeth a gyhoeddwyd o dan y penawd "Ein Canfyddiadau" ar wefan OGCC ar gyfer y misoedd Rhagfyr 2022 hyd Mai 2023 mewn perthynas â materion Cod Ymddygiad yn unig [**ATODIAD 1].**

## 2. CEFNDIR

Mae OGCC yn gweithredu pwerau "sifft gyntaf" dan Adran 69 Deddf Llywodraeth Leol 2000, sy'n gosod dyletswydd arnynt i ystyried cwynion y gallai aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru fod wedi torri eu cod ymddygiad. Mae awdurdodaeth OGCCyn cynnwys cynghorau sir a chynghorau tref a chymuned.

Ar ôl derbyn cwyn, mae OGCC yn gweithredu prawf trothwy er mwyn gweld a ddylid ymchwilio i'r gŵyn ai peidio. Mae'r prawf trothwy yn cynnwys OGCC yn bod yn fodlon:-

- Bod tystiolaeth i awgrymu y gallai'r cod ymddygiad fod wedi cael ei dorri; a
- Bod y mater yn ddigon difrifol fel ei fod o fudd i'r cyhoedd bod ymchwiliad yn cael ei agor.

Yn dilyn agor ymchwiliad, gallai OGCC ddod i un o bedwar canlyniad o dan Adran 69 Deddf Llywodraeth Leol 2000 sef:

(a) nad oes unrhyw dystiolaeth bod cod ymddygiad yr awdurdod wedi cael ei dorri;
(b) nad oes angen cymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r materion a oedd yn destun yr ymchwiliad;
(c) y dylid cyfeirio'r mater at swyddog monitro'r awdurdod ar gyfer ystyriaeth y pwyllgor safonau; neu
(d) bod y mater yn cael ei gyfeirio at Lywydd Panel Dyfarnu Cymru ar gyfer penderfyniad drwy dribiwnlys (bydd hyn yn digwydd mewn achosion mwy difrifol fel arfer).

Os yw (c) neu (d) uchod yn berthnasol, bydd OGCC yn cyflwyno ei adroddiad i'r pwyllgor safonau lleol neu Banel Dyfarnu Cymru (PDC) a lle'r pwyllgor, neu dribiwnlys achos ar ran PDC, yw cynnal gwrandawiad er mwyn ystyried y dystiolaeth a gwneud penderfyniad terfynol a gafodd y côd ymddygiad ei dorri ai peidio, ac os hynny, a ddylid rhoi cosb a beth ddylid ei roi fel cosb.

Mae gan bwyllgorau safonau awdurdod statudol i wahardd cynghorwyr am gyfnodau hyd at 6 mis. Does gan bwyllgorau safonau ddim pwerau anghymhwyso, a lle bydd canfyddiadau o dorri rheolau, byddant yn ceisio rhoi cosb sy'n briodol ar gyfer y drosedd. Bydd hyn yn aml iawn yn gerydd (cerydd cyhoeddus) neu'n argymhelliad o hyfforddiant/ymrwymiad/cyfryngu ayb.

Mae gan dribiwnlys achos awdurdod i wahardd cynghorydd am hyd at 12 mis ac anghymhwyso hyd at 5 mlynedd.

## 3. NEWYDDLEN CHWARTEROL

Yn ogystal â'r wybodaeth ar y wefan, mae'r Ombwdsmon yn cyhoeddi Newyddlen chwarterol. Mae Newyddlen Chwarterol cyntaf yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (dyddiedig Mai 2023) i'w weld yma.

## 4. ARGYMHELLIAD

Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau yn arwain trafodaeth ar unrhyw faterion o ddiddordeb yr adroddir arnynt yn **ATODIAD 1**.

| Enw'r Cyngor | Dyddiad yr adroddiad | Crynodeb o'r Gŵyn | Darpariaethau Perthnasol o dan y Cod | Crynodeb o'r Penderfyniad | Math o Adroddiad | Pwyntiau dysgu ar gyfer yr aelodau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1.<br><br>Cyngor Gwynedd<br><br>Rhif achos 202107843 | 31/10/2022 | Derbyniodd swyddfa'r Ombwdsmon gŵyn bod aelod ("yr Aelod") o Gyngor Gwynedd ("y Cyngor") wedi torri'r cod ymddygiad. Honnwyd bod yr Aelod wedi ymddwyn yn amhriodol drwy ateb gohebiaeth Gymraeg yn Almaeneg. | Uniondeb.<br><br>Ystyriodd yr ymchwiliad p'un ai a oedd yr Aelod wedi methu â dilyn darpariaethau canlynol y Cod Ymddygiad:<br><br>4(a) -Rhaid i aelodau gyflawni eu dyletswyddau gan roi sylw dyledus i'r egwyddor y dylid sicrhau cyfle cyfartal i bawb, waeth beth fo'u rhyw, hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, oedran neu grefydd.<br><br>4(b) – Rhaid i aelodau ddangos parch ac ystyriaeth tuag at eraill.<br><br>6(1)(a) –. Ni ddylai aelodau ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ystyried eu bod yn dwyn anfri ar eu swydd neu awdurdod. | Fe wnaeth yr Aelod gyfaddef ei bod wedi ateb 2 e-bost Cymraeg yn Almaeneg. Dywedodd ei bod yn difaru gwneud hynny. Dywedodd nad oedd yn ymwybodol bod gwasanaeth cyfieithu'r Cyngor ar gael ar gyfer y math yma o ohebiaeth. Fodd bynnag, daeth yr ymchwiliad i'r casgliad, oherwydd ei bod wedi bod yn Aelod ers tro, y dylai fod wedi bod yn ymwybodol bod gan y Cyngor wasanaeth cyfieithu ac y byddai'n gwybod y byddai ateb yn Almaeneg yn cael ei ystyried yn amhriodol. Felly, roedd yr Ombwdsmon o'r farn bod yr Aelod wedi mynd yn groes i baragraffau 4(a), 4(b) a 6(1)(a) yn y Cod Ymddygiad.<br><br>Cyfeiriwyd yr adroddiad ar yr ymchwiliad at Swyddog Monitro Cyngor Gwynedd i'w ystyried gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor.<br><br>Daeth y Pwyllgor Safonau i'r casgliad bod yr Aelod wedi mynd yn groes i baragraffau 4(a), 4(b) a 6(1)(a) yn y Cod Ymddygiad.<br><br>Yn unol â hynny, penderfynodd y Pwyllgor Safonau wahardd yr Aelod am fis, a'i gorfodi i fynychu hyfforddiant ac ysgrifennu at yr Achwynydd i ymddiheuro cyn pen 3 wythnos. Fe wnaeth y Pwyllgor Safonau hefyd argymell bod y Cyngor | COD – Uniondeb<br><br>COD - Cyfeiriwyd at y Pwyllgor Safonau | Mae dolen i adroddiad Pwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd yn ystod ei Wrandawiad ar 18 Ebrill 2023 ar gael yn y fan yma. |

| Enw'r Cyngor | Dyddiad yr adroddiad | Crynodeb o'r Gŵyn | Darpariaethau Perthnasol o dan y Cod | Crynodeb o'r Penderfyniad | Math o Adroddiad | Pwyntiau dysgu ar gyfer yr aelodau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | yn ystyried cynorthwyo Aelodau pan fyddant yn derbyn gohebiaeth mewn iaith nad ydynt yn ei deall drwy ddefnyddio eu staff eu hunain neu gyfeirio'r Aelod at ddarparwr gwasanaeth cyfieithu. | | |
| **2.**<br><br>Cyngor Cymuned Llanarmon<br><br>Achos rhif 202106162 | 29/11/2022 | Derbyniodd swyddfa'r Ombwdsmon gŵyn bod aelod blaenorol ("Cyn Aelod") o Gyngor Cymuned Llanarmon ("y Cyngor") wedi torri'r Cod Ymddygiad. Honnwyd bod y Cyn Aelod wedi methu â datgan buddiannau mewn 2 o gyfarfodydd y Cyngor pan drafodwyd adroddiad gan Archwilio Cymru.<br><br>Fe wnaeth y Cyn Aelod gyfaddef ei bod yn ymwybodol bod ganddi fuddiannau personol a rhai oedd yn rhagfarnu, ond ni wnaeth eu datgan gan nad oedd yn dymuno gadael y cyfarfodydd. | Datgelu a chofrestru buddiannau.<br><br>Ystyriodd yr ymchwiliad a oedd y Cyn Aelod wedi methu â chydymffurfio â darpariaethau canlynol y Cod Ymddygiad:<br><br>6(1)(a) – Rhaid i aelodau beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eu swydd neu awdurdod.<br><br>7(a) – Rhaid i aelodau beidio â, yn eu capasiti swyddogol neu fel arall, defnyddio neu geisio defnyddio eu safle yn amhriodol i roi neu i sicrhau mantais i'w hunain neu i unrhyw berson arall, neu i greu neu i osgoi anfantais i'w hunain neu i unrhyw berson arall.<br><br>10(1) – Ym mhob mater, mae'n rhaid i aelodau ystyried a oes ganddynt fuddiant personol, ac a yw'r | Daeth yr ymchwiliad i'r casgliad bod y Cyn Aelod wedi torri paragraffau 6(1)(a), 7(a), 11(1), 14(1)(a), 14 (1)(c) a 14(1)(e) o'r Cod Ymddygiad.<br><br>Daeth y Tribiwnlys i'r casgliad bod yr Aelod wedi torri paragraffau 11(1), 14(1)(a) ac 14(1)(e) o'r Cod Ymddygiad drwy beidio â datgelu bod ganddi fuddiannau personol a rhai a oedd yn rhagfarnu mewn busnes perthnasol, gwrthod gadael y cyfarfodydd ar 1 Ebrill a 3 Tachwedd 221 a gwneud sylwadau llafar mewn perthynas â'r busnes hwnnw yn ystod y cyfarfodydd.<br><br>Daeth y Tribiwnlys hefyd i'r casgliad bod yr Aelod wedi torri paragraff 6(1)(a) o'r Cod Ymddygiad drwy gynnal ei hun mewn cyfarfodydd o'r fath mewn modd y gellid yn rhesymol ei ystyried fel un sy'n dwyn anfri ar ei swydd neu ei hawdurdod.<br><br>Daeth y Tribiwnlys i'r casgliad ymhellach bod yr Aelod wedi torri paragraffau 7(a) a 14(1)(c) o'r Cod Ymddygiad drwy ddefnyddio neu geisio defnyddio ei swydd yn amhriodol i osgoi anfantais i berson | COD – Datgelu a chofrestru buddiannau<br><br>COD – Cyfeiriwyd yr achos at Banel Dyfarnu Cymru | Trafodwyd yr achos fel eitem Agenda ar wahân (crynodeb o adroddiadau Panel Dyfarnu Cymru – eitem 7 ar yr agenda, achos rhif2).<br><br>Mae dolen i benderfyniad Panel Dyfarnu Cymru ar gael yn y fan yma. |

| Enw'r Cyngor | Dyddiad yr adroddiad | Crynodeb o'r Gŵyn | Darpariaethau Perthnasol o dan y Cod | Crynodeb o'r Penderfyniad | Math o Adroddiad | Pwyntiau dysgu ar gyfer yr aelodau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cytunodd ei bod wedi annerch y Cyngor a chymryd rhan yn y bleidlais yn ystod y ddau gyfarfod. Dywedodd y Cyn Aelod nad oedd yn difaru'r hyn a wnaeth o gwbl. | cod ymddygiad yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ddatgelu'r buddiant hwnnw.<br><br>10(2)(c) – Rhaid i aelodau ystyried bod ganddynt fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eu hawdurdod ag ef pe byddai'n rhesymol ystyried penderfyniad arno yn benderfyniad a fyddai'n effeithio ar eu llesiant neu eu sefyllfa ariannol, neu lesiant neu sefyllfa ariannol person y maent yn byw gydag ef, neu unrhyw berson y mae ganddynt gysylltiad personol agos ag ef.<br><br>11(1) – Pan fydd gan aelodau fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eu hawdurdod ag ef a phan fyddant yn bresennol mewn cyfarfod lle y caiff y busnes hwnnw ei ystyried, rhaid iddynt ddatgelu ar lafar gerbron y cyfarfod hwnnw fodolaeth a natur y buddiant hwnnw cyn i'r cyfarfod ystyried y busnes neu ar ddechrau'r ystyriaeth, neu pan ddaw'r buddiant i'r amlwg.<br><br>11(2) – Pan fydd gan aelodau | arall a cheisio dylanwadu ar benderfyniad ynghylch busnes perthnasol.<br><br>Yn unol â hynny, penderfynodd y Tribiwnlys y dylai'r Aelod gael ei anghymhwyso am 12 mis rhag bod neu ddod yn aelod o'r awdurdod neu o unrhyw awdurdod perthnasol arall. | | |

| Enw’r Cyngor | Dyddiad yr adroddiad | Crynodeb o’r Gŵyn | Darpariaethau Perthnasol o dan y Cod | Crynodeb o’r Penderfyniad | Math o Adroddiad | Pwyntiau dysgu ar gyfer yr aelodau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eu hawdurdod ag ef a phan wnânt gynrychioliadau llafar i un o aelodau neu o swyddogion eu hawdurdod, dylent ddatgelu’r buddiant ar ddechrau’r cyfryw gynrychioliadau, neu pan ddaw’n amlwg iddynt fod ganddynt fuddiant o’r fath, a chadarnhau’r cynrychioliad a’r buddiant yn ysgrifenedig o fewn 14 o ddiwrnodau ar ôl gwneud y cynrychioliad.<br><br>12(1) – Pan fydd gan aelodau fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eu hawdurdod ag ef, mae ganddynt hefyd fuddiant sy’n rhagfarnu yn y busnes hwnnw os bydd y buddiant yn un y bydd yn rhesymol i aelod o’r cyhoedd sy’n gwybod y ffeithiau perthnasol fod o’r farn ei fod mor arwyddocaol fel y bydd yn debygol o ragfarnu eu barn ynghylch buddiant cyhoeddus.<br><br>14(1)(a) – Yn ddarostyngedig i is-baragraffau (2), (2A), (3) a (4), pan fydd gan aelod fuddiant sy’n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes ei awdurdod, oni roddwyd gollyngiad iddo | | | |

| Enw'r Cyngor | Dyddiad yr adroddiad | Crynodeb o'r Gŵyn | Darpariaethau Perthnasol o dan y Cod | Crynodeb o'r Penderfyniad | Math o Adroddiad | Pwyntiau dysgu ar gyfer yr aelodau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | gan bwyllgor safonau ei awdurdod, mae'n rhaid iddo ymadael â'r ystafell, y siambr neu'r man lle y mae cyfarfod i ystyried y busnes yn cael ei gynnal –<br>i. pan fo is-baragraff (2) yn gymwys, yn syth ar ôl i'r cyfnod ar gyfer gwneud cynrychioliadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth sy'n ymwneud â'r busnes ddod i ben a beth bynnag cyn i ystyriaeth bellach o'r busnes ddechrau, p'un a ganiateir i'r cyhoedd aros yn bresennol ar gyfer y cyfryw ystyriaeth ai peidio;<br>neu<br>ii. mewn unrhyw achos arall, pa bryd bynnag y daw i'r amlwg bod y busnes hwnnw'n cael ei ystyried yn y cyfarfod hwnnw;<br><br>14(1)(c) – Yn ddarostyngedig i is-baragraffau (2), (2A), (3) a (4), pan fydd gan aelod fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes ei awdurdod, oni roddwyd gollyngiad iddo gan bwyllgor safonau ei awdurdod, mae'n rhaid iddo beidio â cheisio dylanwadu ar benderfyniad ynghylch y busnes hwnnw; | | | |

| Enw'r Cyngor | Dyddiad yr adroddiad | Crynodeb o'r Gŵyn | Darpariaethau Perthnasol o dan y Cod | Crynodeb o'r Penderfyniad | Math o Adroddiad | Pwyntiau dysgu ar gyfer yr aelodau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 14(1)(e) – Yn ddarostyngedig i is-baragraffau (2), (2A), (3) a (4), pan fydd gan aelod fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes ei awdurdod, oni roddwyd gollyngiad iddo gan bwyllgor safonau ei awdurdod, mae'n rhaid iddo beidio â gwneud unrhyw gynrychioliadau llafar (p'un ai'n bersonol neu ar ryw ffurf ar gyfathrebu electronig) mewn cysylltiad â'r busnes hwnnw neu raid i iddo roi'r gorau ar unwaith i wneud y cyfryw gynrychioliadau llafar pan ddaw'r buddiant sy'n rhagfarnu i'r amlwg. | | | |
| **3.**<br><br>Cyngor Tref Porthcawl<br><br>Achos rhif 202105146 | 30/11/2022 | Derbyniodd yr Ombwdsmon gŵyn bod aelod ("yr Aelod") o Gyngor Tref Porthcawl ("y Cyngor Tref") wedi torri'r Cod Ymddygiad i Aelodau.<br><br>Honnwyd bod yr Aelod wedi methu â datgan buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu yn ymwneud â pherthynas â gweithiwr ("y Gweithiwr") | Datgelu a chofrestru buddiannau<br><br>Ystyriodd yr ymchwiliad a oedd yr Aelod wedi methu â chydymffurfio â pharagraffau:<br><br>6(1)(a) – Rhaid i aelodau beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eu swydd neu awdurdod.<br><br>7(a) – Rhaid i aelodau beidio â, yn eu capasiti swyddogol neu fel arall, defnyddio neu geisio defnyddio eu safle yn amhriodol i roi neu i sicrhau | Canfu'r ymchwiliad fod yr Aelod a'r Gweithiwr wedi cael perthynas fer yn 2020, ac yn ystod y cyfnod hwnnw roedd yn debygol bod gan yr Aelod fuddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu y byddai angen iddo fod wedi'i ddatgan a thynnu yn ôl o gyfarfodydd perthnasol lle trafodwyd materion cysylltiedig, neu wrth gymeradwyo anfonebau. Roedd y dystiolaeth a gafwyd yn awgrymu nad oedd yr Aelod wedi cymeradwyo anfonebau tra bod y berthynas yn mynd rhagddi, a thra ei fod wedi mynychu sawl cyfarfod Cyngor Tref, a oedd yn cynnwys eitemau cysylltiedig, dim ond un o'r cyfarfodydd hyn oedd yn dod o fewn cyfnod y berthynas. Penderfynodd yr | COD – Datgelu a chofrestru buddiannau<br><br>COD – Dim Angen Gweithredu | Dengys yr achos hwn bod OGCC yn dal i ddefnyddio'r prawf dau gam h.y.<br>(1) ystyried y dystiolaeth – a oes tystiolaeth uniongyrchol bod y Cod wedi'i dorri; a<br>(2) ystyried budd y cyhoedd – a ddylid cynnal ymchwiliad neu gyfeirio'r achos at Banel Dyfarnu Cymru neu'r |

| Enw'r Cyngor | Dyddiad yr adroddiad | Crynodeb o'r Gŵyn | Darpariaethau Perthnasol o dan y Cod | Crynodeb o'r Penderfyniad | Math o Adroddiad | Pwyntiau dysgu ar gyfer yr aelodau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | cwmni yr oedd y Cyngor Tref wedi'i gontractio i'w waith. Honnwyd hefyd bod yr Aelod wedi caniatáu i adroddiad Archwilio Mewnol anghywir gael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor Tref. Penderfynodd yr Ombwdsmon ei bod yn briodol ymchwilio i'r honiadau ynghylch buddiannau, ac ystyriodd yr ymchwiliad a allai ymddygiad yr Aelod fod wedi torri paragraffau 6(1)(a), 7(a), 11(1), 14(1)(a) a 14(1)(b) o'r Cod Ymddygiad.<br><br>Cafwyd gwybodaeth gan y Cyngor Tref, gan gynnwys cofnodion perthnasol a negeseuon e-bost. Cyfwelwyd hefyd â thystion, gan gynnwys yr achwynydd, a'r Aelod. | mantais i'w hunain neu i unrhyw berson arall, neu i greu neu i osgoi anfantais i'w hunain neu i unrhyw berson arall.<br><br>11(1) – Pan fydd gan aelodau fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eu hawdurdod ag ef a phan fyddant yn bresennol mewn cyfarfod lle y caiff y busnes hwnnw ei ystyried, rhaid iddynt ddatgelu ar lafar gerbron y cyfarfod hwnnw fodolaeth a natur y buddiant hwnnw cyn i'r cyfarfod ystyried y busnes neu ar ddechrau'r ystyriaeth, neu pan ddaw'r buddiant i'r amlwg.<br><br>14(1)(a) – Pan fydd gan aelodau fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eu hawdurdod ag ef a phan fyddant yn bresennol mewn cyfarfod lle y caiff y busnes hwnnw ei ystyried, rhaid iddynt ddatgelu ar lafar gerbron y cyfarfod hwnnw fodolaeth a natur y buddiant hwnnw cyn i'r cyfarfod ystyried y busnes neu ar ddechrau'r ystyriaeth, neu pan ddaw'r buddiant i'r amlwg. | Ombwdsmon felly y gallai'r Aelod fod wedi torri paragraffau 11(1), 14(1)(a) a 14(1)(b) o'r Cod Ymddygiad mewn perthynas â'r cyfarfod o fewn y cyfnod perthnasol.<br><br>Canfuwyd gan nad oedd cysylltiad yr Aelod a'r Gweithwyr yn agos nac yn chwerw ar ôl i'r berthynas ddod i ben, nad oedd y buddiant bellach yn bersonol ac yn rhagfarnol.<br>Canfu ymchwiliad yr Ombwdsmon hefyd nad oedd digon o dystiolaeth i awgrymu bod yr Aelod wedi defnyddio ei rôl yn amhriodol neu wedi dwyn anfri ar eu swydd fel aelod neu'r Cyngor Tref yn groes i baragraffau 6(1)(a) neu 7(a) o'r Cod Ymddygiad.<br><br>Roedd yr Ombwdsmon o'r farn, yng ngoleuni'r ymwneud cyfyngedig â busnes y Cyngor Tref yn ystod y berthynas a'r ffaith bod yr Aelod wedi myfyrio ar ei swydd ac y dylai fod wedi ystyried ei rwymedigaethau o dan y Cod a cheisio cyngor, roedd yn annhebygol y byddai sancsiwn yn cael ei roi ac nid oedd cymryd camau pellach mewn perthynas â'r mater er budd y cyhoedd. Fodd bynnag, argymhellwyd y dylai'r Aelod fynychu hyfforddiant gloywi ar y Cod Ymddygiad mewn perthynas â'r materion yr ymchwiliwyd iddynt.<br><br>Canfu'r Ombwdsmon nad oedd | | pwyllgor safonau er budd y cyhoedd.<br><br>Roedd OGCC yn fodlon ei bod yn bosib bod yr Aelod wedi torri 11(1), 14(1)(a) a 14(1)(b) o'r Cod Ymddygiad; ond roedd o'r farn nad oedd digon o dystiolaeth bod paragraffau 6(1)(a) a 7(a) o'r Cod Ymddygiad wedi'u torri.<br>Fodd bynnag, 'methodd' yr achos yr ail gam h.y. barnwyd and oedd cosb yn debygol ac felly nid fyddai unrhyw gamau pellach o fudd i'r cyhoedd..<br><br>Argymhellodd OGCC y dylai'r Aelod fynychu hyfforddiant pellach ar y Cod Ymddygiad mewn perthynas â'r materion a |

| Enw'r Cyngor | Dyddiad yr adroddiad | Crynodeb o'r Gŵyn | Darpariaethau Perthnasol o dan y Cod | Crynodeb o'r Penderfyniad | Math o Adroddiad | Pwyntiau dysgu ar gyfer yr aelodau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 14(1)(b) - Pan fydd gan aelodau fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eu hawdurdod ag ef rhaid iddynt beidio ag arfer swyddogaethau gweithrediaeth neu fwrdd mewn perthynas â'r busnes hwnnw. | angen cymryd unrhyw gamau o dan Adran 69(4)(b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 mewn perthynas â'r materion yr ymchwiliwyd iddynt. | | ymchwiliwyd. |
| 4.<br><br>Cyngor Cymuned Radyr a Threforgan<br><br>Achos rhif 202105923 | 05/12/2022 | Derbyniodd yr Ombwdsmon gŵyn fod aelod ("yr Aelod") o Gyngor cymuned Radur a Threforgan ("y Cyngor") wedi torri'r Cod Ymddygiad.<br><br>Honnwyd bod yr Aelod wedi gwneud sylwadau hiliol i aelod arall o'r Cyngor drwy wneud cyfeiriad negyddol a oedd yn ymddangos allan o gyd-destun at ffigwr gwleidyddol a chrefyddol at yr Achwynydd a oedd o'r un grefydd â'r ffigwr hwnnw. Penderfynodd yr Ombwdsmon fod ymchwiliad i'r sylwadau yn briodol | Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch.<br><br>Ystyried a oedd yr aelod wedi mynd yn groes i baragraffau:<br><br>- 4(a) – rhaid i aelodau gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau gan roi sylw dyladwy i'r egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i bawb, waeth beth fo'u rhyw, eu hil, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hoed neu eu crefydd;<br><br>- 4(b) – dangos parch at eraill ac ystyriaeth ohonynt;<br><br>- 4(c) – beidio ag ymddwyn fel bwli neu aflonyddu ar unrhyw berson;<br><br>- 6(1)(a) –beidio ag ymddwyn mewn ffordd y | Cafwyd gwybodaeth gan y Cyngor, gan gynnwys cofnodion cyfarfodydd perthnasol a negeseuon e-bost. Cyfwelwyd hefyd â thystion, gan gynnwys yr achwynydd, a'r Aelod.<br><br>Canfu'r ymchwiliad y gellid yn rhesymol ddweud bod sylwadau'r Aelod yn dod o fewn meysydd rhyddid mynegiant. Canfu'r ymchwiliad fod esboniad yr Aelod am ei sylwadau, y ffaith ei fod wedi postio o'r blaen ar gyfryngau cymdeithasol am faterion tebyg a'i fod wedi dweud nad oedd yn bwriadu bod yn amharchus i'r Achwynydd a'i ffydd yn awgrymu bod ganddo hawl i fynegi ei farn. Nid oedd ei sylwadau'n mynd y tu hwnt i'r hyn a oedd yn sylw cyfreithlon ac nid oeddent yn gyfystyr â sylwadau anesgusodol na phersonol na lleferydd casineb. Nid oedd yr Ombwdsmon wedi ei pherswadio bod y sylwadau yn gyfystyr â thorri paragraff 4(a), 4(b), 4(c) neu 6(1)(a) o'r Cod Ymddygiad. | COD – Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch<br><br>COD – Dim tystiolaeth o dorri'r Cod | Dim ond gwybodaeth gyfyngedig oedd ar gael yn y crynodeb. Fodd bynnag mae'r achos yn dangos bod OGCC yn dal i ddefnyddio'r prawf dau gam h.y.<br>(1) ystyried y dystiolaeth – a oes tystiolaeth uniongyrchol bod y Cod wedi'i dorri; a<br>(2) ystyried budd y cyhoedd – a ddylid cynnal ymchwiliad neu gyfeirio'r achos at Banel Dyfarnu Cymru neu'r pwyllgor safonau er budd y |

| Enw'r Cyngor | Dyddiad yr adroddiad | Crynodeb o'r Gŵyn | Darpariaethau Perthnasol o dan y Cod | Crynodeb o'r Penderfyniad | Math o Adroddiad | Pwyntiau dysgu ar gyfer yr aelodau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | ac ystyriodd a allai ymddygiad yr Aelod fod wedi torri paragraffau 4(a), 4(b), 4(c) a 6(1)(a) o'r Cod Ymddygiad. | gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eu swydd neu awdurdod. | Canfu'r Ombwdsmon o dan Adran 69(4)(a) nad oedd tystiolaeth o unrhyw fethiant i gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad. | | cyhoedd. |
| **5.**<br><br>Cyngor Tref Hwlffordd<br><br>Achos rhif 202200117 | 20/02/2023 | Derbyniodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Aelod ("yr Aelod") o Gyngor Tref Hwlffordd ("y Cyngor Tref") wedi torri'r Cod Ymddygiad i Aelodau'r Cyngor. Cyfeiriwyd yr adroddiad ar yr ymchwiliad at Swyddog Monitro Cyngor Sir Penfro i'w ystyried gan ei Bwyllgor Safonau. | Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch. | | COD-Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch<br><br>COD – Cyfeirio'r achos at y Pwyllgor Safonau | Ni ddarparwyd unrhyw fanylion.<br><br>Mae dolen i dudalen y Pwyllgor Safonau ar wefan Cyngor Sir Benfro ar gael yn y fan yma. Nid oes Gwrandawiad wedi ei gynnal hyd yma. |
| **6.**<br><br>Cyngor Sir Powys<br><br>Achos rhif 202101250 | 22/02/2023 | Derbyniodd swyddfa'r Ombwdsmon gwynion bod aelod o Gyngor Sir Powys wedi torri'r Cod Ymddygiad. Cyfeiriwyd yr adroddiad ar yr ymchwiliad at Lywydd Panel Dyfarnu Cymru i'w dyfarnu gan dribiwnlys. | Gwrthrychedd a phriodoldeb. | | | Dim achos i'w adrodd hyd yma.<br><br>Cyflwynir yr adroddiad i'r Pwyllgor Safonau pan fydd PDC wedi cyhoeddi ei benderfyniad.<br><br>Mae dolen i dudalen penderfyniadau PDC ar gael yn y fan yma. |

Tudalen 49

| Enw'r Cyngor | Dyddiad yr adroddiad | Crynodeb o'r Gŵyn | Darpariaethau Perthnasol o dan y Cod | Crynodeb o'r Penderfyniad | Math o Adroddiad | Pwyntiau dysgu ar gyfer yr aelodau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 7.<br><br>Cyngor Cymuned Llanusyllt<br><br>Achos rhif 202202280 | 03/03/2023 | Derbyniodd yr Ombwdsmon gŵyn gan aelod o'r cyhoedd ("yr achwynydd") bod Aelod o Gyngor Cymuned Llanusyllt ("y Cyngor") wedi methu â chadw at y Cod Ymddygiad i Aelodau.<br><br>Honnwyd bod yr Aelod wedi mynd at yr achwynydd ac wedi ymddwyn yn ymosodol tuag ato ynghylch mater parcio. Honnodd yr achwynydd fod yr Aelod wedi ymddwyn mewn modd gormesol a bygythiol ac wedi defnyddio ei safbwynt i'w fychanu a chodi cywilydd arno.<br><br>Dywedodd yr achwynydd fod yr Aelod wedi ymddwyn mewn ffordd a oedd yn bwlio ac yn fygythiol. Cydnabu'r Aelod bod cweryl | Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch. | Ar ôl ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd gan y ddau barti dan sylw, nid oedd yr wybodaeth na'r dystiolaeth a oedd ar gael yn awgrymu y dylid cymryd gair un dros y llall. Felly, yn absenoldeb unrhyw dystiolaeth annibynnol o'r digwyddiad, ni allai'r Ombwdsmon ddweud a oedd ymddygiad yr Aelod yn awgrymu bod y Cod Ymddygiad wedi'i dorri.<br><br>Roedd ymchwiliad pellach i'r mater hwn yn annhebygol o ddatgelu unrhyw wybodaeth a fyddai'n newid cydbwysedd y dystiolaeth a oedd ar gael ac felly nid oedd yn gymesur nac er budd y cyhoedd i barhau â'r ymchwiliad. | Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch<br><br>COD – Wedi'i derfynu | Dim ond gwybodaeth gyfyngedig oedd ar gael yn y crynodeb. Fodd bynnag mae'r achos yn dangos bod OGCC yn dal i ddefnyddio'r prawf dau gam h.y.<br>(1) ystyried y dystiolaeth – a oes tystiolaeth uniongyrchol bod y Cod wedi'i dorri; a<br>(2) ystyried budd y cyhoedd – a ddylid cynnal ymchwiliad neu gyfeirio'r achos at Banel Dyfarnu Cymru neu'r pwyllgor safonau er budd y cyhoedd. |

| Enw'r Cyngor | Dyddiad yr adroddiad | Crynodeb o'r Gŵyn | Darpariaethau Perthnasol o dan y Cod | Crynodeb o'r Penderfyniad | Math o Adroddiad | Pwyntiau dysgu ar gyfer yr aelodau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | wedi bod ond dywedodd na wnaeth ymddwyn yn wael yn ystod y digwyddiad. Nid oes unrhyw dyst arall na thystiolaeth teledu cylch cyfyng ar gael. | | | | |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **14 Mehefin 2023** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Penderfyniadau Panel Dyfarnu Cymru** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Darparu gwybodaeth am y materion a ystyriwyd gan Banel Dyfarnu Cymru hyd yma (a gyhoeddwyd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor ar 14 Rhagfyr 2022)** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Cyfreithiwr – Llywodraethiant Corfforaethol**<br>**mwycs@ynysmon.llyw.cymru** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.llyw.cymru**<br>**01248 752586** |

## 1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

Sefydlwyd Panel Dyfarnu Cymru (PDC) gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Mae iddo ddwy swyddogaeth statudol:-

1. Ffurfio tribiwnlysoedd achosion, neu dribiwnlysoedd achos interim, er mwyn ystyried adroddiadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon) yn dilyn ymchwiliadau gan yr Ombwdsmon i honiadau bod aelod wedi methu â chydymffurfio â chod ymddygiad eu hawdurdod;

   ac

2. Ystyried apeliadau gan aelodau yn erbyn penderfyniadau pwyllgor safonau eu hawdurdod eu hunain eu bod wedi torri'r cod ymddygiad (yn ogystal â phenderfynu a roddir caniatâd i apelio yn y lle cyntaf).

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys penderfyniadau a gyhoeddwyd gan PDC yn ystod y cyfnod ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2022. Bwriedir iddo fod yn grynodeb ffeithiol o'r materion a benderfynwyd gan y PDC. Mae'r achosion a nodwyd ar gyfer y cyfnod perthnasol ar gael ar Wefan PDC.

## 2. CRYNODEB O'R ACHOSION PERTHNASOL

Mae crynodeb o'r achosion perthnasol wedi'i gynnwys yn **ATODIAD 1.**

### 2.1 Penderfyniadau a wnaed

APW/011/2021-022/CT: Cyn Gynghorydd Sheila Jenkins : 17 Mawrth 2023

**2.2 Apeliadau a benderfynwyd**

.

APW/012/2022-023-AT: Cynghorydd Paul Rogers : 15 Chwefror 2023

## 3. ARGYMHELLIAD

Nodi cynnwys y crynodebau o’r achosion.

**Atodiad 1**

## Crynodeb o Achosion gerbron Panel Dyfarnu Cymru – Rhagfyr 2022 i Mai 2023

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| **1.**<br><br>Y Cynghorydd Paul Rogers<br><br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam – Cyngor Cymuned Brymbo<br><br>APW/012/2022-023-AT | Yn dilyn penderfyniad gan Bwyllgor Safonau Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ("y Pwyllgor Safonau") bod yr Apeliwr wedi torri Côd Ymddygiad yr Awdurdod Perthnasol ar 12 Ionawr 2023, a'r Hysbysiad o Benderfyniad a anfonwyd at yr Apeliwr ar e-bost ar 17 Ionawr 2023, cyflwynodd yr Apeliwr gais am ganiatâd i apelio o dan Reoliad 10(8) o Reoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001.<br><br>Barnodd Llywydd Panel Dyfarnu Cymru ("PDC") fod y cais wedi'i wneud tu allan i'r amser penodedig. | Derbyniodd PDC apêl yr Apeliwr ar 14 Chwefror 2023, tu allan i'r cyfnod o 21 diwrnod ar gyfer derbyn ceisiadau am ganiatâd i apelio. Anfonwyd y cais yn y post. Y dyddiad olaf y byddai'n rhaid i PDC dderbyn y cais oedd 7 Chwefror 2023, 21 diwrnod o ddyddiad yr hysbysiad gan y Pwyllgor Safonau ar 17 Ionawr 2023; nid yw'n ddigonol postio'r cais o fewn y cyfnod hwnnw. Er bod y dyddiad 6 Chwefror 2023 wedi'i nodi ar y llythyr eglurhaol a gyflwynwyd gyda'r cais, y gofyniad o dan Reoliad 10(2) yw bod rhaid cyflwyno'r hysbysiad i PDC o fewn y cyfnod o 21 diwrnod. Nid yw'r Rheoliadau'n cynnwys darpariaeth gwasanaeth tybiedig, nac unrhyw allu i ymestyn y cyfnod o 21 diwrnod.<br><br>Yn ogystal, hysbysodd y Cofrestrydd ar gyfer y PDC yr Apeliwr, mewn ymateb i'w e-bost ar 6 Chwefror 2023, y byddai modd cyflwyno'r cais yn electronig; dewis yr Apeliwr oedd peidio â gwneud hynny.<br><br>Roedd y Dirprwy Swyddog Monitro wedi hysbysu'r Apeliwr mai'r dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno cais oedd 9 Chwefror 2023; gofynnodd y Llywydd i'r Cofrestrydd ofyn i'r Swyddog Monitro ddarparu rhagor o wybodaeth ynghylch pryd a sut yr anfonwyd hysbysiad o benderfyniad y Pwyllgor Safonau at yr Apeliwr. Roedd y dyddiad 17 Ionawr 2023 ar yr hysbysiad ac roedd nodyn arno yn dweud iddo gael ei anfon ar e-bost yn unig. Darparwyd tystiolaeth ar unwaith fod yr hysbysiad wedi'i anfon at yr Apeliwr ar 17 Ionawr 2023. Ystyrir bod negeseuon e-bost wedi'u derbyn ar y dyddiad y cânt eu hanfon; roedd yr amser i apelio yn rhedeg o 17 Ionawr 2023.<br><br>Penderfynodd Llywydd PDC na fyddai Tribiwnlys Apêl yn cael ei gynnull i ystyried apêl yr Apeliwr oherwydd barnwyd fod y cais wedi'i wneud tu allan i'r amser penodedig. | ***Pwyntiau Dysgu:***<br>➔ Gall Aelodau apelio yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor Safonau trwy gyflwyno eu hapêl i Banel Dyfarnu Cymru o fewn 21 diwrnod wedi iddynt dderbyn penderfyniad y Pwyllgor Safonau. Gellir anfon apêl o'r fath yn y post neu'n electronig. Os rhoddir hysbysiad electronig (gan yr Apeliwr neu PDC), mae'r cyfnod hysbysu yn cychwyn ar unwaith.<br>➔ Mae'n rhaid i aelodau fod yn ymwybodol o'r cyfyngiadau amser llym ac nad oes unrhyw eithriadau.<br>➔ Gellir gweld manylion Gwrandawiad y Pwyllgor Safonau ar 12.01.2023 yma. |
| **2.**<br><br>Y Cyn Gynghorydd Sheila Jenkins<br><br>Cyngor Cymuned | Trwy lythyr dyddiedig 29 Tachwedd 2022, gwnaethpwyd cyfeiriad gan yr Ombwdsmon i PDC a chyflwynodd adroddiad mewn perthynas â honiadau a wnaed yn erbyn yr Ymatebydd, a'r honiadau hyn oedd: | Paragraffau 11(1), 14(1)(a) a 14(1)(e) o'r Côd Ymddygiad.<br><br>Mae paragraff 11(1) o'r Côd Ymddygiad yn datgan; '*Pan fydd gan aelodau fuddiant personol mewn unrhyw fusnes eu hawdurdod a phan fyddant yn bresennol mewn cyfarfod lle y caiff y busnes hwnnw ei ystyried, rhaid iddynt ddatgelu ar lafar gerbron y cyfarfod hwnnw fodolaeth a natur y buddiant hwnnw cyn i'r cyfarfod ystyried y busnes neu ar ddechrau'r ystyriaeth, neu pan ddaw'r buddiant i'r amlwg*'. | Penderfyniad y Tribiwnlys Achos ynglŷn â Chosb.<br><br>Ystyriodd y Tribiwnlys Achos yr holl ffeithiau a thystiolaeth. Ystyriodd hefyd Ganllaw cyfredol Panel Dyfarnu Cymru ar Gosbau.<br><br>Er gwaethaf unrhyw faterion |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| Llanarmon<br><br>APW/011/2021-022/CT | - Bod yr Ymatebydd wedi methu â datgan diddordeb personol sy'n rhagfarnu mewn dau gyfarfod o'r Cyngor, er ei bod yn ymwybodol bod ganddi ddiddordebau o'r fath, a'i bod wedi aros yn yr ystafell gyfarfod ac annerch y Cyngor ar y ddau achlysur. Roedd OGCC o'r farn fod gweithredoedd yr Ymatebydd yn awgrymu torri paragraffau 11(1), 14(1)(a) a 14(1)(e) o'r Côd Ymddygiad ar gyfer Aelodau ('y Côd').<br>- Bod yr Ymatebydd wedi defnyddio termau emosiynol wrth annerch y Cyngor a'i bod wedi cymryd rhan yn y bleidlais yn y ddau gyfarfod, ac, wrth wneud hynny, gellid yn rhesymol ystyried y gallai ymddygiad yr Ymatebydd ddylanwadu ar benderfyniad y Cyngor. Honnodd OGCC hefyd y gallai bod yn bresennol yn y cyfarfodydd hynny yn unig ddylanwadu ar benderfyniadau'r Cyngor ac y gellid | Mae paragraff 14(1)(a) o'r Côd Ymddygiad yn datgan; '*Yn ddarostyngedig i is-baragraffau (2), (2A), (3) a (4), pan fydd gan aelod fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes ei awdurdod, oni roddwyd gollyngiad iddo gan bwyllgor safonau ei awdurdod, mae'n rhaid iddo ymadael â'r ystafell, y siambr neu'r man lle y mae cyfarfod i ystyried y busnes yn cael ei gynnal –*<br>*i. pan fo is-baragraff (2) yn gymwys, yn syth ar ôl i'r cyfnod ar gyfer gwneud cynrychioliadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth sy'n ymwneud â'r busnes ddod i ben a beth bynnag cyn i ystyriaeth bellach o'r busnes ddechrau, p'un a ganiateir i'r cyhoedd aros yn bresennol ar gyfer y cyfryw ystyriaeth ai peidio; neu*<br>*ii. mewn unrhyw achos arall, pa bryd bynnag y daw i'r amlwg bod y busnes hwnnw'n cael ei ystyried yn y cyfarfod hwnnw.'*<br><br>Mae paragraff 14(1)(e) o'r Côd Ymddygiad yn datgan; '*yn ddarostyngedig i is-baragraffau (2), (2A), (3) a (4), pan fydd gan aelod fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes ei awdurdod, oni roddwyd gollyngiad iddo gan bwyllgor safonau ei awdurdod, mae'n rhaid iddo beidio â gwneud unrhyw gynrychioliadau llafar (p'un ai'n bersonol neu ar ryw ffurf ar gyfathrebu electronig) mewn cysylltiad â'r busnes hwnnw neu raid i iddo roi'r gorau ar unwaith i wneud y cyfryw gynrychioliadau llafar pan ddaw'r buddiant sy'n rhagfarnu i'r amlwg'.*<br><br><u>Penderfyniad y Tribiwnlys Achos ynghylch yr honiad o dorri paragraff 11(1), 14(1)(a) a 14(1)(e) o'r Côd Ymddygiad.</u><br><br>Wrth ystyried y mater hwn, ystyriodd y Tribiwnlys Achos ddarpariaethau perthnasol y Côd sy'n esbonio natur diddordebau personol a diddordebau sy'n rhagfarnu ac ystyriodd Ganllawiau OGCC ar gyfer Aelodau Cynghorau Tref a Chymuned.<br><br>Er ei bod yn ymddangos fod busnes y cyfarfod ar 1 Ebrill 2021 yn delio gyda mater cul o gywirdeb ffeithiol, neu fel arall, adroddiad drafft Archwilio Cymru, roedd y busnes yn ymwneud yn rhannol hefyd â'r cyn Gadeirydd. Roedd y Tribiwnlys Achos o'r farn, er bod yr adroddiad drafft yn ymdrin â phryderon eang ynghylch llywodraethiant a chyllid a oedd yn berthnasol i'r Cyngor cyfan, roedd hefyd yn cyfeirio'n benodol at dri unigolyn, a gŵr yr Ymatebydd oedd un ohonynt. Roedd gŵr yr Ymatebydd wedi datgan diddordeb personol sy'n rhagfarnu ac roedd wedi gadael y cyfarfod yn unol â hynny.<br><br>Daeth y Tribiwnlys Achos i'r casgliad fod gan yr Ymatebydd ddiddordeb personol ym musnes y cyfarfod ar 1 Ebrill 2021, gan y gallai penderfyniad y Cyngor gael ei | cefndirol anodd, roedd y Tribiwnlys Achos o'r farn fod y toriad yn un difrifol o ran rhai agweddau, yn arbennig mewn perthynas â'r cwestiwn o bleidleisio ar p'un a ddylid cyfeirio ei gŵr at OGCC. Fel y cyfryw, roedd o'r farn fod yr achos yn un a fyddai fel arfer yn denu cosb o anghymhwyso neu wahardd dros dro am nifer sylweddol o fisoedd. O dan yr amgylchiadau, ac oherwydd natur ddifrifol y toriad, roedd y **Tribiwnlys Achos o'r farn nad oedd ganddo ddewis arall heblaw am osod cyfnod o anghymhwyso.**<br><br>*Ffactorau Gwaethygol*<br>Aeth y Tribiwnlys Achos ymlaen i ystyried unrhyw ffactorau gwaethygol yn yr achos hwn. Daeth i'r casgliad fod y ffactorau a ganlyn yn berthnasol a bod yr Ymatebydd: -<br>- wedi ymddwyn a defnyddio swydd/safle o ymddiriedaeth yn fwriadol i geisio osgoi anfantais i'w gŵr;<br>- wedi torri'r Côd mewn dau gyfarfod a bod ymddygiad yr Ymatebydd, felly, wedi cael ei ailadrodd;<br>- wedi dewis peidio â mynychu hyfforddiant ar y Côd;<br>- wedi ymddwyn heb fawr, neu ddim ystyriaeth i'r Côd;<br>- wedi anwybyddu cyngor a |

**Atodiad 1**

| Enw | Crynodeb o’r Ffeithiau | Crynodeb o’r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| | ystyried yr ymddygiad hynny fel ymgais i sicrhau mantais i berson arall trwy gymryd rhan. Roedd OGCC yn ystyried felly fod ymddygiad yr Ymatebydd yn awgrymu torri paragraffau 7(a) a 14(1)(c) o’r Côd.<br>- Y gallai ymddygiad yr Ymatebydd yn y cyfarfodydd a’r sylw dilynol yn wasg fod wedi dwyn anfri ar Gyngor yr Ymatebydd a/neu ei swydd fel aelod. Honnodd OGCC hefyd fod anwybyddu’r Côd Ymddygiad yn fwriadol yn dangos diffyg ystyriaeth o’r gyfundrefn safonau moesegol yng Nghymru a gallai hynny effeithio ar hyder y cyhoedd mewn democratiaeth leol. Roedd OGCC o’r farn fod ymddygiad yr Ymatebydd felly’n awgrymu torri paragraff 6(1)(a) o’r Cod.<br><br>Roedd y mater yn cyfeirio at Adroddiad Archwilio Cymru mewn perthynas â’r Cyngor. Roedd gŵr yr Ymatebydd yn Gadeirydd y | ystyried yn rhesymol fel un a fyddai’n effeithio ar lesiant ei gŵr. Roedd y Tribiwnlys Achos yn ystyried hefyd fod hwn yn ddiddordeb sy’n rhagfarnu gan ei fod yn amlwg mor arwyddocaol fel ei fod yn debygol o ragfarnu barn yr Ymatebydd am fuddiannau’r cyhoedd. Nodwyd o’r dystiolaeth fod yr Ymatebydd wedi methu â datgan unrhyw ddiddordebau, ei bod wedi aros yn y cyfarfod a’i bod wedi annerch y cyfarfod.<br><br>Mewn perthynas â’r cyfarfod ar 3 Tachwedd 2021, roedd y Tribiwnlys Achos o’r farn fod gan yr Ymatebydd ddiddordeb personol amlwg, gan fod un o argymhellion adroddiad Archwilio Cymru’n effeithio’n uniongyrchol ar ŵr yr Ymatebydd. Un o argymhellion Archwilio Cymru oedd ystyried p’un a ddylid cyfeirio’r materion a godwyd yn ei adroddiad at OGCC, fel achosion posib o dorri’r côd. Penderfynodd y Cyngor, fel oedd yn briodol, i gyfeirio’r cyn Gadeirydd at OGCC. Roedd y Tribiwnlys Achos yn ystyried hefyd fod y diddordeb personol yn un y byddai aelod o’r cyhoedd yn credu’n rhesymol ei fod mor arwyddocaol fel ei fod yn debygol o ragfarnu barn yr Ymatebydd am fuddiannau’r cyhoedd.<br><br>Nododd y Tribiwnlys Achos hefyd ffaith berthnasol ddiamheuol ychwanegol, sef, nid yn unig yr oedd y penderfyniad ar 3 Tachwedd 2021 yn effeithio’n uniongyrchol ar berson yr oedd gan yr Ymatebydd berthynas bersonol agos ag o, ond roedd ail benderfyniad yn effeithio’n uniongyrchol arni hi ei hun. Unwaith eto, roedd yr Ymatebydd wedi aros yn y cyfarfod, ni ddatganodd ei diddordeb personol sy’n rhagfarnu amlwg yn y cyswllt hwn, ac ni adawodd y cyfarfod ar ôl i gynnig ychwanegol gael ei wneud i gyfeirio’r Ymatebydd at OGCC.<br><br>Nododd y Tribiwnlys Achos fod yr Ymatebydd wedi siarad ond wedi atal ei phleidlais ar 1 Ebrill 2021, a’i bod wedi atal ei phleidlais yn y bleidlais yn ymwneud â’r cynnig i’w chyfeirio at OGCC yn y cyfarfod ar 3 Tachwedd 2021. Serch hynny, roedd y Tribiwnlys Achos yn credu y gellid ystyried yn rhesymol fod busnes y cyfarfodydd yn effeithio ar lesiant yr Ymatebydd a’i gŵr, gan y byddai cyfeiriad at OGCC wedi bod yn destun pryder, embaras ac anesmwythyd i’r ddau ohonynt. Canfu’r Tribiwnlys Achos, oherwydd nad oedd yr Ymatebydd wedi gadael yr un o’r ddau gyfarfod, a’i bod wedi gwneud sylwadau llafar yn y cyfarfodydd, ac nid oedd wedi derbyn caniatâd arbennig i wneud hynny, ei bod yn amlwg fod yr Ymatebydd wedi torri’r Côd.<br><br>Roedd y Tribiwnlys Achos yn credu bod atebion yr Ymatebydd yn ystod ei chyfweliad yn dangos nad oedd yn llwyr werthfawrogi gofynion y Côd. Roedd yn credu fod datgan diddordeb personol gyfystyr â gofyniad i adael y cyfarfod, ond nid | roddwyd gan y Clerc ynghylch y Côd yn y ddau gyfarfod, er bod yr Ymatebydd yn derbyn fod y Clerc eisiau iddi ddatgan diddordeb, ac roedd hi wedi dewis hefyd peidio â mynychu unrhyw hyfforddiant ar y Côd.<br><br>*Ffactorau Lliniarol*<br>Ystyriodd y Tribiwnlys Achos ffactorau lliniarol yn yr achos hwn hefyd. Daeth i’r casgliad fod y ffactorau a ganlyn yn berthnasol, sef bod yr Ymatebydd: -<br>- wedi gwasanaethu am gyfnod cymharol fyr a’i bod yn amhrofiadol yn y swydd;<br>- fod ganddi record flaenorol o wasanaeth da;<br>- wedi cydweithredu gyda’r swyddog ymchwilio.<br><br>Yn ogystal â’r ffactorau lliniarol hyn a amlygwyd o’r Canllaw ar Gosbau, roedd y Tribiwnlys Achos yn credu fod ymatebion yr Ymatebydd yn ystod cyfweliad OGCC wedi bod yn onest ac yn agored. Derbyniodd y Tribiwnlys Achos dystiolaeth yr Ymatebydd ynghylch ei chyflwr meddygol difrifol yn absenoldeb tystiolaeth feddygol, ac roedd yn cydnabod y ffaith nad oedd yr Ymatebydd wedi ceisio defnyddio ei chyflwr iechyd fel esgus dros unrhyw fethiant i gydymffurfio â’r côd, ac ni cheisiodd feio eraill am y methiant hwn chwaith. |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| Tudalen 58 | Cyngor pan baratowyd yr adroddiad. Roedd yr adroddiad yn cynnwys cyfeiriad at ŵr yr Ymatebydd. Mynychodd yr Ymatebydd y cyfarfodydd, a chymerodd ran ynddynt, pan drafodwyd yr adroddiad. Ni wnaeth yr Ymatebydd ddatgan unrhyw ddiddordeb personol na diddordeb rhagfarnol. | dyna oedd yr achos. Yn ogystal, o ran diddordebau sy'n rhagfarnu, roedd ei hatebion yn ystod y cyfweliad yn dangos nad oedd yn llwyr werthfawrogi ystyr y paragraff hwn.<br><br>Yn olaf, nododd y Tribiwnlys Achos nad oedd hwn yn achos lle'r oedd yr Ymatebydd yn ceisio cuddio'r ffaith ei bod yn perthyn i'r cyn Gadeirydd. Serch hynny, nododd y Tribiwnlys Achos fod yr Ymatebydd yn derbyn ei bod yn ymwybodol fod ei gweithredoedd yn torri'r Côd.<br><br>Canfu'r Tribiwnlys Achos felly, trwy benderfyniad unfrydol, fod **yr Ymatebydd wedi torri Paragraff 11(1), 14(1)(a) a 14(1)(e) o'r Côd Ymddygiad.**<br><br><u>Paragraffau 7(a) a 14(1)(c) o'r Côd Ymddygiad.</u><br><br>Mae paragraff 7(a) o'r Côd Ymddygiad yn datgan; '*Rhaid i aelodau beidio â, yn eu capasiti swyddogol neu fel arall, defnyddio neu geisio defnyddio eu safle yn amhriodol i roi neu i sicrhau mantais i'w hunain neu i unrhyw berson arall, neu i greu neu i osgoi anfantais i'w hunain neu i unrhyw berson arall'.*<br><br>Mae paragraff 14(1)(c) o'r Côd Ymddygiad yn datgan*; "...os bydd gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef rhaid i chi, oni roddwyd i chi ganiatâd arbennig gan bwyllgor safonau eich awdurdod - beidio â cheisio dylanwadu ar benderfyniad ynghylch y busnes hwnnw".*<br><br><u>Penderfyniad y Tribiwnlys Achos ynghylch yr honiad o dorri paragraffau 7(a) a 14(1)(c) o'r Côd Ymddygiad.</u><br><br>Wrth ystyried y mater hwn, ystyriodd y Tribiwnlys Achos Ganllawiau OGCC ar gyfer Aelodau Cynghorau Tref a Chymuned mewn perthynas â'r Côd.<br><br>Roedd y Tribiwnlys Achos o'r farn, yng ngoleuni ei ganfyddiad ar y Ffaith Berthnasol sy'n destun Dadl uchod, fod yr Ymatebydd wedi bwriadu dylanwadu ar drafodaethau a phenderfyniadau'r Cyngor. Mewn perthynas â Pharagraff 7(a) yn y Côd, roedd y Tribiwnlys Achos o'r farn fod geiriad y Paragraff yn gofyn am elfen o fwriad neu wybodaeth y gallai gweithredoedd yr aelod ddylanwadu ar eraill. Yng ngoleuni ei ganfyddiad ar y Ffaith Berthnasol sy'n destun Dadl a'r dystiolaeth, roedd y Tribiwnlys Achos yn fodlon fod methiant yr Ymatebydd i ddatgan diddordebau, y ffaith iddi gymryd rhan mewn cyfarfodydd, ac yn arbennig y ffaith | Nododd y Tribiwnlys Achos safbwynt yr Ymatebydd hefyd, sef fod safbwyntiau wedi hen galedu yn yr Awdurdod Perthnasol a'i bod yn ceisio cyflwyno safbwynt gwahanol. Serch hynny, nododd y Tribiwnlys Achos y gallai aelodau eraill fod wedi cyflwyno safbwynt gwahanol a bod gweithdrefnau ar waith a fyddai wedi galluogi iddi siarad, gan gynnwys y weithdrefn ym Mharagraff 14(2) o'r Côd, yn ogystal â'r hawl i gyflwyno cais i Bwyllgor Safonau'r Awdurdod Perthnasol.<br><br>Oherwydd bod yr Ymatebydd wedi ymddiswyddo y diwrnod ar ôl y cyfarfod ym mis Tachwedd 2021, yn amlwg nid oedd y gosb o wahardd dros dro ar gael fel cosb. Mewn perthynas â chyn-aelodau, mae Paragraff 47 o'r Canllaw yn datgan, *'Mewn amgylchiadau lle byddai'r tribiwnlys fel arfer yn rhoi cosb o wahardd dros dro ond nad yw'r Ymatebydd yn aelod mwyach, gallai anghymhwysiad byr fod yn briodol... Bydd hyn yn sicrhau nad yw'r Ymatebydd yn gallu dychwelyd i swydd gyhoeddus, er enghraifft drwy gael ei gyfethol, cyn diwedd y cyfnod o atal dros dro a fyddai wedi cael ei ddefnyddio pe na bai wedi ymddiswyddo neu heb gael ei ailethol...'* |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| Tudalen 59 | | iddi bleidleisio ar sefyllfa ei gŵr, oll yn weithredoedd a gynlluniwyd i geisio ei arbed rhag cael ei gyfeirio at OGCC. Roedd yn ystyried bod ei gweithredoedd yn y cyfarfod ar 3 Tachwedd 2021 naill ai'n ymdrech ymwybodol neu isymwybodol i ddefnyddio ei safle i osgoi anfantais i'w gŵr.<br><br>Mewn perthynas â'r sylwadau yr honnodd OGCC eu bod yn awgrymu torri paragraff 7(a) o'r Côd, dyfynnwyd y sylwadau hyn yn y wasg fel *""The way [Audit Wales] have personally gone for the chairman with their hands around his neck is disgusting. He has been made a scapegoat".* Roedd hyn wedi'i gofnodi yn y Cofnodion mewn geiriau ychydig yn wahanol, sef bod yr Ymatebydd wedi dweud y canlynol, *"Audit Wales had it in for the chairman from the start and had been hanging around his neck, which is disgusting."* Nid oedd unrhyw dystiolaeth glir i gadarnhau a oedd y wasg yn bresennol yn y cyfarfod ar 3 Tachwedd 2021, neu a oedd rhywun wedi rhannu sylwadau'r Ymatebydd gyda'r wasg. Roedd y Tribiwnlys Achos yn fodlon, serch hynny, fod y Cofnodion yn darparu cofnod swyddogol o'r cyfarfod ac, yn ôl yr hyn sy'n debygol, roedd yr Ymatebydd wedi gwneud y sylwadau a gofnodwyd yn y Cofnodion.<br><br>Er bod yr Ymatebydd yn mynnu nad oedd bwriad ganddi newid meddwl unrhyw un, ac nad oedd yn meddwl y gallai wneud hynny, roedd yn amlwg wedi siarad mewn termau emosiynol i gefnogi ei gŵr ac roedd wedi pleidleisio i'w arbed rhag cael ei gyfeirio. Dywedodd mai ei hunig fwriad oedd amddiffyn ei gŵr, yn wyneb yr hyn yr oedd yn ystyried i fod yn safbwyntiau a oedd wedi hen galedu. Er, yn yr achos penodol hwn, bod y Tribiwnlys Achos yn credu ei bod yn annhebygol fod presenoldeb yr Ymatebydd wedi dylanwadu ar eraill, roedd yn bosib y gallai ei chyfraniad at y drafodaeth fod wedi perswadio eraill i gymedroli eu safbwyntiau. Trwy bleidleisio ar y mater hwn, roedd y Tribiwnlys Achos yn credu y gallai hyn fod wedi dylanwadu ar y bleidlais a newid y canlyniad.<br><br>Nodwyd fod yr Awdurdod Perthnasol yn rhoi cyfle i aelodau'r cyhoedd siarad ar faterion yng nghyfarfodydd y Cyngor. Nid oes unrhyw dystiolaeth ar gael i ddangos a oedd yr Ymatebydd wedi derbyn neu geisio cyngor mewn perthynas â hyn. Serch hynny, gallai'r Ymatebydd fod wedi siarad p'un bynnag yn rhinwedd Paragraff 14(2) o'r Côd, cyn gadael y cyfarfod. Fodd bynnag, trwy weithredu mewn rôl Aelod, ac yn arbennig wrth ddefnyddio ei hawl i bleidleisio, roedd y Tribiwnlys Achos o'r farn ei bod wedi ceisio defnyddio ei safle yn amhriodol i osgoi anfantais i'w gŵr.<br><br>Canfu'r Tribiwnlys Achos felly, trwy benderfyniad unfrydol, fod **yr Ymatebydd wedi** | Roedd y Tribiwnlys Achos yn derbyn nad oedd bwriad gan yr Ymatebydd i ddychwelyd i ymgymryd â dyletswyddau aelod, serch hynny, nododd y Tribiwnlys Achos fod dibenion cyffredinol eraill i gosbau. Nid yn unig eu bod yn darparu ymateb disgyblaethol i achos o dorri'r Côd gan aelod unigol, ond roeddent hefyd i fod i atal camymddygiad gan eraill yn y dyfodol a hyrwyddo diwylliant o gydymffurfiaeth ar draws awdurdodau'n gyffredinol. Roedd o'r farn ei bod yn ofynnol atgyfnerthu pwysigrwydd y Côd yn ogystal ag egwyddorion anhunanoldeb, priodoldeb a gwrthrychedd wrth wneud penderfyniadau.<br><br>O dan yr amgylchiadau, ystyriodd y Tribiwnlys Achos p'un a oedd 'Peidio â chymryd camau pellach' neu 'Anghymhwyso', fel y manylir arnynt yn y Canllaw ar Gosbau, yn ganlyniad priodol.<br><br>Oherwydd ymddiswyddiad cyflym yr Ymatebydd yn dilyn y digwyddiadau ar 3 Tachwedd 2021, ei hymatebion gonest yn ystod y cyfweliad, a'i hafiechyd yr oedd y Tribiwnlys Achos yn ei dderbyn, roedd hwn yn benderfyniad anodd.<br>Ystyriodd y Tribiwnlys Achos Erthygl 10 hefyd, yng nghyd- |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| | | **torri Paragraff 7(a) a 14(1)(c) o'r Côd Ymddygiad.**<br><br>Paragraff 6(1)(a) o'r Côd Ymddygiad.<br><br>Mae Paragraff 6(1)(a) o'r Côd Ymddygiad yn datgan, *'Rhaid i aelodau beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eu swydd neu awdurdod.'*<br><br>Penderfyniad y Tribiwnlys Achos ynghylch yr honiad o dorri paragraff 6(1)(a) o'r Côd Ymddygiad.<br><br>Wrth ystyried y mater hwn, ystyriodd y Tribiwnlys Achos Ganllawiau OGCC ar gyfer Aelodau Cynghorau Tref a Chymuned mewn perthynas â'r Côd Ymddygiad.<br><br>Ystyriodd y Tribiwnlys Achos fod y Canllawiau'n darparu rhestr o enghreifftiau o achosion lle canfuwyd fod paragraff 6(1)(a) wedi cael ei dorri. Nid oedd y Tribiwnlys Achos yn credu fod yr enghreifftiau hyn yn cymharu ag ymddygiad yr Ymatebydd yn yr achos hwn. Serch hynny, roedd y Tribiwnlys Achos yn ystyried y gallai ymddygiad mewn cyfarfod cyhoeddus, mewn rhai achosion, fod gyfystyr ag ymddygiad a allai dorri paragraff 6(1)(a) o'r Côd Ymddygiad.<br><br>Mewn perthynas â'r adroddiad yn y wasg a gyflwynwyd fel tystiolaeth, roedd y Tribiwnlys Achos o'r farn fod hyn yn codi yng nghyd-destun *'adroddiad gan Archwilio Cymru a oedd yn beirniadu'r cyngor am ddiffygion mewn llywodraethiant, rheolaeth ariannol a rheolaeth fewnol.'* Roedd y pennawd, fodd bynnag, yn cyfeirio'n benodol at ŵr yr Ymatebydd a oedd yn Gadeirydd yn ystod y cyfnod yr oedd adroddiad yn canolbwyntio arno, sef blwyddyn ariannol 2018-19. Roedd yr adroddiad yn y wasg yn mynd ymlaen i ddweud fod y Cynghorwyr wedi cytuno hefyd i gyfeirio'r Ymatebydd at yr Ombwdsmon, 'ond, ers hynny, mae hi wedi ymddiswyddo o'r awdurdod'. Aeth ymlaen i ddatgan fod yr Ymatebydd wedi cael ei chyfeirio am iddi fynychu dau o gyfarfodydd y cyngor pan drafodwyd yr adroddiad archwilio, ac y dylai fod wedi datgan diddordeb personol sy'n rhagfarnu. Roedd adroddiad y wasg yn cynnwys sylwadau'r Ymatebydd hefyd.<br><br>Roedd y Tribiwnlys Achos o'r farn fod gweithredoedd yr Ymatebydd wedi codi mewn sefyllfa lle'r oedd yn debygol bod anfri wedi'i ddwyn yn barod ar yr Awdurdod Perthnasol yng ngoleuni'r adroddiad beirniadol gan Archwilio Cymru. Roedd yn ddogfen 64 tudalen a oedd yn canolbwyntio'n fanwl ar fethiannau o ran | destun gosod cosbau. Wrth ystyried diddordeb y cyhoedd fodd bynnag, a'r angen i gynnal y gyfraith, moeseg a moesau ac i amddiffyn hawliau eraill mewn cymdeithas ddemocrataidd, roedd y Tribiwnlys Achos yn fodlon na fyddai canfyddiad o 'Beidio â chymryd camau pellach' yn addas yn yr achos hwn. Roedd disgwyliad y byddai aelodau'n gweithredu gydag uniondeb, yn gweithredu'n unol â'r ymddiriedaeth yr oedd y cyhoedd wedi'i roi ynddynt, yn arwain trwy esiampl ac yn hyrwyddo hyder cyhoeddus trwy weithredu er budd y cyhoedd ac nid er budd preifat. Nid oedd yr Ymatebydd wedi gwneud hynny.<br><br>O dan yr holl amgylchiadau felly, a chan ystyried difaterwch yr Ymatebydd tuag at y Côd a'i diffyg edifeirwch am ei gweithredoedd, yn ogystal â phwrpas ehangach cosbau, fel yr amlinellir yn y canllaw, roedd o'r farn fod y gosb o anghymhwyso yn briodol. Roedd o'r farn fod hyn yn angenrheidiol i danlinellu pwysigrwydd y Côd a'r angen i aelodau adlewyrchu ar ei bwrpas wrth ymrwymo i gydymffurfio â'r Côd wrth dderbyn swydd. Roedd yn credu fod anghymhwyso am gyfnod yn gosb cymesur ac angenrheidiol yn yr achos hwn. |

**Atodiad 1**

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| Tudalen 61 | | llywodraethiant, rheolaeth ariannol a rheolaeth fewnol ar ran y Cyngor cyfan, ac roedd yn cyfeirio hefyd at rôl tri unigolyn yn gysylltiedig â'r Awdurdod hwnnw, gan gynnwys cyn Gadeirydd y Cyngor. Serch hynny, roedd y Tribiwnlys Achos o'r farn y gallai ymddygiad bwriadol yr Ymatebydd ynddo'i hun, yn arbennig yn y cyfarfod ar 3 Tachwedd 2021, hefyd ddwyn anfri ar yr Awdurdod Perthnasol a rôl yr aelod.<br><br>Ystyriodd y dylai aelodau'r cyhoedd fedru disgwyl i'w haelodau etholedig beidio â chymryd rhan mewn trafodaethau, ac, yn arbennig, peidio â phleidleisio ar faterion sy'n effeithio'n uniongyrchol ar eu priod, eu cyfeillion neu eu cydnabod personol agos. Byddai disgwyl iddynt weithredu er budd y cyhoedd yn unig, ac nid er budd eu diddordebau eu hunain, neu ddiddordebau pobl sy'n agos atynt. Byddai gwneud unrhyw beth arall, a hynny'n fwriadol, yn anorfod yn denu cyhoeddusrwydd negyddol a diddordeb gan y wasg leol, ac, yn y pendraw, byddai'n arwain at lai o ymddiriedaeth yn rôl yr aelod.<br><br>O ran casgliad, roedd y Tribiwnlys Achos o'r farn fod yr Ymatebydd wedi diystyru gofynion y Côd Ymddygiad yn fwriadol trwy fethu â datgan diddordeb personol sy'n rhagfarnu yn y ddau gyfarfod, a pharhau i gymryd rhan ynddynt.<br>Roedd o'r farn fod pleidleisio ar y mater yn ymwneud â chyfeirio ei gŵr at OGCC yn achos difrifol o dorri'r Côd. Cafwyd adroddiad yn y wasg ar natur y toriad hefyd. Er yr ystyriwyd mai'r rhesymau pennaf i'r wasg roi sylw i'r Awdurdod Perthnasol oedd oherwydd gweithredoedd y Cyngor cyfan a'r unigolion a enwyd yn adroddiad Archwilio Cymru, gellid barnu'n rhesymol bod methiant yr Ymatebydd i ystyried gofynion y Côd yn dwyn anfri ar yr Awdurdod a'r swydd. Roedd yr Ymatebydd wedi datgan yn glir y byddai'n gweithredu yn yr un modd eto oherwydd "ei gŵr oedd yn dod gyntaf".<br><br>Mewn perthynas â'r sylwadau a wnaed gan yr Ymatebydd ac a gofnodwyd yng nghofnodion y cyfarfod ar 3 Tachwedd 2021, er bod y Tribiwnlys Achos o'r farn eu bod ychydig yn emosiynol, nid oeddent yn anarferol yng nghyd-destun trafodaeth wleidyddol gyffredin. Nid oedd o'r farn fod y sylwadau hyn ynddynt eu hunain gyfystyr â thorri'r Côd a nododd mai'r tebygrwydd oedd bod y sylwadau wedi eu gwneud yn fyrbwyll.<br><br>Canfu'r Tribiwnlys Achos felly, trwy benderfyniad unfrydol, fod **yr Ymatebydd wedi torri Paragraffau 6(1)(a) o'r Côd Ymddygiad.** | **Canfu'r Tribiwnlys Achos felly, trwy benderfyniad unfrydol, y dylid anghymhwyso'r Ymatebydd am 12 mis rhag bod neu ddod yn aelod o'r Awdurdod Perthnasol neu unrhyw awdurdod perthnasol arall o fewn yr ystyr yn Neddf Llywodraeth Leol 2000.**<br><br>***Pwyntiau Dysgu***:<br>➔ Anogir aelodau i dderbyn cyngor gan y Clerc.<br>➔ Anogir aelodau i dderbyn hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad er mwyn deall y darpariaethau mewn perthynas â datgelu diddordebau personol a diddordebau sy'n rhagfarnu.<br>➔ Yn yr achos hwn, y gosb a roddwyd oedd anghymhwyso am flwyddyn – ystyrir mai anghymhwyso yw'r gosb fwyaf difrifol. 5 mlynedd yw'r cyfnod anghymhwyso mwyaf y gall PDC ei osod.<br>➔ Roedd PDC wedi ystyried y Canllaw ar Gosbau wrth ystyried pa gosb i'w gosod. |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MON / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **14 Mehefin 2023** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Protocol Datrysiad Lleol ar gyfer y Cynghorau Tref a Chymuned** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Darparu gwybodaeth ynglŷn â'r modd y mae'r Pwyllgor Safonau'n bwriadu cynorthwyo'r Cynghorau Tref a Chymuned fel rhan o brotocol datrysiad anffurfiol** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Cyfreithiwr – Llywodraethu Corfforaethol**<br>**mwycs@ynysmon.llyw.cymru** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.llyw.cymru**<br>**01248 752586** |

## 1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

1.1 Cyflwynodd cyn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) drothwy ar gyfer cynnal ymchwiliadau i achosion honedig o dorri'r cod ymddygiad. Roedd y newid hwn yn berthnasol i gynghorwyr sir a chynghorwyr Tref a Chymuned. Mae'r Ombwdsmon presennol [sydd wedi bod yn y swydd ers mis Ebrill 2022], yn dal i ddefnyddio'r "prawf dau gam".

1.2 Yn y gorffennol gofynnwyd i Gynghorau Sir lunio protocol datrysiad lleol i ddelio ag "anghydfod lefel isel" yn ymwneud ag achosion honedig o dorri'r cod; gan gyfeirio'n benodol at anghydfod rhwng cynghorwyr yn ymwneud â methiant i ddangos parch / ystyriaeth.

Mae'r Cyngor hwn wedi mabwysiadu protocol datrysiad lleol (PDLl) diwygiedig ar ar gyfer ei aelodau etholedig a chyfetholedig yn ddiweddar [trafodwyd o dan eitem 10 ar Raglen cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau ym mis Rhagfyr 2022; mae dolen i'r adroddiad ar gael yma]. Mae'r broses hon yn parhau'n wirfoddol ar gyfer cynghorwyr unigol.

Cafodd dolen i'r PDLl ei chynnwys mewn Newyddlen a anfonwyd at yr aelodau gan y Pwyllgor Safonau ym mis Mawrth 2023.

1.3 Yn dilyn cais tebyg gan OGCC am drefniadau anffurfiol addas ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned [CTChau], aeth Un Llais Cymru (y prif gorff ar gyfer cynghorau cymuned a thref yng Nghymru) ati i lunio a chyhoeddi Protocol Datrysiad Lleol ar gyfer y CTChau. Mae copi ar gael yma.

1.4 Er bod Protocol Un Llais Cymru ar gael i'w fabwysiadu gan bob CTCh, mae'r Pwyllgor Safonau, yn y gorffennol, wedi cynorthwyo'r CTChau (mewn ymgais i

gefnogi'r cynghorau hyn) pan fo achosion y tu allan i gwmpas y Protocol hwn. Mae'r cymorth hwn wedi'i ddarparu yn ôl disgresiwn Cadeirydd y Pwyllgor Safonau.

1.5 Gan fod gwaith wedi'i wneud yn ddiweddar i gynorthwyo'r Cynghorwyr Sir drwy ddatblygu PDLl, mae'n amserol i ystyried datblygu PDLl i gyd-fynd â Phrotocol Un Llais Cymru / i'w ddefnyddio pan nad yw dogfen Un Llais Cymru o gymorth i'r CTChau.

## 2. Y CYNNIG

2.1 Yn y gorffennol, mae'r Pwyllgor Safonau wedi datgan yn glir ei fod yn disgwyl i aelodau a chlercod CTChau ddefnyddio Protocol Un Llais Cymru. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau prin, bydd y Pwyllgor Safonau'n ymyrryd.

2.2 Mae Protocol Datrysiad Lleol drafft ar gyfer y Cynghorau Tref a Chymuned ar gael yn **Atodiad 1**.

2.3 Mae'r Protocol drafft ar gyfer y CTChau yn nodi y bydd y Pwyllgor Safonau'n ymyrryd, drwy Gadeirydd y Pwyllgor Safonau, ar gais Cadeirydd neu Glerc cyngor tref neu gymuned neu gan y cyngor tref neu gymuned ei hun yn dilyn datrysiad, a dim ond os ydi'r Pwyllgor Safonau yn credu y bydd hynny o fudd, bod digon o adnoddau/capasiti ganddo i allu gwneud hynny neu fod y mater(ion) yn berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor Safonau, a'i fod yn ymwneud yn benodol ag ymddygiad.

## 3. AWDURDODAU ERAILL

3.1 Gofynnwyd i Bwyllgorau Safonau eraill yng ngogledd Cymru gadarnhau sut y maent yn ymyrryd er mwyn adfer perthnasau yn dilyn anghydfod yn eu CTChau hwy. Cafwyd ymateb gan ddau Gyngor a gadarnhaodd nad oes ganddynt Brotocol ar wahân ar gyfer eu CTChau; a'u bod yn cyfeirio at y Protocol a ddatblygwyd gan Un Llais Cymru yn unig.

## 4. Y BROSES AR GYFER GWEITHREDU'R CYNNIG

4.1 Os ydi'r Pwyllgor Safonau'n fodlon â'r cynnig yn yr adroddiad hwn, bydd y manylion yn **Atodiad 1** (wedi'i ddiwygio, os oes angen) yn cael ei rannu â'r CTChau yn Newyddlen nesaf y Pwyllgor Safonau.

4.2 Bydd hyfforddiant cyfryngu'n cael ei drefnu ar gyfer yr aelodau annibynnol a'r cynrychiolwyr cynghorau tref a chymuned sydd ar y Pwyllgor Safonau, er mwyn eu helpu mewn perthynas â'u dyletswyddau'n gysylltiedig â'r Protocol Datrysiad Lleol.

## 5. ARGYMHELLIAD

5.1 Bod y Pwyllgor Safonau'n cadarnhau:

5.1.1 Ei fod yn cytuno â'r Protocol Datrysiad Lleol drafft, sydd ynghlwm yn **Atodiad 1** yn yr adroddiad hwn, i'w ddefnyddio gan y Cynghorau Tref a Chymuned, ac yn amodol ar hyn, bod

5.1.2 Manylion am y Protocol yn cael ei rannu â'r Cynghorau Tref a Chymuned yn Newyddlen nesaf y Pwyllgor Safonau.

**ATODIAD 1:**

**Protocol Datrysiad Lleol DRAFFT ar gyfer y Cynghorau Tref a Chymuned**

1. Mae'r Pwyllgor Safonau'n annog pob Cyngor Tref a Chymuned i fabwysiadu Protocol Datrysiad Lleol [PDLl] ac mae'n awgrymu bod y cynghorau'n defnyddio'r PDLl a gyhoeddwyd gan Un Llais Cymru. Copi ar gael yma.

2. Os nad yw PDLl Un Llais Cymru'n addas neu os nad yw'n ymarferol, gellir gwneud cais i Gadeirydd y Pwyllgor Safonau am gymorth anffurfiol. Rhaid i'r cais ddod gan:
   2.1 Gadeirydd y Cyngor Tref neu Gymuned;
   2.2 Clerc y Cyngor Tref neu Gymuned; neu
   2.3 Y Cyngor Tref neu Gymuned ei hun yn dilyn argymhelliad.

3. Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau'n ystyried pob mater yn seiliedig ar y ffeithiau a bydd yn ymyrryd dim ond os yw'r Cadeirydd o'r farn:
   3.1 Y gallai'r ymyrraeth gan y Pwyllgor Safonau fod o fudd;
   3.2 Bod gan y Pwyllgor Safonau'r adnoddau a/neu'r capasiti i gynorthwyo; a
   3.3 Bod y mater yn berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor Safonau, a'i fod yn ymwneud yn benodol ag ymddygiad.

   Ni fydd y Pwyllgor Safonau'n ymyrryd â materion llywodraethu o fewn Cynghorau Tref a Chymuned.
   Mae gan y Cadeirydd y rhyddid llwyr i benderfynu a fydd y Pwyllgor Safona'n ymyrryd ai peidio.
   Bydd penderfyniad Cadeirydd y Pwyllgor Safonau'n derfynol.

4. Bydd unrhyw broses a ddilynir gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau yn gwbl wirfoddol. Bydd y broses yn anffurfiol a bydd cyn lleied o waith papur â phosib.

Wedi'i gytuno gan y Pwyllgor Safonau – [DYDDIAD]

DRAFFT

| CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **14 Mehefin 2023** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Diweddariad ar y Fforwm Cenedlaethol ar gyfer Aelodau Annibynnol y Pwyllgorau Safonau** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Fel yr uchod** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Cyfreithiwr – Llywodraethiant Corfforaethol**<br>**mwycs@ynysmon.llyw.cymru** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.llyw.cymru**<br>**01248 752586** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Cyflwynwyd adroddiad yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau ym mis Rhagfyr 2022 [eitem 13 ac sydd i'w weld yma] yn nodi fod Fforwm Cenedlaethol y Pwyllgorau Safonau'n cael ei sefydlu, o ganlyniad i argymhelliad yn Adolygiad Penn o'r Fframwaith Safonau Moesegol yng Nghymru.

## 2. CYFARFODYDD A GYNHALIWYD

2.1 Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf Fforwm Cenedlaethol y Pwyllgorau Safonau ar 27 Ionawr 2023.

2.2 Yn unol â chylch gorchwyl y Fforwm, dim ond Cadeirydd pob Pwyllgor Safonau sy'n mynychu cyfarfodydd y Fforwm.

2.3 Mae Swyddogion Monitro awdurdodau Gogledd Cymru'n mynychu ar sail rota.

2.4 Derbyniwyd gohebiaeth yn dilyn cyfarfod y Fforwm, yn cynnwys recordiad o'r cyfarfod a'r Cofnodion drafft. Rhannwyd y rhain gydag aelodau'r Pwyllgor Safonau.

2.5 Yn ogystal, rhannodd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau ei adroddiad personol wedi iddo fynychu cyfarfod y Fforwm ym mis Ionawr, ac anfonwyd copi at bob aelod o'r Pwyllgor Safonau hwn.

2.6 Trefnwyd i gynnal cyfarfod nesaf y Fforwm ar 30 Mehefin 2023. Bydd Mr John R Jones, fel Cadeirydd y Pwyllgor hwn, yn mynychu.

## 3. DOGFENNAETH Y FFORWM

3.1 Bydd protocol ar gyfer ymdrin â chyhoeddi dogfennaeth sy'n cael ei ddarparu gan y Fforwm yn cael ei godi yng nghyfarfod nesaf y Fforwm. Yn y cyfamser, bydd Cadeirydd y

Pwyllgor Safonau, a oedd yn bresennol yng nghyfarfod diwethaf y Fforwm, yn rhoi diweddariad i aelodau'r Pwyllgor Safonau trwy gyfleu gwybodaeth ffeithiol a gyflwynwyd yn y cyfarfod ac sy'n wybodaeth gyhoeddus.

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad hwn.

4.2 Bod Cadeirydd y Pwyllgor Safonau hwn yn cyflwyno diweddariad ar lafar wedi iddo fynychu cyfarfod cyntaf Fforwm Cenedlaethol y Pwyllgorau Safonau ar 27 Ionawr 2023.

4.3 Bod y Pwyllgor yn ystyried a oes unrhyw eitemau y mae'n dymuno eu hawgrymu fel eitemau i'w cynnwys ar Raglen cyfarfod nesaf y Fforwm ar 30 Mehefin 2023.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **14 Mehefin 2023** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Adroddiad Blynyddol Drafft y Pwyllgor Safonau 2022/2023** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **I'r Pwyllgor Safonau gymeradwyo'r adroddiad drafft yn barod ar gyfer cyfarfod llawn nesaf y Cyngor Sir** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Cyfreithiwr – Llywodraethiant Corfforaethol**<br>**mwycs@ynysmon.llyw.cymru** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.llyw.cymru**<br>**01248 752586** |

## 1. CEFNDIR

1.1 Mae gofyn statudol ar y Pwyllgor Safonau i gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor Sir.

1.2 Yr adroddiad sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd (**Atodiad 1**) yw Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2022/23. Mae cyfnod yr adroddiad yn mynd o 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023.

1.3 Mae Aelodau'r Pwyllgor Safonau wedi cyfarfod yn anffurfiol i drafod yr adroddiad drafft ar gyfer 2022/2023 ac er mwyn cytuno ar raglen waith arfaethedig ar gyfer 2023/2024 (sy'n ymddangos fel atodiad i adroddiad blynyddol 2022/2023).

1.4 Nid yw'r adroddiad drafft wedi'i gwblhau gan fod y broses o Arweinyddion Grwpiau yn darparu gwybodaeth mewn perthynas â'u dyletswyddau newydd fel Arweinyddion Grwpiau yn parhau. Mae manylion am y broses honno wedi eu cynnwys yn yr adroddiad blynyddol drafft. Rhagwelir y bydd y broses hon yn dod i ben yn ystod haf 2023 yn barod i adroddiad terfynol y Pwyllgor gael ei gyflwyno i'r Cyngor Sir llawn ym Medi 2023.

## 2. ARGYMHELLIAD

2.1 I'r Pwyllgor Safonau gytuno

2.1.1 cynnwys yr adroddiad drafft a'i atodiadau, fel sydd wedi eu cynnwys yn **Atodiad 1** o'r adroddiad hwn;

2.1.2 bod yr adroddiad blynyddol drafft presennol ar gyfer 2022/2023 (**Atodiad 1**) yn cael ei ddiweddaru yn unol â gwybodaeth a gafwyd yn ystod y broses o gasglu gwybodaeth gan yr Arweinyddion Grwpiau; a

2.1.3 bod unrhyw newidiadau i'r adroddiad blynyddol (**Atodiad 1**) yn cael eu gwneud un ai mewn cyfarfod anffurfiol neu drwy ohebiaeth gyda holl aelodau'r Pwyllgor, yn unol â chyfarwyddiadau'r Cadeirydd, yn dilyn trafodaeth â'r Swyddog Monitro.

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | Cyngor Sir |
| **DYDDIAD:** | 12 Medi 2023 |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau |
| **ADRODDIAD GAN:** | Pwyllgor Safonau |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Adrodd ar Weithgareddau'r Pwyllgor Safonau yn 2022/23 a sicrhau cymeradwyaeth y Cyngor ar gyfer Rhaglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24. |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro (est 2568) lbxcs@ynysmon.llyw.cymru |

## 1. Cyflwyniad

Dyma ail adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau i'r Cyngor Sir, gofyniad a gyflwynwyd yn sgil Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Fodd bynnag, yn y Cyngor hwn mae Cadeirydd y Pwyllgor Safonau wedi cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor ers nifer o flynyddoedd. Mae'r pynciau yr ymdriwyd â hwy yn yr adroddiadau hyn yn debyg iawn i'r rhai sydd bellach yn ofynnol o dan ddarpariaethau'r ddeddfwriaeth newydd.

**Dyma adroddiad y Pwyllgor Safonau ar gyfer y cyfnod Ebrill 2022 – Mawrth 2023.**

## 2. Aelodaeth

Mae'r Pwyllgor Safonau yn bwyllgor statudol sydd â 9 aelod (2 Gynghorydd Sir, 5 aelod annibynnol a 2 aelod Cyngor Cymunedol). Mae manylion y Pwyllgor a'i aelodaeth ar gael yn y fan yma.

(A) Aelodau Annibynnol:

Daw tymor pedwar aelod annibynnol i ben ar y 19eg o Ragfyr 2027 tra daw tymor y pumed aelod annibynnol i ben ar yr 11eg o Ragfyr 2025.

Mae un aelod annibynnol wedi penderfynu ymddiswyddo cyn i'w thymor ddod i ben ac mae Panel Dethol y Pwyllgor Safonau ynghanol proses recriwtio ar hyn o bryd er mwyn penodi rhywun i'r rôl. Bydd Mrs Celyn Menai Edwards yn ymddiswyddo ar benodiad yr aelod annibynnol newydd.

Rhaid penodi'r Cadeirydd o blith yr aelodau annibynnol. Penodwyd Mr John R Jones yn Gadeirydd mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Safonau ym mis Chwefror 2020. Penodir y Cadeirydd am gyfnod o bedair blynedd. Gall unigolyn ei ail-ethol i'r Gadair.



DRAFT

Mr Rhys Davies yw'r Is-gadeirydd a daw ei dymor yntau hefyd i ben ym mis Chwefror 2024. Mae Mr Davies yn gymwys i gael ei ail-ethol.

(B) <u>Cynghorwyr Tref a Chymuned:</u>

Yn dilyn proses recriwtio ar ôl yr etholiadau Llywodraeth Leol diwethaf (Mai 2022), penodwyd dau gynrychiolydd Cyngor Tref a Chymuned gan y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 6 Rhagfyr 2022, sef y Cynghorydd Margaret Ann Thomas o Gyngor Tref Llangefni a'r Cynghorydd Iorwerth Roberts o Gyngor Cymuned Bryngwran. Byddant yn eistedd ar y Pwyllgor tan yr etholiadau Llywodraeth Leol nesaf neu hyd nes nad yw'r unigolion a benodwyd yn aelodau o Gyngor Cymuned mwyach, pa un bynnag sy'n digwydd gyntaf. Gall aelodau Cyngor Cymuned gael eu hailbenodi am un tymor arall, ar yr amod bod Cynghorau Tref a Chymuned Ynys Môn wedi cytuno ar y cyd i ddewis aelodau presennol y Cyngor Cymuned fel enwebai ar gyfer y penodiadau.

(C) <u>Cynghorwyr Sir:</u>

Y ddau gynrychiolydd Cyngor Sir bresennol (ers Mai 2022) yw'r Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes a'r Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas.

## 3. <u>Rôl a Chyfrifoldeb</u>

Mae rolau a swyddogaethau statudol y Pwyllgor Safonau, mewn perthynas ag aelodau Cyngor Sir a Chyngor Tref/Cymuned, wedi aros yr un fath ers nifer o flynyddoedd, maent yn cynnwys:-

(a) hybu a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan Aelodau;
(b) cynorthwyo aelodau i gadw at eu Cod Ymddygiad;
(c) cynghori, hyfforddi, neu drefnu i hyfforddi Aelodau;
(ch) ystyried ceisiadau am ganiatâd arbennig;
(d) ymdrin ag unrhyw atgyfeiriadau oddi wrth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC), neu Banel Dyfarnu Cymru (y Pwyllgor Safonau Cenedlaethol i bob pwrpas).

Fodd bynnag, yn sgil Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ('y Ddeddf'), mae dyletswyddau ychwanegol wedi cael eu rhoi ar y Pwyllgor Safonau ers mis Mai 2022. Mae'r rhain wedi'u nodi isod:

➢ <u>Adroddiad Blynyddol:</u>

Mae'n rhaid i'r Pwyllgor Safonau ddarparu adroddiad blynyddol i'r Cyngor cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, a rhaid i'r Cyngor ystyried yr adroddiad hwn ac unrhyw argymhellion a wneir gan y Pwyllgor o fewn tri mis o'i dderbyn.

Fel isafswm, rhaid i'r adroddiad:

- ddisgrifio sut mae'r Pwyllgor wedi cyflawni ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn flaenorol;
- cynnwys crynodeb o adroddiadau ac argymhellion a wnaed neu a gyfeiriwyd at y pwyllgor gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) yn

ymwneud ag ymchwilio i achosion honedig o dorri'r cod ymddygiad, ac unrhyw gamau dilynol a gymerwyd gan y Pwyllgor;

- disgrifio'r cyngor y mae wedi'i roi ar hyfforddiant i bob Aelod a sut mae'r cyngor hwnnw wedi'i roi ar waith, a
- cynnwys asesiad y Pwyllgor o sut mae Arweinwyr Grŵp wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd newydd i hybu safonau ymddygiad uchel, gan gynnwys y cyngor y mae'r Pwyllgor Safonau wedi'i ddarparu a'r hyfforddiant y mae wedi'i argymell mewn perthynas â'r ddyletswydd hon.

➢ Dyletswydd ar y Pwyllgor Safonau i fonitro cydymffurfiaeth yr Arweinwyr Grŵp a darparu cyngor a hyfforddiant.

Mae dyletswydd newydd wedi cael ei rhoi ar arweinwyr grwpiau gwleidyddol i gymryd camau rhesymol i hybu a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau'r grŵp. Mae'r ddyletswydd hon yn cael ei rhoi ar arweinwyr grwpiau gwleidyddol o fewn y Cyngor. Er mwyn dangos cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd hon mae hefyd yn ofynnol i arweinwyr grwpiau gwleidyddol gydymffurfio â Phwyllgor Safonau'r Cyngor wrth arfer swyddogaethau'r Pwyllgor.

Mae'n rhaid i'r Pwyllgor Safonau fonitro sut y mae'r Arweinwyr Grŵp yn cydymffurfio â'r ddyletswydd newydd ac ystyried sut y mae'n sicrhau ei fod yn bodloni'r gofyniad i ddarparu cyngor a hyfforddiant i Arweinwyr Grŵp o dan gochl y ddyletswydd hon.

## 4. Gwybodaeth ar ddyletswyddau'r Pwyllgor a sut y maent wedi cael eu cyflawni yn ystod 2022/2023

### 4.1 Protocol Datrysiad Lleol:

➢ Protocol Datrysiad Lleol ar gyfer aelodau'r Cyngor Sir:

Cafodd Protocol Datrysiad Lleol ('y Protocol') ar gyfer aelodau'r Cyngor Sir ei ddatblygu a'i gymeradwyo yn ystod 2022/2023. Datblygwyd y Protocol gan y Pwyllgor Safonau, yn seiliedig ar ofynion y ddeddfwriaeth newydd a'i brofiad hyd yma, ac fe'i cytunwyd â'r Arweinwyr Grŵp.  Mae copi ar gael yn y fan yma.

Rydym o'r farn bod y ddogfen hon yn hawdd i'w defnyddio ac yn syml ac rydym yn hapus iawn i'w hyrwyddo.

Er yr hoffem feddwl na fydd angen y Protocol o gwbl, rydym yn mawr obeithio y bydd yr Aelodau yn ei ddefnyddio pe bai angen a byddwn yn eu hannog i wneud hynny. Mae'r Aelodau wedi chwarae rhan yn y gwaith o'i ddatblygu (cafwyd cyflwyniad gan Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau yng nghyfarfod yr Arweinwyr Grŵp, ac yn ystod Sesiwn Briffio ar gyfer yr holl Aelodau); mae'r Pwyllgor Safonau hefyd wedi atgoffa'r Aelodau ynglŷn â'r Protocol a fabwysiadwyd yn y Newyddlen a anfonwyd atynt ym mis Mawrth 2023.

Ers i'r Protocol gael ei fabwysiadu nid oes unrhyw ddigwyddiadau wedi bod lle bu'n rhaid ei ddefnyddio.



DRAFT

- <u>Protocol Datrysiad Lleol ar gyfer aelodau'r Cynghorau Tref a Chymuned:</u>
  Mae Un Llais Cymru (y sefydliad cenedlaethol sy'n cynrychioli cynghorau Tref a Chymuned ledled Cymru) wedi datblygu Protocol Datrysiad Lleol ar gyfer y Cynghorau Tref a Chymru ac mae copi ar gael yn y fan yma. Fodd bynnag, amlinellir yn y Protocol hwn mai'r Clerc a / neu Gadeirydd y Cyngor Tref / Cymuned fydd yn rheoli'r broses. Yn aml iawn, yn ein profiad ni, mae'r Clerc a / neu'r Cadeirydd yn rhan o'r anghydfod neu hwy yw testun y gŵyn ac felly prin yw'r defnydd y gellir ei wneud o'r Protocol hwn.

  Felly, bydd y Pwyllgor Safonau hwn yn trafod y posibilrwydd o ddatblygu Protocol i'w ddefnyddio gan y Cynghorau Tref a Chymuned, pan nad ydi hi'n ymarferol defnyddio Model Un Llais Cymru neu mewn achosion pan nad ydi'r Cyngor penodol wedi mabwysiadu Protocol Un Llais Cymru. Mae'r gwaith hwn wedi'i gynnwys ar raglen waith y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2023-2024.

  Er bod materion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad o fewn y Cynghorau Tref a Chymuned yn rhan o gylch gwaith y Pwyllgor, bydd y Protocol a fydd yn cael ei ddatblygu'n ei gwneud hi'n glir na fydd y Pwyllgor yn ymyrryd mewn materion cyfansoddiadol neu weithdrefnol o fewn y Cynghorau Tref a Chymuned.

  Gofynnwyd i Gadeirydd y Pwyllgor (ynghyd ag aelodau eraill o'r Pwyllgor) ddarparu cymorth i rai Cynghorau Tref a Chymuned yn ystod 2022/2023 ac mae rhagor o wybodaeth ar gael ym mharagraff 4.2 isod.

**4.2 Cynghorau Tref a Chymuned:**

Mae gan y Pwyllgor Safonau hefyd gyfrifoldeb mewn perthynas â Chynghorau Tref a Chymuned ac i gyflawni'r cyfrifoldeb hwn mae'r Pwyllgor wedi ymgymryd â'r gwaith a ganlyn eleni.

Mae'r Pwyllgor wedi rhoi nifer o ymyriadau ar waith mewn Cynghorau Tref a Chymuned yn ystod y cyfnod adrodd hwn, fel arfer ar ôl derbyn gwybodaeth gan drydydd parti yn cynnwys aelodau'r Cyngor neu Gynghorwyr Sir.

Ym mhob achos mae'r broses a ddilynwyd wedi cynnwys ysgrifennu at Gadeirydd neu Glerc y Cyngor penodol yn nodi'r pryderon sydd wedi eu dwyn i sylw Cadeirydd y Pwyllgor Safonau a chadarnhau y bydd dau aelod o'r Pwyllgor Safonau'n dod i arsylwi cyfarfod nesaf y Cynghori Tref/Cymuned.

Yn dilyn y cyfarfod hwnnw, anfonir gohebiaeth at y Clerc a'r Cadeirydd yn eu hysbysu ynglŷn â chasgliadau aelodau'r Pwyllgor Safonau.

Arsylwyd pedwar Cyngor Cymuned yn ystod y cyfnod adrodd hwn / tymor presennol; mae'r manylion yn gyffredinol ac nid ydym wedi enwi neb rhag i'r Cynghorau gael eu hadnabod:

<u>Cyngor Cymuned A:</u>
Mewn un Cyngor Cymuned, arsylwyd ail gyfarfod cyn i aelodau'r PS gynnig eu bod yn cynnal Adolygiad o'r Gofrestr Buddiannau a materion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad ar ran y Cyngor. Cynhaliwyd cyfarfod Adolygu ac anfonwyd



DRAFT

gohebiaeth gynhwysfawr at y Clerc a'r Cadeirydd, a oedd yn nodi argymhellion aelodau'r PS. Ni ragwelir y bydd angen cymryd unrhyw gamau pellach yn y Cyngor hwn.

Cyngor Cymuned B:
Mewn Cyngor Cymuned arall, yn dilyn y cyfarfod arsylwi cyntaf, penderfynwyd mai'r ffordd orau o weithredu oedd cynnig Adolygiad o Gofrestr Buddiannau'r Cyngor a materion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad. Cytunodd y Clerc ar ran y Cyngor, ond fe awgrymodd ohirio'r amserlen oherwydd ymrwymiadau eraill. Mae'r Pwyllgor Safonau'n dymuno cynnal yr Adolygiad hwn yn ystod Haf 2023 ac mae wedi'i gynnwys ar flaen raglen waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/2024.

Cyngor Cymuned C:
Yn yr un modd, yng Nghyngor Cymuned C, yn dilyn y cyfarfod arsylwi cyntaf, penderfynwyd mai'r ffordd orau o weithredu oedd cynnig Adolygiad o Gofrestr Buddiannau'r Cyngor a materion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad. Gwrthodwyd y cynnig hwn gan y Clerc, ar ran y Cyngor, yn y lle cyntaf. Mae'r Cadeirydd wedi ysgrifennu at y Cyngor eto yn gofyn iddynt ailystyried ac egluro mai pwrpas yr Adolygiad ydi cynorthwyo'r Cyngor. Mae'r Pwyllgor Safonau'n gobeithio y bydd y Cyngor yn derbyn y cynnig hwn (sy'n broses gwbl wirfoddol) ac y bydd yn gallu cynnal yr Adolygiad hwn yn ystod Haf 2023. Gan obeithio y bydd y Cyngor yn derbyn y cynnig, mae'r Adolygiad hwn wedi'i gynnwys ar flaen raglen waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/2024.

Cyngor Cymuned Ch:
Mynychodd dau aelod o'r PS gyfarfod arsylwi cyntaf yng Nghyngor Cymuned Ch. Cynghorwyd y Clerc y gallai'r Cyngor gysylltu â'r Pwyllgor Safonau yn y dyfodol os ydynt yn meddwl y byddai Adolygiad o fudd. Mae'r mater hwn wedi'i gynnwys ar flaen raglen waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/2024.

Y patrwm sydd i'w weld uchod yw un o'r rhesymau dros yr awch i ddatblygu Protocol Datrysiad Lleol ar gyfer y Cynghorau Tref a Chymuned gan fod llawer o alw am y math yma o waith ac mae'n effeithio ar gapasiti ac adnoddau'r Pwyllgor.

Mynychodd y Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau gyfarfod o'r Fforwm Cyngor Tref a Chymuned ar 08.09.2022 [i rannu manylion ynglŷn â chyfarfod ffurfiol y Pwyllgor ym mis Mehefin 2022] a 27.02.2023 [unwaith eto, i rannu manylion ynglŷn â chyfarfod ffurfiol y Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2022, ac i drafod y Newyddlen ddrafft a oedd yn cael ei datblygu].

### 4.3 **Newyddlenni**

Ers peth amser, mae'r Pwyllgor wedi cyhoeddi Newyddlenni yn dilyn ei gyfarfodydd chwe-misol. Bernir mai dyma'r ffordd fwyaf effeithiol a hwylus o gyfathrebu â Chynghorwyr, gan rannu ychydig o wybodaeth, neu eu cyfeirio at ffynonellau lle gallent ddod o hyd i ragor o wybodaeth.

Cyhoeddodd y Pwyllgor Newyddlenni ym mis Medi 2022 a mis Mawrth 2023, wedi i'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd fynychu cyfarfod yr Arweinwyr Grŵp a'r Fforwm Cyngor Tref a Chymuned i drafod eu cynnwys.



DRAFT

Mae'r Newyddlenni a anfonwyd at y Cynghorau Tref a Chymuned ar gael yn **Atodiad 3 a 4.**

Anfonwyd Newyddlenni tebyg at Aelodau'r Cyngor Sir (etholedig a chyfetholedig) ac maent ar gael yn **Atodiad 5 a 6.**

Anfonwyd dogfen ychwanegol gyda'r Newyddlenni a anfonwyd ym mis Mawrth 2023 – "Cwrdd ag Aelodau Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn". Mae copi ar gael yn Atodiad **7**.

**4.4 Y ddyletswydd ar yr Arweinwyr Grŵp ac adrodd i'r Pwyllgor Safonau:**

Fel y nodwyd yn Adran 3 uchod, mae dyletswydd newydd wedi cael ei gosod ar Arweinwyr grwpiau Gwleidyddol i gymryd camau rhesymol i hybu a chynnal safonau uchel gan aelodau'r grŵp. Mae disgwyl i Arweinwyr grwpiau Gwleidyddol hefyd gydymffurfio â Phwyllgor Safonau'r Cyngor wrth arfer swyddogaethau'r Pwyllgor.

Yn yr un modd, mae gan y Pwyllgor Safonau ddyletswydd newydd i fonitro sut mae'r Arweinwyr Grŵp yn cydymffurfio â'r ddyletswydd newydd ac ystyried sut y mae'n sicrhau ei fod yn bodloni'r gofyniad i ddarparu cyngor a hyfforddiant i Arweinwyr Grŵp o dan gochl y ddyletswydd hon.

I'r perwyl hwn, mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo yn ystod y cyfnod adrodd hwn o ran y modd y mae'r Arweinwyr Grŵp yn adrodd i'r Pwyllgor Safonau mewn perthynas â hyn, ac mae'n parhau i fod ar raglen waith y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2023/2024.

Mae *pro forma* ar gyfer adrodd wedi cael ei ddatblygu a'i rannu â'r Arweinwyr Grŵp. Cyflwynwyd y gwaith papur drafft i'r Arweinwyr Grŵp ar 27 Ebrill 2023 ac mae copi ar gael yn **Atodiad 8**.

***Mwy o wybodaeth yma unwaith y bydd yr Arweinwyr Grŵp wedi rhannu mwy o fanylion.***

**4.5 Adolygiad o'r Fframwaith Safonau Moesegol a'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol ('Adroddiad Penn'):**

Ym mis Gorffennaf 2021, cyflwynodd Richard Penn yr Adolygiad o'r Fframwaith Safonau Moesegol yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor wedi bod yn ystyried canlyniadau'r adroddiad hwn.

Yn fwy diweddar, mae'r Pwyllgor wedi bod yn ystyried sut i ymateb i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar argymhellion yr Adolygiad Penn.

Mae'r gwaith hwn wedi'i gynnwys yn Rhaglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023-2024 gan fod rhaid ymateb i'r ymgynghoriad erbyn 23 Mehefin 2023. Mae'n debyg y bydd gwaith pellach yn dilyn canlyniadau'r ymgynghoriad hwn gan Lywodraeth Cymru a bydd y Pwyllgor yn cymryd unrhyw gamau perthnasol yn unol â hynny.

DRAFT

## 4.6 Adroddiadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC)

Cyhoeddir adroddiadau gan y OGCC mewn perthynas â chwynion a dderbyniwyd ynghylch toriadau honedig o'r cod ymddygiad gan aelodau'r cyngor neu Gynghorau Tref a Chymuned bob chwarter. Maent hefyd yn cael eu cynnwys ar Agenda cyfarfodydd chwe-misol y Pwyllgor Safonau.

- Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r OGCC wedi derbyn tair cwyn. Derbyniwyd y cwynion hyn yn chwarter 1.
  Roedd un yn ymwneud â Chynghorydd Sir a dau yn ymwneud â Chynghorydd Tref a Chymuned.
  O ran y gŵyn yn erbyn y Cynghorydd Sir, penderfynodd OGCC beidio ag ymchwilio ymhellach.
  Mewn perthynas â'r Cynghorwyr Tref a Chymuned, penderfynodd OGCC beidio ag ymateb i un achos a chafodd yr ymchwiliad i'r achos arall (a ddechreuodd yn y flwyddyn ariannol flaenorol) ei derfynu gan OGCC.
- Mae'n galonogol nodi na dderbyniwyd unrhyw gwynion yn chwarteri 2,3 a 4, y cyfnodau diweddaraf y derbyniwyd adroddiadau yn eu cylch.

Mae'r Pwyllgor Safonau wedi ystyried dadansoddi'r cwynion y mae'n eu derbyn ynghyd ag unrhyw batrymau a mesurau lliniaru. Fodd bynnag, yn ffodus iawn, gan fod cyn lleied o gwynion ar hyn o bryd nid yw'n bosib dod o hyd i unrhyw batrymau.

## 4.7 Caniatâd Arbennig:

Gall y Pwyllgor Safonau ganiatáu caniatâd arbennig, mewn rhai amgylchiadau a ddiffinnir gan statud, lle na fyddai'r aelod fel arall yn gallu cymryd rhan mewn dadl neu benderfyniad oherwydd diddordeb personol (rhagfarnol) sylweddol. Weithiau gall y Pwyllgor Safonau fod mewn sefyllfa i orgyrraedd y diddordeb sy'n rhagfarnu os bodlonir amodau penodol. Mae'r Rheoliadau Caniatâd Arbennig yn berthnasol i aelodau Cynghorau Sir ac aelodau cynghorau tref a chymuned.

Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau am ganiatâd arbennig yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

Cynghorir holl aelodau'r Cyngor Sir ac aelodau Cynghorau Tref a Chymuned i ystyried a allai cais am ganiatâd arbennig fod yn briodol iddynt mewn rhai amgylchiadau ac fe'u hanogir i gysylltu â'r Swyddog Monitro am gyngor. Rhennir dolenni i Nodiadau Briffio ar Ganiatâd Arbennig ag aelodau yn y Newyddlenni a anfonir atynt (gweler **Atodiadau 3-6**).

## 4.8 Cod Ymddygiad: Pennu'r trothwy ar gyfer cofrestru rhoddion a lletygarwch

Mae'r Cod Ymddygiad yn gosod dyletswydd ar aelodau i gofrestru rhoddion a lletygarwch sy'n werth mwy na'r trothwy a bennir gan bob awdurdod.

Ar hyn o bryd £20 ydi'r trothwy yn y Cyngor hwn. Nid yw'r swm wedi newid ers nifer o flynyddoedd.

Yr argymhelliad cyntaf yn yr Adolygiad gan Richard Penn yw y dylai'r trothwy ar gyfer datgan unrhyw rodd neu letygarwch, gael ei nodi yn y Cod er mwyn sicrhau cysondeb ledled Cymru.

Nodir yn nogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru nad oes bwriad i ddiwygio'r Cod Enghreifftiol ond mae Llywodraeth Cymru yn argymell yn ei ganllawiau statudol ac anstatudol sy'n deillio o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) y dylai'r dull o bennu'r trothwy gael ei adolygu a'i gytuno o fewn prif gynghorau unigol ac y dylai'r adolygiad rheolaidd o drothwyon gael ei gynnwys yn adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau. Mae'r canllawiau hefyd yn awgrymu bod hwn yn fater y dylid ei drafod fel mater o drefn gan y swyddogion monitro a chadeiryddion grwpiau pwyllgorau safonau.

Yn wir, bu rhywfaint o drafod ar lefel genedlaethol (yng nghyfarfodydd y Swyddogion Monitro a Fforwm Cenedlaethol y Pwyllgorau Safonau) ynglŷn â chysoni'r trothwy a chael pob awdurdod yng Nghymru i osod yr un trothwy'n wirfoddol, heb orfod newid y ddeddfwriaeth. Y trothwy arfaethedig a drafodwyd yn Fforwm Cenedlaethol y Pwyllgorau Safonau oedd £25.

Mae'r Pwyllgor Safonau'n cytuno gyda'r newid hwn mewn ymgais i sicrhau cysondeb ag Awdurdodau eraill yng Nghymru ac, oherwydd bod y swm yn debyg i'r swm sydd eisoes wedi'i bennu yn yr Awdurdod hwn, nid yw'n debygol o beri unrhyw anawsterau mawr.

Os ydi'r Cyngor yn cytuno i'r cynnig hwn h.y. cynyddu'r lefel cofrestru ar gyfer rhoddion a lletygarwch â dderbynir gan aelodau i £25, awgryma'r Pwyllgor Safonau ei fod yn cynnwys yr argymhelliad yn yr adroddiad nesaf / mwyaf addas ar faterion cyfansoddiadol gaiff ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn.

**4.9 Hyfforddiant**

Cyflwynir adroddiadau gan y Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol yng nghyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor Safonau sy'n cynnwys ystyried y cynnwys a'r gweithredu sydd wedi ei gyflawni o fewn Rhaglen Hyfforddi Aelodau'r Cyngor. Rhoddir cyfle i'r Pwyllgor roddi ei fewnbwn ar y Rhaglen wrth iddi gael ei datblygu ac ystyried sut bydd Aelodau'n cydymyffurfio.

Yn dilyn cynnal adolygiadau o gyfarfodydd y Cyngor a rhai o'i Bwyllgorau, gwnaeth y Pwyllgor Safonau argymhelliad y dylai hyfforddiant ar gyfer Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Cyngor a'i Bwyllgorau fod yn fandadol, wrth iddynt gael eu hethol ac yna bob dwy flynedd os cant eu hail-ethol. Cyflwynwyd y syniad hwn gerbron cyfarfod o'r Arweinyddion Grwpiau a chytunwyd gyda'r argymhelliad hwn.

Mae Hyfforddiant ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Safonau'n rhan o Raglen Waith flynyddol y Pwyllgor. Mae'r Hyfforddiant a gynhaliwyd ar gyfer yr aelodau yn ystod y cyfnod adrodd hwn yn cynnwys hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad i Aelodau ar 20 Mai 2022 (yn dilyn yr Etholiadau Llywodraeth Leol) ac yna ym mis Chwefror 2023 (yn dilyn penodi dau gynrychiolydd Cyngor Tref a Chymuned i'r Pwyllgor). Mae gwaith ar y gweill gyda'r adran Adnoddau Dynol i sicrhau cydymffurfiaeth â'r



DRAFT

modiwlau gorfodol, yn cynnwys hyfforddiant ar Gadeirio Cyfarfodydd ar gyfer Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor.

Mae'r Pwyllgor Safonau hefyd wedi trefnu hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad i aelodau'r Cynghorau Tref a Chymuned ym mis Hydref 2022. Cafodd pedwar sesiwn ei threfnu, gyda dim ond tair yn cael ei chynnal oherwydd diffyg diddordeb gan y Cynghorau Tref a Chymuned. Roedd y nifer isel a fynychodd yn destun trafodaeth yng nghyfarfod y Pwyllgor Safonau ym mis Rhagfyr 2022 a rhoddwyd sylw i hynny yn y Newyddlen ac yn ystod y Fforwm Cyngor Tref a Chymuned. Fel Pwyllgor, credwn ei bod hi'n hanfodol bod pob Cynghorydd yn derbyn hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad ac rydym yn siomedig bod Llywodraeth Cymru wedi gwrthod yr argymhelliad yn yr adroddiad Penn (argymhelliad rhif 7) y dylai hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad fod yn orfodol i bob aelod. Mae hyn wedi'i gynnwys yn ymateb y Pwyllgor i Ymgynghoriad LlC ar yr adroddiad Penn.

Mae hyfforddiant ar gyfer Arweinwyr Grŵp yn faes arall sydd wedi cael ei drafod gan y Pwyllgor Safonau a bydd y trafodaethau hyn yn parhau. Mae hyn yn cynnwys edrych ar y modd y gellid datblygu'r hyfforddiant i Arweinwyr Grŵp ar y ddyletswydd newydd (manylion uchod) ar y cyd drwy Fforwm Cenedlaethol y Pwyllgorau Safonau.

5. **Llwyddiannau yn erbyn rhaglen waith y tymor presennol**

Cymeradwywyd Rhaglen Waith y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2022/2023 gan y Cyngor llawn ym mis Medi 2022.

Gan fod ei gyfrifoldebau'n datblygu o hyd, gall y rhaglen waith arfaethedig newid, wrth i flaenoriaethau newid, ac mae'r Pwyllgor wedi rhoi sylw i rai materion nad oedd wedi eu rhagweld pan gafodd y rhaglen waith ddrafft ei chyflwyno i'r Cyngor.

Mae'r ddogfen yn **Atodiad 1** yn cynnwys Rhaglen Waith gymeradwy'r Pwyllgor ar gyfer 2022-23 ynghyd â'r materion ychwanegol, ac mae'n nodi'r camau a gymerwyd mewn perthynas â phob mater.

6. **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/2024**

Mae Rhaglen Waith Arfaethedig y pwyllgor ar gyfer y flwyddyn i ddod ar gael yn **Atodiad 2**.

7. **Argymhelliad**

7.1 Bod yr Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor i'w gymeradwyo o fewn tri mis o'i dderbyn.

7.2 Bod y Cyngor yn cymeradwyo Rhaglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/2024 (**Atodiad 2**) gan dderbyn y gallai materion ychwanegol gael eu cynnwys, yn unol â'r galw.



DRAFT

**Atodiad 1 – Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2022/2023**

**Rhaglen Waith ar gyfer Pwyllgor Safonau 2022/23 – gyda nodiadau ar gyfer Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor ar gyfer 2022/2023**

| Rhif | Eitem | Camau | Camau a gymerwyd yn ystod cyfnod yr adroddiad |
|---|---|---|---|
| 1 | Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau i'r Cyngor llawn | Pwyllgor i ddechrau ystyried yr Adroddiad Blynyddol nesaf, a dechrau gweithio arno, cyn eu cyfarfod ffurfiol ym mis Mehefin 2023.<br><br>Rhannu'r adroddiad blynyddol (unwaith y bydd wedi'i ystyried gan y Cyngor) gyda Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru? | Adroddiad 2021/2022 wedi'i gyflwyno i'r Cyngor llawn ym mis Medi 2022.<br><br>Adroddiad 2022/2023 (drafft) wedi'i drafod mewn cyfarfod anffurfiol ar 26/5 ac yng nghyfarfod y Pwyllgor Safonau ym mis Mehefin 2023, ac yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn ym mis Medi 2023. |
| 2 | Adolygu'r Protocol Datrys yn Lleol | Gwnaed diwygiad ym mis Mawrth 2022 – efallai y bydd angen adolygiad ar ôl trafodaeth gydag arweinwyr grŵp. Yr adroddiad wedi gwneud achosion yr ymdriniwyd â nhw yn anhysbys dan broses ddatrys yn lleol Ombwdsmon Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru? | Protocol Datrys yn Lleol diwygiedig ar gyfer aelodau CSYM wedi'i dderbyn gan y Pwyllgor Safonau, yn dilyn trafodaeth gydag Arweinwyr Grŵp mewn cyfarfod a chyflwyniad i'r holl Aelodau mewn sesiwn Briffio ym mis Rhagfyr 2022. Eitem wedi'i chynnwys yng Nghylchlythyr y Cyngor Sir ym mis Mawrth 2023.<br><br>Gwaith ar y Protocol Datrys Lleol ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned wedi'i gynnwys yn rhaglen waith 2023/24. |
| 3 | Cynnig a Darparu hyfforddiant i arweinwyr grwpiau gwleidyddol. Angen penderfynu:<br>• Pwy fydd yn darparu'r hyfforddiant<br>• Cyfranogiad aelodau'r pwyllgor safonau<br>• Cynnwys uwch swyddogion? | Angen trafod gydag arweinwyr grwpiau gwleidyddol a'r gwasanaethau democrataidd.<br>Rhaid i'r trefniadau hyn gael eu gwneud ar ddechrau pob gweinyddiaeth ac o fewn 6 mis i'r etholiadau a rhaid eu hadolygu'n flynyddol o leiaf. | Wedi'i drafod gydag Adnoddau Dynol. Ymholiadau wedi'u gwneud i CLlLC am unrhyw hyfforddiant 'penodol' sydd ar gael.<br><br>Parhau gyda rhaglen waith 2023/24. Cyfarfod nesaf Fforwm Pwyllgorau Safonau Cenedlaethol ym Mehefin 2023. |



DRAFFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4 | Cyfathrebu gydag arweinwyr grwpiau gwleidyddol | Proses adrodd ffurfiol gan arweinwyr neu fwy anffurfiol? Cysondeb adroddiadau gan arweinwyr grŵp? Trefnu cyfarfodydd yn rheolaidd er mwyn adolygu ymddygiad? | Cadeirydd ac Is-gadeirydd angen mynychu cyfarfodydd yr Arweinwyr Grŵp fel a ganlyn:<br><br>29.09.2022 – cyflwyno'r Protocol Datrys yn Lleol diwygiedig;<br><br>08.12.2022 – cyflwyno arsylwadau a wnaed yn dilyn ymarferiad arsylwi yng nghyfarfodydd y Cyngor;<br><br>16.03.2023 – trafod eitemau o gyfarfod ffurfiol mis Rhagfyr a'r Cylchlythyr i ddilyn;<br><br>27.04.2023 – trafod Templed Adroddiad yr Arweinwyr Grŵp (dyletswydd newydd dan Ddeddf 2021);<br><br>08.06.2023 – cyflwyno ymateb drafft y Pwyllgor Sgriwtini yn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru o argymhellion adroddiad Penn; |
| 5 | Ymyrraeth/ hysbysiad cwynion lefel isel, gyda rhai o fewn grwpiau nad ydynt wedi'u hadrodd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. | Angen gweld ymateb gan adroddiad Penn gan Lywodraeth Cymru. Rhaid gwneud pob adroddiad yn anhysbys. | Wedi cyfarfod ar 8/3/21 a 27/5/21.<br><br>Wedi cyhoeddi adroddiad Penn. Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar agor dan ddiwedd Mehefin 2023. Bydd y mater hwn yn parhau o fewn rhaglen waith 2023/2024. |
| 6 | Cyfarfodydd | Cyfarfod ffurfiol diwethaf 15/12/2021<br><br>Cyfarfod(ydd) anffurfiol angen ystyried:<br>• Ymgynghoriad ar ganllawiau statudol drafft Llywodraeth Cymru ar safonau ymddygiad, fel drafft ar gyfer Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor ar gyfer y Cyngor llawn. (8/3/22)<br>• Rhaglen waith ar | Cynhaliwyd cyfarfod ffurfiol ar 28/6/22.<br><br>Cyfarfod anffurfiol ar 14/11/22 (arsylwi cyfarfod y Cyngor/Pwyllgor – trafod canfyddiadau)<br><br>Cyfarfod anffurfiol ar 07/12/22 (arsylwi cyfarfod y Cyngor/Pwyllgor – trafod cyflwyniad yng nghyfarfod yr Arweinwyr Grŵp)<br><br>Cyfarfod ffurfiol ar 14/12/22<br><br>Cyfarfod anffurfiol ar 13/1/23 (trafod amrywiaeth o faterion gan gynnwys eitemau ar gyfer |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | gyfer 22/23 (27/4/22)<br><br>Cyfarfod ffurfiol nesaf wedi'i drefnu ar gyfer 28/6/2022. | Cylchlythyrau ac arsylwi cyfarfodydd y Pwyllgor)<br><br>Cyfarfod anffurfiol 24/3/23 (Templed Adroddiad Arweinwyr Grŵp gyda'u dyletswydd newydd dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau Cymru 2021)<br><br>Cyfarfod anffurfiol 12/5/22 (ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar adroddiad Penn)<br><br>Cyfarfod anffurfiol 26/5/22 (adroddiad blynyddol a rhaglen waith y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2023/2024)<br><br>Cyfarfod ffurfiol nesaf wedi'i drefnu ar gyfer 14/6/2023. |
| 7 | Cylchlythyr yn dilyn cyfarfod ffurfiol a gynhaliwyd 15.12.2021 | Aelodau angen ystyried olrhain ymatebion i'r Cylchlythyr gan nifer penodol o gynghorau tref a chymuned yn dilyn trafodaeth ar yr eitem hon yng nghyfarfod ffurfiol y Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2021. | Anfonwyd y Cylchlythyr ym mis Awst 2022 (ymgorffori gwybodaeth o gyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor Safonau ar 12/2021 a 06/2022).<br><br>Anfonwyd y Cylchlythyr ym mis Mawrth 2023 yn dilyn y cyfarfod ffurfiol ym mis Rhagfyr 2022– yn dilyn cyflwyniad gan bob Fforwm o'r Cynghorau Tref a Chymuned a chyfarfodydd Arweinwyr Grŵp.<br><br>Cylchlythyr yn cael ei anfon yn dilyn y cyfarfod ffurfiol ym mis Mehefin 2023. |
| 8 | Adrodd am gwynion – Adroddiadau Diweddaru Chwarterol | Angen gweithio ar weithdrefn i alluogi aelodau'r Pwyllgor i gael sicrwydd na fydd achosion a adroddwyd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn dangos unrhyw duedd benodol o ran ymddygiad gwael. Bwriad y broses hon yw gwarchod a pharchu (unrhyw rai o) ofynion | Cwynion ar gyfer Ch1 a Ch2 2022/2023 wedi'u cyflwyno i aelodau'r Pwyllgor Safonau yng nghyfarfod Rhagfyr 2022.<br><br>Cwynion ar gyfer Ch3 2022/2023 wedi'u hanfon at aelodau ym mis Ionawr 2023.<br>Cwynion ar gyfer Ch4 2022/2023 wedi'u hanfon at aelodau'r Pwyllgor Safonau ym mis Ebrill 2023.<br>Bydd adroddiadau cwynion Ch3 a Ch4 yn cael eu cyflwyno mewn cyfarfod ffurfiol o'r Pwyllgor Safonau ym mis Mehefin 2023. |



DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ynghylch cyfrinachedd y materion hyn. | |
| 9 | Pwyllgor Safonau'n arsylwi gwaith Pwyllgorau Cyhoeddus a'r Cyngor llawn | Yn dilyn penderfyniad y bydd aelodau'r Pwyllgor yn ymgymryd â rôl arsylwi gweithdrefnau mewn cyfarfodydd ffurfiol cyhoeddus Pwyllgorau penodol o'r Cyngor (Sgriwtini a Chynllunio) a chyfarfodydd y Cyngor llawn, hysbyswyd Arweinwyr Grŵp fod hyn bellach mewn grym.<br><br>Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor sydd eisiau cymryd rhan yn y rôl arsylwi hon wneud cais i wirfoddoli, fel y gellir paratoi amserlen a neilltuo cyfrifoldebau yn ôl hyn. | Angen datblygu adroddiad profforma i sicrhau bod yr holl faterion yn cael eu cofnodi.<br><br>Cwblhawyd ymarferiad arsylwi rhwng Medi-Rhagfyr 2022. Mae manylion am y broses wedi'u cynnwys mewn adroddiad llawn i'r Pwyllgor Safonau (dolen isod).<br><br>Cyfarfod anffurfiol ar 14/11/22 (arsylwi cyfarfodydd y Cyngor/Pwyllgor – trafod canfyddiadau hyd yma)<br><br>Cyfarfod anffurfiol ar 07/12/22 (arsylwi cyfarfodydd y Cyngor/Pwyllgor – trafod cyflwyniad ar gyfer cyfarfod yr Arweinwyr Grŵp)<br><br>Trafod canfyddiadau gydag Arweinwyr Grŵp mewn cyfarfod ar 08/12/22<br><br>Cyfarfod ffurfio ar 14/12/22. Adroddiad llawn ar gael yma.<br><br>Arsylwadau ar gyfer Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn parhau. 4 aelod i fynychu cyfarfodydd ar 19/01/2023 (bore a phrynhawn).<br><br>Cyfarfod anffurfiol ar 13/1/23 (trafod amrywiaeth o faterion gan gynnwys parhau i arsylwi cyfarfodydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol)<br><br>Gohebiaeth wedi'i anfon mewn perthynas â'r mater hwn, gan gynnwys Arweinwyr Grŵp.<br><br>Gwnaed penderfyniad i beidio â pharhau gydag unrhyw arsylwi pellach ar gyfer yr ymarferiad hwn. Adolygu hyn yn y dyfodol. |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| 10 | Hyfforddiant ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini | | Trafodaethau'n parhau gydag Adnoddau Dynol.<br><br>Hyfforddiant ar y cod ymddygiad gyfer aelodau'r Pwyllgor Safonau ar 20/5/22.<br><br>Cytunwyd bod y canlynol yn ofynnol i aelodau'r Pwyllgor Safonau<br> Moeseg a Safonau<br> GDPR<br> Ymwybyddiaeth seiber<br> Cyflwyniad i amrywiaeth a chydraddoldeb<br>Ar gael ar y gronfa ddysgu.<br><br>Cyfarfodydd cadeirio hefyd yn ofynnol ar gyfer Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau. [argymhellion y Pwyllgor Safonau, Arweinwyr Grŵp wedi cytuno arnynt].<br><br>Hyfforddiant cod ymddygiad wedi'i gynnal ar gyfer dau aelodau newydd Cynghorau Tref a Chymuned y Pwyllgor Safonau (gwahoddiad estynedig i aelodau eraill o'r Pwyllgor Safonau hefyd) ar 15.02.2023. |
| 11 | Sut i Gwyno | Ystyried sut i hyrwyddo sut i wneud cwyn yn erbyn aelodau etholedig unwaith y cytunir ar y broses ar gyfer cwynion 'lefel isel' yn dilyn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar yr adolygiad Penn. | Wedi cyhoeddi adroddiad Penn. Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar agor dan ddiwedd Mehefin 2023. Bydd y mater hwn yn parhau o fewn rhaglen waith 2023/2024. |

**MATERION A YCHWANEGWYD I'R RHAGLEN WAITH AR ÔL CAEL CYMERADWYAETH GAN Y CYNGOR LLAWN YM MIS MEDI 2023:**

| Rhif | Eitem | Camau | Camau a gymerwyd yn ystod cyfnod yr adroddiad |
|---|---|---|---|
| 12 | Caniatadau Arbennig / Gollyngiadau | Pan fydd ceisiadau'n codi | Dim ceisiadau yn ystod cyfnod yr adroddiad. |
| 13 | Adroddiadau | Pwyllgor Safonau'n | Rheolwr busnes gwasanaethau |



DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | blynyddol aelodau | parhau i annog yr arferiad o gwblhau adroddiadau blynyddol | democrataidd wedi mynychu cyfarfod ffurfiol ar 14/12/2022.<br><br>Penodi Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd newydd ym mis Ionawr 2023.<br><br>Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau wedi cyflwyno'r mater hwn i'r Arweinwyr Grŵp ar 16/03/2023.<br><br>Cafodd y mater hwn ei gynnwys yng Nghylchlythyr y Cyngor Sir.<br><br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd angen mynychu cyfarfod ym mis Mehefin 2023 i drafod gwaith sy'n mynd rhagddo gyda'r adroddiadau blynyddol. |
| 14 | Hyfforddiant Mewnol | Angen cofnodi hyfforddiant mewnol a sicrhau ei fod ar gael i aelodau | Ddim ar gael ar hyn o bryd. |
| 15 | Penodi cynghorwyr tref a chymuned eistedd ar y Pwyllgor Safonau | Gwahoddir ceisiadau drwy ohebiaeth a chylchlythyrau | Yn cael ei godi yn fforwm Cynghorau Tref a Chymuned mis Medi.<br>Dyddiad Cau 30/9/22<br>4 cais wedi'i dderbyn. Papur ymgeisio a phleidleisio wedi'i anfon at glerciaid Cynghorau Tref a Chymuned ar 6/10/2022 i'w dychwelyd erbyn 5pm 19/11/2022.<br><br>Cyflwynwyd adroddiad i'r Cyngor llawn am benderfyniad ar 6/12/22.<br><br>Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Safonau yn ei gyfarfod ffurfiol ar 14/12/22. Ar gael yma.<br><br>Penodwyd y Cynghorydd Margaret Ann Thomas ar gyfer Cyngor Tref Llangefni a'r Cynghorydd Iorwerth Roberts ar gyfer Cyngor Cymunedol Bryngwran. |
| 16 | Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned | Bydd y Cadeirydd ac Is-gadeirydd yn mynychu cyfarfod y Fforwm | Cadeirydd ac Is-gadeirydd wedi mynychu cyfarfod y Fforwm ar 8/9/22 a 27/2/23. |
| 17 | Hyfforddiant ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned | I'w ddarparu gan Un Llais Cymru | Gwahoddiadau wedi'u hanfon 12/8/22. Pedwar diwrnod o hyfforddiant wedi'u trefnu ym mis Hydref, gyda'r gofyniad i gyflwyno ceisiadau erbyn 16/9/22. |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Tri dyddiad terfynol (oherwydd diffyg diddordeb gan Gynghorau Tref a Chymuned yn ystod y cyfnod cofrestru):<br>4/10/2022 am 2pm – Cymraeg<br>6/10/2022 am 6.30pm – Saesneg<br>20/10/2022 am 6.30pm – Cymraeg<br><br>Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor Safonau yn ei gyfarfod ffurfiol ar 14/12/22. Ar gael yma.<br><br>Cafodd y mater sylw yng Nghylchlythyr y Cynghorau Tref a Chymuned. Cadeirydd ac Is-gadeirydd wedi mynychu cyfarfod fforwm ar 27/02/2023 i gyflwyno'r Cylchlythyr/ annog aelodau'r Cynghorau Tref a Chymuned i gwblhau hyfforddiant cod ymddygiad. |
| 18 | Cyngor Cymuned A | Wedi derbyn pryderon lefel isel ynghylch toriadau Cod Ymddygiad mewn perthynas â'r Cyngor / Cynghorwyr yn y Cyngor. | Cadeirydd ac Is-gadeirydd wedi mynychu dau gyfarfod arsylwi, ac wedi cynnal Adolygiad o'r Gofrestr Buddiannau gyda'r Clerc a'r Cadeirydd rhwng mis Hydref 2022 a Mawrth 2023. |
| 19 | Disgrifiad rôl ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor Safonau | Mae'n rhaid darparu disgrifiadau rôl ar gyfer aelodau etholedig a chyfetholedig yn ôl Siarter Datblygu Cymdeithas Llywodraeth Cymru. Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn mabwysiadu'r disgrifiadau rôl newydd. | Disgrifiadau rôl newydd ar-lein, ac yn cynnwys dolenni at dudalen personol bob aelod o'r Pwyllgor Safonau ar y wefan. |
| 20 | Fforwm Pwyllgor Safonau Cenedlaethol | Cynnal y cyfarfod cyntaf ar 8/12/2022. Cadeirydd angen ei fynychu. | Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 27/01/2023. Cadeirydd wedi'i fynychu, ac wedi darparu adborth i aelodau'r Pwyllgor Safonau drwy e-bost/diweddariad ar lafar yn dilyn hyfforddiant Cod Ymddygiad ym mis Chwefror 2023.<br><br>Cyfarfod nesaf y Fforwm ym mis Mehefin 2023.<br><br>Parhau gyda'r rhaglen waith ar gyfer 2023/2024. |



DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| 21 | Cyngor Cymuned B | Wedi derbyn pryderon lefel isel ynghylch toriadau Cod Ymddygiad mewn perthynas â'r Cyngor / Cynghorwyr yn y Cyngor. | Mynychwyd cyfarfod arsylwi ym mis Chwefror 2023, a chytunwyd ar gynnig Adolygu'r Gofrestr Buddiannau ar gyfer Haf 2023.<br><br>Parhau ar y rhaglen waith ar gyfer 2023/2024. |
| 22 | Cyngor Cymuned C | Wedi derbyn pryderon lefel isel ynghylch toriadau Cod Ymddygiad mewn perthynas â'r Cyngor / Cynghorwyr yn y Cyngor. | Mynychwyd cyfarfod arsylwi ym mis Chwefror 2023, a chytunwyd ar gynnig Adolygu'r Gofrestr Buddiannau ar gyfer Haf 2023.<br><br>Parhau ar y rhaglen waith ar gyfer 2023/2024. |
| 23 | Cyngor Cymuned CH | Wedi derbyn pryderon lefel isel ynghylch toriadau Cod Ymddygiad mewn perthynas â'r Cyngor / Cynghorwyr yn y Cyngor. | Mynychwyd cyfarfod arsylwi ym mis Ebrill 2023.<br><br>Parhau ar y rhaglen waith ar gyfer 2023/2024. |

DRAFT

**Atodiad 2 – Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2022/2023**

__**Rhaglen Waith Arfaethedig ar gyfer y Pwyllgor Safonau 2023/2024**__

| Rhif | Eitem | Camau | Cwblhawyd / Camau Pellach |
|---|---|---|---|
| 1 | Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau i'r Cyngor Llawn | Pwyllgor i ddechrau ystyried yr Adroddiad Blynyddol nesaf, a dechrau gweithio arno, cyn eu cyfarfod ffurfiol ym mis Mehefin 2023.<br><br>Pwyllgor i ddechrau datblygu ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2023/2024 (a rhaglen waith arfaethedig ar gyfer 2024/2025) ar ddiwedd tymor 2023/2024. | Adroddiad drafft wedi cael ei ystyried yn ystod y cyfarfod anffurfiol ar 26/05/2023.<br><br>Gwaith yn parhau ar gyfer cyflwyno adroddiad 2023/2024 yng nghyfarfod y Pwyllgor Safon ar 14/06/2023.<br><br>Angen gwaith pellach mewn perthynas â'r adran sy'n delio ag Arweinwyr Grŵp yn adroddiad 2023/2024 a'u cyfrifoldebau newydd. Bydd hyn yn destun trafodaeth bellach gydag aelodau'r Pwyllgor Safonau cyn cyflwyno'r adroddiad i'r Cyngor llawn.<br><br>Cyflwyno adroddiad blynyddol 2023/2024 i'r Cyngor llawn ym mis Medi 2023. |
| 2 | Adolygu'r Protocol Datrysiad Lleol | Protocol Datrysiad Lleol diwygiedig ar gyfer aelodau CSYM wedi'i dderbyn gan y Pwyllgor Safonau yn ei gyfarfod ar 14.12.22. Eitem wedi'i chynnwys yng Nghylchlythyr y Cyngor Sir.<br><br>Angen gwaith pellach mewn perthynas â'r Protocol Datrysiad Lleol ar gyfer y cynghorau tref a chymuned, ynghylch nifer yr achosion lle gofynnwyd i'r Pwyllgor Safonau gynorthwyo oherwydd pryderon ymddygiad. | Mae'r Protocol Datrysiad Lleol ar gyfer aelodau Cynghorau Tref a Chymuned yn eitem ar gyfer Agenda nesaf cyfarfod ffurfiol y Pwyllgor Safonau ym Mehefin 2023. |
| 3 | Cynnig a Darparu | Angen trafod gydag | Cynhelir cyfarfod nesaf y |

DRAFT

**Atodiad 2 – Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2022/2023**

| Rhif | Eitem | Camau | Cwblhawyd / Camau Pellach |
|---|---|---|---|
| | hyfforddiant i arweinwyr grwpiau gwleidyddol. Angen penderfynu:<br>• Pwy fydd yn darparu'r hyfforddiant<br>• Cyfranogiad aelodau'r pwyllgor safonau<br>• Cynnwys uwch swyddogion? | arweinwyr grwpiau gwleidyddol a'r gwasanaethau democrataidd.<br><br>Rhaid i'r trefniadau hyn gael eu gwneud ar ddechrau pob gweinyddiaeth ac o fewn 6 mis i'r etholiadau a rhaid eu hadolygu'n flynyddol o leiaf.<br><br>Trafodwyd hyfforddiant ar gyfer Arweinwyr Grŵp yn Fforwm Cenedlaethol y Pwyllgor Safonau. Unrhyw gynnydd wedi'i wneud? | Fforwm Pwyllgorau Safonau Cenedlaethol ym mis Mehefin 2023. |
| 4 | Cyfathrebu gydag arweinwyr grwpiau gwleidyddol | Cadeirydd ac Is-gadeirydd angen mynychu cyfarfod yr Arweinwyr Grŵp yn dilyn pob cyfarfod ffurfiol o'r Pwyllgor Safonau.<br><br>Adrodd/cyfathrebu ymhellach fel bo angen. | |
| 5 | Dyletswyddau adrodd Arweinwyr Grŵp a'r broses sy'n cael ei dilyn | Cytunir ar y trefniadau canlynol:<br><br>(i'w gosod pan yn ymwybodol ohonynt – Haf 2023) | |
| 6 | Cyfarfodydd | Cyfarfodydd ffurfiol yn ystod Mehefin a Rhagfyr 2023, a phan y bo'n ofynnol.<br><br>Efallai y trefnir cyfarfod anffurfiol pan fo'n ofynnol. | |
| 7 | Newyddlenni yn dilyn y cyfarfod ffurfiol | Parhau (a) i anfon Cylchlythyrau at aelodau etholedig ac aelodau cyfetholedig y | |

**Atodiad 2 – Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2022/2023**

| Rhif | Eitem | Camau | Cwblhawyd / Camau Pellach |
|---|---|---|---|
| | | Cyngor hwn, a (b) chynghorwyr tref a chymuned.<br><br>Angen ystyried pynciau perthnasol i'w cynnwys. | |
| 8 | Adrodd am gwynion – Adroddiadau Diweddaru Chwarterol | Anfonir adroddiadau at aelodau'r Pwyllgor yn chwarterol. Mae'r adroddiadau hefyd wedi'u cynnwys ar Agenda Ffurfiol y Pwyllgor (adrodd ddwywaith y flwyddyn).<br><br>Mae'r adroddiad i'r Pwyllgor yn trafod unrhyw duedd benodol o ran ymddygiad gwael, ond gyda'r lefel bresennol gwynion, nid oes patrwm o'r fath wedi'i adnabod. Angen parhau i adolygu hyn, a sicrhau bod y broses yn cynnal ac yn parchu (unrhyw rai o) ofynion Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ynghylch cyfrinachedd y materion hyn. | |
| 9 | Hyfforddiant ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor Safonau | Sicrhau bod holl aelodau'r Pwyllgor Safonau wedi cwblhau hyfforddiant mandadol.<br><br>Trefnu hyfforddiant cyfryngu.<br><br>Trefnu hyfforddiant Gollyngiadau.<br><br>Trefnu unrhyw hyfforddiant pellach sy'n ofynnol, mewn | |

DRAFT

**Atodiad 2 – Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2022/2023**

| Rhif | Eitem | Camau | Cwblhawyd / Camau Pellach |
|---|---|---|---|
| | | ymgynghoriad gyda'r Rheolwr Hyfforddiant Adnoddau Dynol. | |
| 10 | Sut i Gwyno | Ystyried sut i hyrwyddo sut i wneud cwyn yn erbyn aelodau etholedig unwaith y cytunir ar y broses ar gyfer cwynion 'lefel isel' yn dilyn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar yr adolygiad Penn. | |
| 11 | Caiatadau Arbennig / Gollyngiadau | Pan fydd ceisiadau'n codi | |
| 12 | Adroddiadau blynyddol aelodau | Pwyllgor Safonau'n parhau i annog yr arferiad o gwblhau adroddiadau blynyddol a gweithio gyda Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd ar y mater hwn. | |
| 13 | Penodi aelod annibynnol newydd i eistedd ar y Pwyllgor Safonau | Cynhaliwyd y broses ymgeisio drwy Banel Dethol y Pwyllgor Safonau. | Trefnwyd cyfarfod cyntaf y Panel Dethol ar gyfer mis Mehefin 2023. |
| 14 | Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned | Cadeirydd ac Is-gadeirydd yn mynychu cyfarfodydd y Fforwm i gyflwyno materion o ddiddordeb gan y Pwyllgor Safonau i'r Cynghorau Tref a Chymuned. | Mynychu cyfarfod y Fforwm yn dilyn cyfarfod Mehefin 2023. |
| 15 | Fforwm y Pwyllgor Safonau Cenedlaethol | Cadeirydd y Pwyllgor Safonau angen mynychu cyfarfodydd y Fforwm a darparu adborth i aelodau'r Pwyllgor. | Cyfarfod nesaf ym mis Mehefin 2023. |
| 16 | Adrodd achosion gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r PDC. Cynnig crynodeb ar y prif pwyntiau dysgu ar gyfer aelodau'r Pwyllgor. | Darparu adroddiadau ym mhob cyfarfod ffurfiol o'r Pwyllgor Safonau gan grynhoi'r prif bwyntiau o'r achosion a gyhoeddwyd gan | I'w gynnwys ar y Rhaglen ar gyfer cyfarfod Mehefin 2023. |



DRAFT

| Rhif | Eitem | Camau | Cwblhawyd / Camau Pellach |
|---|---|---|---|
| | | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r PDC.<br><br>Dwyn unrhyw bwyntiau dysgu i sylw'r Cyngor Sir a/neu'r Cynghorau Tref a Chymuned drwy'r Cylchlythyr. | |
| 17 | Trefniadau hyfforddi gan Gynghorau Tref a Chymuned | Gwnaed cais gan y Pwyllgor Safonau yn ei Gylchlythyr mis Mawrth 2023 i Gynghorau Tref a Chymuned anfon copi o'u Trefniadau Hyfforddi at y Pwyllgor Safonau erbyn diwedd Mai 2023.<br><br>Hybu hyfforddiant a gynigir gan Un Llais Cymru. | Cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Safonau erbyn Mehefin 2023.<br><br>Sut i symud ymlaen â'r wybodaeth hon?<br><br>Beth am y Cynghorau Tref a Chymuned nad ydynt wedi ymateb?<br><br>Cysylltu gyda Un Llais Cymru am fanylion. |
| 18 | Adroddiad Penn / ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar faterion moesegol | Adroddiad Penn wedi'i gyhoeddi.<br><br>Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar yr adroddiad Penn a drafodwyd mewn cyfarfod anffurfiol o'r Pwyllgor Safonau ar 12.05.2023.<br><br>Cyflwynwyd ymatebion drafft o'r ymgynghoriad i'r Arweinwyr Grŵp gan y Cadeirydd ar 08.06.2023.<br><br>Eitem ar Raglen cyfarfod ffurfiol y Pwyllgor Safonau ar 14.06.2023.<br><br>Cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad erbyn | |

DRAFT

| Rhif | Eitem | Camau | Cwblhawyd / Camau Pellach |
|---|---|---|---|
| | | 23 Mehefin 2023.<br><br>Gwaith pellach ei angen pan fydd ymateb Llywodraeth Cymru i'r Ymgynghoriad yn cael ei gyhoeddi. | |
| 19 | Penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd ar gyfer y Pwyllgor. | Tymor y Cadeirydd ac Is-gadeirydd presennol yn dod i ben 05.02.2024 | |
| 20 | Cyngor Cymuned B | Dau aelod o'r Pwyllgor Safonau angen cynnal Adolygiad o'r Cofrestr Buddiannau a Chod Ymddygiad sy'n berthnasol i faterion yn y Cyngor, a darparu adborth i'r Cyngor drwy'r Cadeirydd. | |
| 21 | Cyngor Cymuned C | Dau aelod o'r Pwyllgor Safonau angen cynnal Adolygiad o'r Cofrestr Buddiannau a Chod Ymddygiad sy'n berthnasol i faterion yn y Cyngor, a darparu adborth i'r Cyngor drwy'r Cadeirydd. (Os bydd y Cyngor yn cytuno). | |
| 22 | Cyngor Cymuned Ch | Camau i'w cymryd yn dilyn cyfarfod arsylwi ym mis Ebrill 2023. | |
| 23 | Sgyrsiau Blynyddol ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Safonau | Bydd y Cadeirydd yn cyfarfod gyda'r aelodau ac yn adrodd unrhyw allbynnau sydd angen eu trefnu gyda'r Swyddog Monitro.<br><br>Bydd y Cadeirydd yn derbyn sgwrs flynyddol gan y Swyddog Monitro. | |
| 24 | Adolygiad o sampl o Gofrestrau Diddordebau | Cynhelir adolygiad gwaith papur o | |



DRAFT

**Atodiad 2 – Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2022/2023**

| Rhif | Eitem | Camau | Cwblhawyd / Camau Pellach |
|---|---|---|---|
| | Aelodau'r Cyngor Sir. | Gofrestrau Diddordebau sampl o Aelodau CSYM gan aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau. | |
| 13 | Arsylwi cyfarfodydd y Cyngor a'i Bwyllgorau o bryd i'w gilydd. | Bydd aelodau'r Pwyllgor Safonau'n mynychu cyfarfodydd y Cyngor Sir neu ei Bwyllgorau at bwrpas arsylwi os bydd angen, ac, os yn briodol, yn darparu adborth ar gyfer y Cadeirydd perthnasol. | |
| 26 | Cydweithio gyda'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd gyda'i waith ar brofiad y cwsmer / cyfarfodydd hybrid (fel yr adroddodd y Pwyllgor Safonau yn dilyn y broses Arsylwi yn ystod 2022/2023) | Cynorthwyo'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wrth iddo ystyried yr argymhellion roddwyd gan y Pwyllgor Safonau. | |
| 27 | Cefnogi gwaith y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wrth hybu llesiant aelodau'r Cyngor Sir. | Cynorthwyo'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wrth iddo arwain yn y maes hwn. | |
| 28 | Mynediad at wybodaeth ynghylch y Pwyllgor Safonau ar wefan y Cyngor Sir, | Cymryd camau er mwyn sicrhau fod mynediad rhwydd at wybodaeth ynghylch y Pwyllgor Safonau ar wefan y Cyngor. | |

DRAFT

# NEWYDDLEN Y PWYLLGOR SAFONAU CYNGHORWYR TREF A CHYMUNED

ATODIAD 3

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

2il o Fedi 2022 - Rhifyn 4

## CYFLWYNIAD

Hoffai'r Pwyllgor Safonau eich llongyfarch i gyd ar gael eich ethol neu eich ailethol yn gynghorwyr tref / gymuned. Mae'r Pwyllgor Safonau yma i'ch cefnogi i gadw at y cod ymddygiad a fabwysiadwyd gan eich cyngor. Fel y gwyddoch, mae cynnal y lefelau uchaf o ymddygiad moesegol yn rhan hanfodol o'ch rôl wrth gynrychioli'r cyhoedd.

## DATGAN DIDDORDEB

Mae canllawiau lleol wedi'u cyhoeddi i Gynghorwyr ar ddatganiadau o ddiddordeb ac maent wedi'u darparu i'ch clercod*. Mewn rhai amgylchiadau mae'n bosibl cael caniatâd arbennig gan y Pwyllgor Safonau i gymryd rhan mewn penderfyniadau, hyd yn oed os oes gennych ddiddordeb sy'n rhagfarnu (fel yr ydych yn gwybod, mae hwn yn ddiddordeb personol sylweddol sy'n golygu nad ydych yn cael cymryd rhan mewn trafodaeth neu bleidleisio). Mae canllawiau lleol ar sut i wneud cais am ganiatad arbennig wedi'u darparu i'ch clercod*. Cysylltwch â'r Swyddog Monitro am gyngor a chymorth wrth gyflwyno unrhyw gais y dymunwch ei wneud.

*Byddai'r Swyddog Monitro yn hapus i ddarparu copïau pellach ar gais.

## PANEL DYFARNU CYMRU

- Panel Dyfarnu Cymru sy'n gwneud penderfyniad ar achosion difrifol o dorri'r cod ymddygiad. Mae'r Panel yn dribiwnlys sy'n cynnal gwrandawiadau cyhoeddus.
- Adroddir ar yr achosion hyn yn llawn ar wefan y Panel Dyfarnu sydd ar gael ar y ddolen hon
- Os byddai'n well gennych chi weld crynodeb o'r achosion hyn fe adroddir arnynt i'r Pwyllgor Safonau. Mae'r crynodeb diweddaraf a ystyriwyd gan y Pwyllgor Safonau ar gael yn y fan yma.

## DATBLYGU AELODAU

- Mae darparu hyfforddiant i chi ar eich cod ymddygiad yn rhan o rôl y Pwyllgor.
- Felly, rydym wedi ysgrifennu at bob clerc i gynnig sesiynau hyfforddi rhithiol ,1.5 awr o hyd, ar y dyddiadau a ganlyn:

Dydd Mawrth 4ydd Hydref, 2pm -Cymraeg
Dydd Iau 6ed Hydref, 6.30pm – Saesneg
Dydd Mawrth 18fed Hydref, 2pm - Saesneg
Dydd Iau 20fed Hydref, 6.30pm – Cymraeg

- Mae lleoedd yn gyfyngedig, felly os ydych yn gallu mynychu un o'r sesiynau yna rhowch wybod i'ch clerc cyn gynted â phosibl.

## EGWYDDORION NOLAN

**Wrth gytuno i ddod yn Gynghorydd fe wnaethoch chi hefyd gytuno i gadw at yr egwyddorion ymddygiad ar gyfer bywyd cyhoeddus a adwaenir yn gyffredinol fel Egwyddorion Nolan. Yng Nghymru, mae'r rhain yn cynnwys y canlynol**

- ·Anhunanoldeb
- ·Gonestrwydd
- ·Unplygrwydd a phriodoldeb
- ·Dyletswydd i gynnal y gyfraith
- ·Stiwardiaeth
- ·Gwrthrychedd wrth wneud penderfyniadau
- ·Cydraddoldeb a pharch
- ·Bod yn agored
- ·Atebolrwydd
- ·Arweinyddiaeth

## ADOLYGIADAU LLYWODRAETHU ANFFURFIOL

Mae'r Pwyllgor yn cynnal adolygiadau llywodraethu o rai cynghorau tref/cymuned; edrych ar ymrwymiadau, datganiadau o ddiddordeb, cofnodion a chofnodion hyfforddiant. Pan fu'r Pwyllgor yn bwriadu cynnal adolygiadau o'r fath, byddent yn cysylltu â'r clercod perthnasol ymlaen llaw. Rydym yn ddiolchgar iawn i'ch clercod am y cymorth y maent wedi'i roi i ni yn y gorffennol.

- Bydd pob cyngor a adolygir yn derbyn adborth ysgrifenedig ac unrhyw argymhellion, i'w hystyried gan bob aelod o'r cyngor, ond ar sail anffurfiol
- Rhoddir adborth cyffredinol a dienw i bob cyngor hefyd, gan gynnwys unrhyw argymhellion a rhannu arfer da. Byddwn yn gofyn i'r adborth hwn gael ei rannu mewn cyfarfod ffurfiol o'r cyngor

## MONITRO YMDDYGIAD

Mae'r Pwyllgor hefyd yn bwriadu, o bryd i'w gilydd, anfon dau o'i aelodau i fonitro ymddygiad yng nghyfarfodydd cyhoeddus rhai cynghorau tref/cymuned. Gobeithiwn gyflawni hyn o bell a byddwn yn cysylltu â'r clercod perthnasol er mwyn gwneud y trefniadau.

Bydd aelodau'r Pwyllgor yn rhoi adborth cynnar i'r cadeirydd a'r clerc; a gall gynhyrchu canfyddiadau cyffredinol i'w dosbarthu i bob cyngor. Bydd y trefniadau monitro hyn yn dechrau yn 2023.

## DYLETSWYDDAU CYFREITHIOL NEWYDD AR GYNGHORAU TREF/CYMUNED

O dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 rhaid i gynghorau tref a chymuned:

- Cynhyrchu cynllun hyfforddi blynyddol ar gyfer ei gynghorwyr a'i staff, gyda'r cynllun cyntaf yn ofynnol o fewn 6 mis i'r etholiad llywodraeth leol diwethaf ar 5 Mai 2022. Mae'r cynllun hyfforddi yn ddogfen y bydd y Pwyllgor yn gofyn amdani pan fydd yn cynnal ei adolygiadau.
- Cyhoeddi adroddiad blynyddol, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol.
- Mae Un Llais Cymru yn cefnogi ei aelodau i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd.

## AC YN OLAF...

Mae'r Pwyllgor Safonau angen 2 gynrychiolydd gynghorau tref / cymuned i eistedd ar y Pwyllgor. Mae ceisiadau wedi cael eu hanfon at Glercod y gynghorau tref a chymuned gyda dyddiad cau ar gyfer ymateb erbyn diwedd mis Medi 2022. Os nad yw eich cyngor wedi trafod y cais hwn eto, gofynnwn i chi wneud hynny, ac ystyried cyflwyno enwebiad. Mae'r ffurflen gais berthnasol wedi ei darparu i bob clerc. Os bydd mwy na dau ymgeisydd yn cael eu henwebu, bydd proses pleidlais bost yn dilyn.

Hefyd, rhowch wybod i'ch clercod os ydych yn dymuno mynychu unrhyw un o'r sesiynau hyfforddi a nodir uchod.

Nodyn i'ch atgoffa bod y Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned lleol i fod i gael ei gynnal ar 8 Medi 2022.
Sicrhewch fod eich cyngor yn cael ei gynrychioli.
Bydd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor yn cael ei ystyried gan y Cyngor Sir ar y 29ain o Fedi 2022 a bydd ar gael i chi ar wefan Cyngor Sir Ynys Môn

# NEWYDDLEN Y PWYLLGOR SAFONAU AR GYFER CYNGHORWYR TREF A CHYMUNED

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mawrth 2023 - Rhifyn 4

## CYFLWYNIAD

Mae'r Pwyllgor Safonau yma i'ch cefnogi i ddilyn y Cod Ymddygiad y mae'ch Cyngor wedi'i fabwysiadu. Fel y gwyddoch, wrth gynrychioli'r cyhoedd mae'n hanfodol eich bod yn cynnal ymddygiad moesegol o'r safon uchaf.

## EICH CYNRYCHIOLWYR AR Y PWYLLGOR SAFONAU

Yn dilyn pleidlais bost, cafodd y Cynghorydd Iorwerth Roberts o Gyngor Cymuned Bryngwran a'r Cynghorydd Margaret Thomas o Gyngor Tref Llangefni eu hethol i gynrychioli'r cynghorau tref a chymuned ar y Pwyllgor Safonau. Llongyfarchiadau i'r ddau a diolch i'r cynghorau a gymerodd ran yn y broses.

## CWYNION LLEOL

Mae'r Pwyllgor Safonau'n falch bod cyn lleied o gwynion yn cael eu hanfon at yr Ombwdsmon mewn perthynas ag achosion honedig o dorri'r Cod Ymddygiad gan gynghorwyr tref a chymuned yn Ynys Môn.

## ACHOSION OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU (OGCC) A PHANEL DYFARNU CYMRU (PDC)

Mae OGCC yn ymchwilio i achosion honedig o dorri'r Cod Ymddygiad. Mae OGCC yn cyhoeddi gwybodaeth gyfyngedig ynglŷn â'r achosion sy'n cael eu cyfeirio ati ar wefan y gwasanaeth. Mae OGCC yn cyfeirio'r achosion mwyaf difrifol at PDC.
Mae'r rhain yn cael eu hadrodd yn llawn ar wefan OGCC ac maent ar gael yma ac ar wefan PDC yma.
Mae crynodeb o'r achosion hyn yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Safonau (PS).
Mae'r crynodeb gan OGCC a ystyriwyd gan y PS ar gael yma ac mae'r crynodeb gan PDC a ystyriwyd gan y PS ar gael yma.

Mae'r themâu allweddol yn cynnwys y canlynol:

- Mae'r Ombwdsmon newydd (yn y rôl ers 1.4.22) yn dal i ddefnyddio'r prawf dau gam wrth ystyried achosion honedig o dorri'r Cod Ymddygiad. (1.) A oes tystiolaeth bod y Cod wedi'i dorri? a (2.) A ddylid ymchwilio i'r mater er budd y cyhoedd?
- Mae'n bwysig bod aelodau a chlercod cynghorau tref a chymuned yn cwblhau hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad.

## HYFFORDDIANT

- Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ei gwneud hi'n ofynnol i gynghorau lunio cynllun hyfforddi blynyddol ar gyfer cynghorwyr a staff; roedd rhaid cynhyrchu'r cynllun cyntaf o fewn 6 mis i'r etholiadau llywodraeth leol ar 5 Mai 2022.
- **Hoffai'r Pwyllgor Safonau weld eich cynllun hyfforddi chi. Os gwelwch yn dda, anfonwch gopi at medwenjones@ynysmon.llyw.cymru erbyn 31 Mai 2023. Bydd y mater yn cael ei drafod gan y Pwyllgor Safonau yn ei gyfarfod ym mis Mehefin.**
- Roedd y Pwyllgor Safonau'n siomedig o weld cyn lleied yn yr hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad ym mis Hydref 2022. Roedd lle i 90, ond dim ond 37 a gwblhaodd yr hyfforddiant ar y Cod. O'r 40 cyngor tref a chymuned ar Ynys Môn roedd 29 heb glerc nac aelod yn bresennol.
- Mae OGCC a PDC yn annog aelodau a chlercod i gwblhau hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad.
- Os byddwch yn torri'r Cod, a'ch bod heb gwblhau hyfforddiant ar y Cod, bydd hynny'n gwaethygu lefel y gosb fydd yn cael ei hystyried gan y Pwyllgor Safonau neu PDC.

## EGWYDDORION NOLAN

Roedd y rhifyn diwethaf yn cynnwys gwybodaeth am y saith egwyddor mewn bywyd cyhoeddus. Os hoffech edrych arnynt eto, dilynwch y ddolen hon.

## CANIATÂD ARBENNIG

O dan y Cod Ymddygiad fe all aelodau ofyn am ganiatâd arbennig gan y Pwyllgor Safonau i gael cymryd rhan mewn penderfyniadau os oes ganddynt ddiddordeb sy'n rhagfarnu. Mae'ch clerc wedi derbyn canllawiau ar sut i ofyn am ganiatâd arbennig*. Cysylltwch â'r Swyddog Monitro am gyngor a chymorth mewn perthynas ag unrhyw gais am ganiatâd arbennig.
* Bydd y Swyddog Monitro'n hapus i ddarparu copi arall ar gais.

## FFORWM CENEDLAETHOL PWYLLGORAU SAFONAU CYMRU

Mae fforwm Cenedlaethol wedi cael ei greu ar gyfer cadeiryddion pwyllgorau safonau. Bydd yn rhoi cyfle i'r 28 awdurdod yng Nghymru y mae'n ofynnol iddynt gael Pwyllgor Safonau ddod at ei gilydd i drafod arfer dda a datrys problemau. Byddwn yn rhannu unrhyw negeseuon allweddol gyda chi.

## AC YN OLAF:

Cynhaliwyd cyfarfod ffurfiol o'r Pwyllgor Safonau ar 14/12/2022. Os hoffech edrych ar yr eitemau/adroddiadau a gafodd eu hystyried yn ystod y cyfarfod hwn, dilynwch y ddolen hon os gwelwch yn dda.
Os oes angen cymorth neu wybodaeth bellach arnoch, cysylltwch â'r Swyddog Monitro lynnball@ynysmon.llyw.cymru os gwelwch yn dda.

# NEWYDDLEN Y PWYLLGOR SAFONAU CYNGOR SIR YNYS MÔN

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

5ed o Awst 2022 - Rhifyn 3

## CYFLWYNIAD

Hoffai'r Pwyllgor Safonau eich llongyfarch ar gael eich hethol neu eich hail-ethol i'r Cyngor Sir. Mae'r Pwyllgor Safonau yma i'ch cynorthwyo i gadw at y Cod Ymddygiad. Fel y gwyddoch, mae cynnal ymddygiad moesegol o'r safon uchaf yn rhan hanfodol o'ch rôl yn cynrychioli'r cyhoedd.

## DATGAN DIDDORDEB

Mae canllawiau lleol wedi cael eu rhannu â Chynghorwyr mewn perthynas â datgan diddordeb ac maent hefyd ar gael ar y ddolen hon. Mewn rhai amgylchiadau mae'n bosib cael caniatâd arbennig gan y Pwyllgor Safonau i gymryd rhan mewn proses benderfynu hyd yn oed os oes gennych chi ddiddordeb sy'n rhagfarnu (fel y gwyddoch, mae hyn yn golygu diddordeb personol sylweddol sy'n eich hatal rhag gymryd rhan yn y drafodaeth a'r bleidlais). Gelwir y caniatâd arbennig hwn gan y Pwyllgor Safonau'n ollyngiad ac mae canllawiau lleol ar sut i wneud cais am ollyngiad ar gael yn y fan yma. Cysylltwch â'r Swyddog Monitro os hoffech gyngor neu gymorth wrth gyflwyno cais.

## PANEL DYFARNU CYMRU

- Panel Dyfarnu Cymru sy'n gwneud penderfyniad ar achosion difrifol o dorri'r Cod Ymddygiad. Mae'r Panel yn dribiwnlys sy'n cynnal gwrandawiadau cyhoeddus.
- Adroddir ar yr achosion hyn yn llawn ar wefan y Panel Dyfarnu sydd ar gael ar y ddolen hon
- Os byddai'n well gennych chi weld crynodeb o'r achosion hyn fe adroddir arnynt i'r Pwyllgor Safonau. Mae'r crynodeb diweddaraf a ystyriwyd gan y Pwyllgor Safonau ar gael yn y fan yma

## DATRYSIAD LLEOL

Mae'r Pwyllgor Safonau yn credu mewn ymyrraeth gynnar, a chyfryngu, er mwyn datrys problemau lle bynnag y bo modd.
I'r perwyl hwn mae'r Pwyllgor wrthi'n datblygu Protocol Datrysiad Lleol newydd, i gynnwys yr Arweinwyr Grŵp, a fydd yn cael ei anfon at bob Cynghorydd maes o law.

## EGWYDDORION NOLAN

**Wrth gytuno i ddod yn Gynghorydd fe wnaethoch chi hefyd gytuno i gadw at yr egwyddorion ymddygiad ar gyfer bywyd cyhoeddus a adwaenir yn gyffredinol fel Egwyddorion Nolan. Yng Nghymru, mae'r rhain yn cynnwys y canlynol**

- Anhunanoldeb
- Gonestrwydd
- Unplygrwydd a phriodoldeb
- Dyletswydd i gynnal y gyfraith
- Stiwardiaeth
- Gwrthrychedd wrth wneud penderfyniadau
- Cydraddoldeb a pharch
- Bod yn agored
- Atebolrwydd
- Arweinyddiaeth

## MONITRO YMDDYGIAD

- Bydd aelodau'r Pwyllgor Safonau'n mynychu cyfarfodydd y Cyngor / ei Bwyllgorau o bryd i'w gilydd i asesu cydymffurfiaeth â'r safonau ymddygiad
- Bydd adborth buan yn cael ei roi i Gadeiryddion Pwyllgorau
- Bydd adborth yn cael ei roi i Arweinwyr Grŵp yn chwarterol

## DATBLYGU AELODAU

- Mae'n rhaid i Gynghorwyr gwblhau hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad.
- Cynhaliwyd sesiwn ar 20 Mai 2022 a rhannwyd y deunyddiau hyfforddi â phob Cynghorydd
- Fodd bynnag, cynghorir y rheiny nad oedd yn gallu bod yn bresennol i gwblhau'r modiwl "Moeseg a Safonau" ar Gronfa Ddysgu'r Cyngor, 'Learning Pool'. Mae'r ddolen ar gael yn y fan yma

## DYLETSWYDDAU CYFREITHIOL NEWYDD AR Y PWYLLGOR SAFONAU

- Erbyn hyn mae'n rhaid i'r Pwyllgor Safonau fonitro'r modd y mae Arweinwyr Grwp yn cyflawni'r ddyletswydd statudol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad o safon uchel ymysg yr aelodau o'u grwp
- Sicrhau bod Arweinwyr Grŵp yn derbyn hyfforddiant ar sut i gyflawni y ddyletswydd safonau moesegol
- Rhaid i'r Pwyllgor Safonau gyflawni adroddiad blynyddol i'r Cyngor. Cyflwynir adroddiad statudol cyntaf y Pwyllgor Safonau i'r Cyngor ar 29 Medi 2022 a bydd ar gael ar wefan y Cyngor.

## AC YN OLAF......

Mae'r Pwyllgor Safonau yn chwilio am 2 gynrychiolydd o Gyngor Tref/Cymuned i fod yn rhan o'r Pwyllgor. Anfonwyd cais at Glercod y Cynghorau Tref a Chymuned a'r dyddiad cau ar gyfer enwebu yw diwedd Medi 2022. Hyd yma, dim ond un enwebiad sydd wedi dod i law ac felly gofynnwn i chi atgoffa'r Cynghorau Cymuned yr ydych chi'n aelod ohonynt / yn eu mynychu'n rheolaidd, i ystyried cyflwyno o leiaf un enwebiad yr un. Os bydd mwy na dau ymgiesydd yn cael ei enwebu, bydd proses bleidlais drwy'r post wedyn yn dilyn.

Os oes angen unrhyw gymorth arnoch, neu wybodaeth bellach cysylltwch â'r Swyddog Monitro os gwelwch yn dda
lynnball@ynysmon.llyw.cymru

# NEWYDDLEN Y PWYLLGOR SAFONAU AR GYFER CYNGHORWYR SIR

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mawrth 2023 - Rhifyn 4

## CYFLWYNIAD

Mae'r Pwyllgor Safonau yma i'ch cefnogi i ddilyn y Cod Ymddygiad i Aelodau. Fel y gwyddoch, wrth gynrychioli'r cyhoedd mae'n hanfodol eich bod yn cynnal ymddygiad moesegol o'r safon uchaf.

### ADRODDIADAU BLYNYDDOL

Mae'r Pwyllgor Safonau'n annog pob aelod etholedig i gwblhau Adroddiad Blynyddol, gan nodi'r gwaith a'r hyfforddiant yr ydych chi wedi'i gyflawni fel aelod o'r Cyngor hwn rhwng 01.04.22-31.03.23. Mae templed ar gael yma.

### CANIATÂD ARBENNIG

O dan y Cod Ymddygiad, gall aelodau ofyn with y Pwyllgor Safonau am ganiatâd arbennig i'w caniatau i gymryd rhan mewn penderfyniadau pan fo ganddynt ddiddordeb sy'n rhagfarnu. Mae canllawiau lleol ar sut i wneud cais am ganiatâd arbennig ar gael yma. Cysylltwch â'r Swyddog Monitro am gyngor a chymorth mewn perthynas ag unrhyw gais am ganiatâd arbennig.

### MONITRO YMDDYGIAD

Fel rhan o'i raglen waith, mae aelodau'r Pwyllgor Safonau wedi ymuno â chyfarfodydd (a) y Cyngor, (b) y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion (c) y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ac (ch) y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio i fonitro safonau ymddygiad. Hoffai'r Pwyllgor Safonau fanteisio ar y cyfle i ddiolch i chi am y croeso. Mae adborth wedi cael ei rannu ar lafar gyda chadeiryddion pwyllgorau, mewn cyfarfod o'r Grŵp Arweinyddion ac yn Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Sgriwtini. Mae dolen i'r rhestr lawn o argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Safonau ar gael yma.

### FFORWM CENEDLAETHOL PWYLLGORAU SAFONAU CYMRU

Yn dilyn argymhelliad yn adroddiad Penn, mae fforwm cenedlaethol wedi cael ei sefydlu ar gyfer cadeiryddion pwyllgorau safonau. Bydd y Fforwm yn gyfle i rannu arfer dda. Byddwn yn rhannu unrhyw negeseuon allweddol gyda chi.

### HYFFORDDIANT I AELODAU

Fe'ch anogir i gwblhau unrhyw hyfforddiant a fydd o gymorth i chi yn eich rôl fel aelod o CSYM. Nod unrhyw hyfforddiant yw eich grymuso a'ch galluogi i weithredu mor effeithiol â phosibl yn eich rôl.

Anogir Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Cyngor a'i bwyllgorau yn gryf i gwblhau'r modiwl Sgiliau Cadeirio.

Os nad ydych wedi cwblhau'r hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad, mae'r Pwyllgor Safonau'n eich annog i wneud hynny.

Mae'r holl fodiwlau ar gael ar y Gronfa Ddysgu (Learning Pool) sydd ar gael ar y ddolen hon. Am gyfarwyddiadau ar sut i ddefnyddio'r Gronfa dilynwch y ddolen hon.

Ar ôl i chi gwblhau unrhyw hyfforddiant yn rhinwedd eich rôl fel aelod, cofiwch nodi manylion yr hyfforddiant hwnnw ar eich tudalen proffil ar y wefan. I gael gwybod sut i wneud hyn dilynwch y ddolen hon.

Os hoffech gael manylion yr hyfforddiant corfforaethol yr ydych chi wedi'i gwblhau, cysylltwch â CefnogaethAelodauEtholedig@ynysmon.llyw.cymru

### CWYNION LLEOL

Mae'r Pwyllgor Safonau'n falch bod cyn lleied o gwynion yn cael eu hanfon at yr Ombwdsmon mewn perthynas ag achosion honedig o dorri'r Cod Ymddygiad.

### AC YN OLAF:

Cynhaliwyd cyfarfod ffurfiol o'r Pwyllgor Safonau ar 14/12/2022. Os hoffech edrych ar yr eitemau/adroddiadau a gafodd eu hystyried yn ystod y cyfarfod hwn, dilynwch y ddolen hon os gwelwch yn dda.

Os oes angen cymorth neu wybodaeth bellach arnoch, cysylltwch â'r Swyddog Monitro lynnball@ynysmon.llyw.cymru os gwelwch yn dda.

### ACHOSION OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU (OGCC) A PHANEL DYFARNU CYMRU (PDC)

Mae OGCC yn ymchwilio i achosion honedig o dorri'r Cod Ymddygiad. Mae OGCC yn cyhoeddi gwybodaeth gyfyngedig ynglŷn â'r achosion sy'n cael eu cyfeirio ati ar y wefan y gwasanaeth. Mae OGCC yn cyfeirio'r achosion mwyaf difrifol at PDC.

Mae'r rhain yn cael eu hadrodd yn llawn ar wefan OGCC ac maent ar gael yma ac ar wefan PDC yma.

Mae crynodeb o'r achosion hyn yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Safonau (PS). Mae'r crynodeb gan OGCC a ystyriwyd gan y PS ar gael yma ac mae'r crynodeb gan PDC a ystyriwyd gan y PS ar gael yma.

Mae'r themâu allweddol yn cynnwys y canlynol:

- Mae'r Ombwdsmon newydd (yn y rôl ers 1.4.22) yn dal i ddefnyddio'r prawf dau gam wrth ystyried achosion honedig o dorri'r Cod Ymddygiad. (1.) A oes tystiolaeth bod y Cod wedi'i dorri? a (2.) A ddylid ymchwilio i'r mater er budd y cyhoedd?
- Pwysigrwydd cwblhau hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad.

### EGWYDDORION NOLAN

Roedd y rhifyn diwethaf yn cynnwys gwybodaeth am y saith egwyddor mewn bywyd cyhoeddus. Os hoffech edrych arnynt eto, dilynwch y ddolen hon.

### PROTOCOL DATRYSIAD LLEOL

Mae fersiwn diwygiedig o'r protocol datrysiad lleol wedi cael ei fabwysiadu ar ôl ymgynghori ag aelodau. Mae copi ar gael yma.


ATODIAD 7

# CWRDD AG AELODAU PWYLLGOR SAFONAU CYNGOR SIR YNYS MÔN

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Penodwyd dau aelod newydd i'r Pwyllgor Safonau yn ddiweddar; wrth eu cyflwyno nhw mae hefyd yn gyfle addas i rannu gwybodaeth gyda chi am yr holl aelodau sydd, gyda'i gilydd, yn ffurfio Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn – i chi gael rhoi wyneb i'r rheiny sy'n gyfrifol am Newyddlenni'r Pwyllgor Safonau a gyhoeddir ddwywaith y flwyddyn.

Mae gan y Pwyllgor Safonau naw o aelodau: mae pump ohonynt yn aelodau annibynnol sydd wedi cael eu cyfethol yn dilyn proses statudol; mae dau aelod yn cael eu hethol gan y cynghorwyr tref a chymuned lleol fel cynrychiolwyr cynghorau tref a chymuned; ac mae dau aelod yn cael eu dewis o blith aelodau etholedig y Cyngor Sir.



## JOHN ROBERT JONES
## Aelod Annibynnol

Cafodd y Cadeirydd, John, ei gyfethol i'r Pwyllgor Safonau yn 2017, blwyddyn ar ôl iddo ymddeol fel Prif Swyddog Medrwn Môn, yr asiantaeth annibynnol sy'n darparu cyngor a chymorth i sefydliadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol.
Mae John yn siaradwr Cymraeg a chafodd ei eni a'i fagu ar Ynys Môn ac mae'n dal i fyw ar yr ynys gyda'i deulu.
"Cefais fy ethol yn Gadeirydd ar y Pwyllgor Safonau yn 2020 ac mae'r Pwyllgor Safonau'n parhau i weithio'n rhagweithiol gydag aelodau etholedig ac aelodau cyfetholedig y Cyngor Sir, yn ogystal â chynghorwyr tref a chymuned, i gynnal y safonau ymddygiad uchaf posib".
Gallwch gysylltu â'r cadeirydd ar JohnJones@ynysmon.llyw.cymru



## RHYS DAVIES
## Aelod Annibynnol

Cafodd Rhys, ei ethol yn Is-gadeirydd yn fuan ar ôl iddo gael ei benodi i'r Pwyllgor Safonau yn 2019. Ar ôl astudio deintyddiaeth yng Nghaerdydd, daeth adref i'w ynys enedigol, Ynys Môn, i weithio fel deintydd am dros 30 mlynedd, nes iddo ymddeol yn 2015.
"Rydw i wedi mwynhau'r profiadau a gefais ers dod yn aelod o'r Pwyllgor Safonau. Byddaf yn hapus i ymroi a chyfrannu at y gwaith o gynorthwyo aelodau i gydymffurfio â'u dyletswyddau o dan y Côd Ymddygiad er mwyn sicrhau fod penderfyniadau'n cael eu gwneud mewn ffordd dryloyw a bod aelodau'n gweithredu gydag uniondeb".



## CELYN MENAI EDWARDS
## Aelod Annibynnol

Ar hyn o bryd mae Celyn, sydd wedi cymhwyso fel bargyfreithiwr, yn gweithio fel Prif Weithredwr Cymdeithas Elusennol Ynys Môn a chyn hynny roedd yn gweithio i Senedd Cymru. Cafodd ei phenodi i'r Pwyllgor Safonau yn 2019 wedi iddi hi a'i theulu ddychwelyd i Ynys Môn o Gaerdydd.




## GILL MURGATROYD
## Aelod Annibynnol

Mae Gill yn Gymrawd y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu ac, ar hyn o bryd, mae'n Gyfarwyddwr ar ei busnes ymgynghoriaeth Adnoddau Dynol a datblygu sefydliadau y mae'n ei redeg o'i chartref yn Llandudno, Gogledd Cymru.



## SHARON WARNES
## Aelod Annibynnol

Dechreuodd Sharon ei gyrfa fel athrawes ysgol uwchradd ac yna bu'n gweithio yn y sector addysg bellach cyn gweithio mewn llywodraeth leol am dros 30 mlynedd.
Yn ogystal â'i rôl ar y Pwyllgor Safonau ers 2019, mae'n aelod lleyg o Bwyllgor Archwilio Cyngor Gwynedd a hi yw Cadeirydd Pwyllgor Safonau Parc Cenedlaethol Eryri.



## TREFOR LLOYD HUGHES
## Cynrychiolydd Cyngor Sir

Mae Trefor yn aelod o Blaid Cymru ac mae'n cynrychioli Ynys Cybi ar y Cyngor Sir. Cafodd ei benodi i'r Pwyllgor Safonau yn dilyn yr etholiad ym mis Mai 2022; hwn fydd ei ail dymor ar y Pwyllgor.



## DAFYDD RHYS THOMAS
## Cynrychiolydd Cyngor Sir

Mae Dafydd yn aelod o'r Grŵp Annibynnol. Penodwyd Dafydd i'r Pwyllgor Safonau yn dilyn yr etholiad ym mis Mai 2022; hwn fydd ei ail dymor ar y Pwyllgor Safonau ac mae'n cynrychioli Ynys Cybi ar y Cyngor Sir.



## MARGARET THOMAS
## Cynrychiolydd Cyngor Tref a Chymuned

Mae Margaret wedi bod yn aelod o Gyngor Tref Llangefni am 23 mlynedd a bu'n Faer y Dref bum gwaith yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae'n cynrychioli'r Cyngor Tref yng nghyfarfodydd Rhanbarthol Un Llais Cymru a'r pwyllgor ardal.
Mae hi wedi byw ar Ynys Môn gydol ei hoes ac mae'n dal i fyw ar y fferm deuluol, gan olynu ei rhieni. Penodwyd Margaret i'r Pwyllgor Safonau ym mis Rhagfyr 2022.
"Rydw i'n edrych ymlaen at ddefnyddio fy mhrofiad fel Cynghorydd Tref i gynorthwyo'r Pwyllgor Safonau gyda'i rôl o gynnal lefelau uchel o ymddygiad ymysg aelodau etholedig a chyfetholedig yn Ynys Môn".



## IORWERTH ROBERTS
## Cynrychiolydd Cyngor Tref a Chymuned

Mae Iorwerth yn aelod o Gyngor Cymuned Bryngwran ers 1997 ac, yn ystod y 22 mlynedd diwethaf, mae o wedi bod yn Gadeirydd ar y Cyngor Cymuned.
Bu'n gweithio yn y diwydiant adeiladu am dros 30 mlynedd, gan gynnwys fel tiwtor ac asesydd achrededig. Penodwyd Iorwerth i'r Pwyllgor Safonau am y tro cyntaf yn 2017 a chafodd ei benodi am ail dymor yn ddiweddar.
"Rydw i'n gobeithio y gall fy mhrofiad fel cynghorydd cymuned gynorthwyo'r pwyllgor pan fydd yn trafod materion yn gysylltiedig ag ymddygiad, yn arbennig os ydynt yn ymwneud â chynghorwyr cymuned. Un peth y byddwn yn ei bwysleisio i'r cynghorwyr presennol yw bod hyfforddiant yn hanfodol, ac yn enwedig hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad.

Mae'r Pwyllgor Safonau yma i'ch cynorthwyo i gadw at y Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan eich Cyngor. Fel y gwyddoch, mae cynnal y lefel uchaf o ymddygiad moesegol yn rhan hanfodol o'ch rôl wrth gynrychioli'r cyhoedd.

Am ragor o wybodaeth am waith y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn, gweler y Rhaglen Waith ar gyfer 2022/2023 yn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor



Os bydd gennych unrhyw gwestiynau am waith y Pwyllgor Safonau, cysylltwch â'r Swyddog Monitro ar lynnball@ynysmon.llyw.cymru

# Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau a dyletswydd newydd yr Arweinyddion Grwpiau

1. O dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, erbyn hyn mae gan Arweinyddion Grwpiau ddyletswyddau mewn perthynas â safonau ymddygiad. Rhaid i arweinydd grŵp gwleidyddol (a) gymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau uchel gan aelodau'r grŵp a (b) gweithredu â Phwyllgor Safonau'r Cyngor wrth iddo arfer ei swyddogaethau.

2. Mae'n bosib y gallai arweinydd grŵp gwleidyddol sy'n methu â chydymffurfio â'r ddyletswydd newydd mewn ffordd ystyrlon gael eu hystyried i fod yn dwyn anfri ar ei swydd, a'i bod yn debygol eu bod yn torri'r Cod Ymddygiad i Aelodau.

3. Hefyd, mae Deddf 2021 yn gosod dyletswydd ar Bwyllgorau Safonau i lunio adroddiad blynyddol i'r cyngor cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol (1 Ebrill- 31 Mawrth). Rhaid i'r adroddiad gael ei ystyried gan y cyngor perthnasol o fewn tri mis i'w dderbyn.

4. Rhaid i adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau gynnwys asesiad y pwyllgor o sut y mae arweinwyr grwpiau gwleidyddol wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd newydd (paragraff 1 uchod). Bydd rhaid i'r Arweinyddion Grwpiau ddarparu gwybodaeth i'r Pwyllgor Safonau i'w alluogi i wneud hyn.

5. Ar ôl ystyried gofynion Deddf 2021, lluniwyd adroddiad templed drafft i gynorthwyo'r Arweinyddion Grwpiau ac i'w hatgoffa o'r wybodaeth y mae'n rhaid iddynt ei ddarparu yn eu hadroddiad i'r Pwyllgor Safonau. Mae'r templed ar gael yn **Atodiad 1**.

6. Nid yw'r templed yn gofyn am, ac ni ddylid cynnwys, manylion achosion unigol. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar y math o gamau a gymerwyd mewn perthynas â phob mater.

7. Gofynnir i Arweinyddion Grwpiau gynhyrchu'r adroddiadau hyn unwaith y flwyddyn; fodd bynnag, os bydd materion o bwys yn codi yn ystod y flwyddyn, gofynnir i'r Arweinyddion Grwpiau ymgynghori â'r Swyddog Monitro, a fydd yn rhoi gwybod i Gadeirydd y Pwyllgor Safonau.

8. Ar ôl eu cwblhau dylai'r Arweinyddion Grwpiau anfon y ffurflenni at y Swyddog Monitro erbyn **30 Ebrill**. Bydd y Swyddog Monitro'n adrodd wrth y Pwyllgor Safonau.

9. Bydd y Pwyllgor Safonau'n trefnu i gwrdd â phob Arweinydd Grŵp yn breifat **yn ystod mis Mai** i drafod yr adroddiad.

10. Bydd y Pwyllgor Safonau'n cynnwys gwybodaeth addas o adroddiadau'r Arweinyddion Grwpiau o fewn ei adroddiad blynyddol i'r Cyngor. Bydd adroddiad blynyddol y Pwyllgor yn cynnwys crynodeb o'r camau a gymerwyd i gyflawni'r ddyletswydd, barn y pwyllgor ynghylch a yw'r camau a gymerwyd yn ddigonol ac unrhyw ddarnau o waith y gellid eu cyflawni yn y dyfodol ayb.

11. Bydd y Pwyllgor Safonau'n trafod ei adroddiad blynyddol drafft ar gyfer y Cyngor yn ei gyfarfod ffurfiol ym Mehefin. Yn ystod y cyfarfod hwn, bydd y Pwyllgor Safonau'n cytuno ar ei ganfyddiadau oadroddiadau'r Arweinyddion Grwpiau a bydd hefyd yn adnabod, o fewn y fforwm cyhoeddus yma, unrhyw Arweinydd Grŵp sydd wedi methu â chyflwyno adroddiad.

12. Bydd adroddiad blynyddol y Pwyllgor yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn yn y cyfarfod llawn nesaf sydd ar gael yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Safonau ym mis Mehefin.

13. Bydd rhaid briffio aelodau di-gysylltiad (sydd ddim yn perthyn i grŵp) yn yr un modd â'r Arweinyddion Grwpiau er mwyn sicrhau bod safonau ymddygiad uchel yn cael eu cynnal gan bob aelod, er na fydd disgwyl iddynt gynhyrchu adroddiad yn y modd hwn.


Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

## Adroddiad gan Arweinydd Grŵp (AG) i'r Pwyllgor Safonau mewn perthynas â'i ddyletswydd fel AG:

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Adroddiad gan:** | (enw'r AG) | **Grŵp Gwleidyddol:** | (enw'r Grŵp) |
| **Y cyfnod y mae'r adroddiad yn ymdrin ag o ('y Cyfnod'):** | 1 Ebrill 20___ hyd nes 30 Mawrth 20___ | **Nifer o aelodau yn y grŵp:** | |

**Hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad yn ystod y Cyfnod:**

| | |
|---|---|
| **Nifer yr aelodau sydd wedi derbyn hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad:** | |

**Hyfforddiant Modiwlau Mandadol (ac eithrio'r Cod Ymddygiad) yn ystod y Cyfnod:**
Gweler y rhestr o Hyfforddiant Mandadol sydd wedi ei gynnwys yn **Atodiad 2.**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Nifer o fodiwlau hyfforddiant mandadol sydd angen eu cwblhau gan holl aelodau'r Grŵp:** | | **Nifer o fodiwlau sydd wedi eu cwblhau:** | |
| **Nifer o aelodau o fewn y grŵp sydd wedi cwblhau'r holl fodiwlau mandadol gofynnol:** | | | |

**Cyfarfodydd rheolaidd o'r Grŵp yn ystod y Cyfnod:**

| | |
|---|---|
| **Nifer o gyfarfodydd Grŵp sydd wedi eu cynnal ar gyfer holl aelodau'r Grŵp:** | |

**Adolygiad blynyddol rhwng aelodau a'r Arweinydd Grŵp yn ystod y Cyfnod:**

| | |
|---|---|
| **Nifer yr aelodau sydd wedi cael cynnig adolygiad blynyddol gyda'r AG:** | |
| **Nifer yr aelodau sydd wedi derbyn y cynnig uchod gyda'r AG:** | |
| **Nifer yr aelodau sydd wedi mynychu cyfarfod adolygiad blynyddol gyda'r AG:** | |

**Adroddiadau Blynyddol ar gyfer y Cyfnod:**

| | |
|---|---|
| **Nifer yr aelodau sydd wedi cyflwyno adroddiad blynyddol:** | |

**Cofrestr Sefydlog o Ddiddordebau Personol:**

| | |
|---|---|
| **Nifer yr aelodau sydd wedi adolygu eu Cofrestr Sefydlog o Ddiddordebau Personol:** | |

**Cwynion:**

| **Cwyn gan:** | **Y camau a gyrhaeddwyd:** | | |
|---|---|---|---|
| (nodwch y niferoedd) | **Anffurfiol** | **Protocol Datrysiad Lleol** | **OGGC** |
| aelod o'r cyhoedd | | | |
| swyddog | | | |
| aelod o'r un grŵp gwleidyddol | | | |
| aelod o wahanol grŵp gwleidyddol / ddim mewn grŵp gwleidyddol | | | |

**Cyfarfodydd cefnogi:**

| | |
|---|---|
| **Nifer yr aelodau sydd wedi cael cynnig cyfarfod cefnogi gan yr AG:** | |
| **Nifer yr aelodau sydd wedi derbyn y cynnig am gyfarfod cefnogi gan yr AG:** | |

**Camau a gymerwyd gan yr AG i hybu cydymffurfiaeth â'r Cod Ymddygiad:**

| |
|---|
| Dylech gwblhau'r darn yma yn eich geiriau eich hun. Gweler **Atodiad 3** am fwy o wybodaeth. |
| |

***Anfonwch eich adroddiad, os gwelwch yn dda, at y Swyddog Monitro drwy ebostio LynnBall@ynysmon.llyw.cymru***

***Arwyddwyd gan yr AG:***_______________________________________ ***Dyddiad:*** __________________



DRAFT

**Modiwlau Hyfforddiant Mandadol** **Atodiad 2**

**Yn gyffredinol (ac eithrio'r Cod Ymddygiad – sy'n cael sylw o dan bennawd arall):**

- **Diogelwch Seibr**
- **Gwarchod**
- **Prosesu Gwybodaeth (GDPR)**
- **Cydraddoldebau**

**Yn ogystal â:**

- **Ar gyfer holl Gadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Cyngor a'i Bwyllgorau:**
  - **Cadeirio Cyfarfodydd Gadeiryddion ac Is-Gadeiryddion**
    **Yn ofynnol ar ethol yn Gadeirydd / Is-Gadeirydd ac yna pob dwy flynedd os ail-etholir.**

- **Yr Hyfforddiant perthnasol ar gyfer aelod o Bwyllgor penodol, yn cynnwys:**
  - **Pwyllgor Cynllunio**
  - **Pwyllgor Trwyddedu**
  - **Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant**
  - **Pwyllgor Apwyntio**

**Mae gofyn i Aelodau gwblhau ac ail-adrodd yr hyfforddiant mandadol gofynnol yn unol â'r manylion â gyhoeddir gan y Cyngor.**

DRAFT

**Camau a gymerwyd gan yr Arweinydd Grŵp i hybu cydymffurfiaeth â'r Cod Ymddygiad:**

Dylid cwblhau'r rhan yma o'r adroddiad yn eich geiriau eich hun.

**Nid oes angen cynnwys yr holl wybodaeth a sonir amdano isod**. Mae'r materion sy'n dilyn wedi eu cynnwys fel esiamplau o'r math o wybodaeth y gellid ystyried ei gynnwys fel rhan o'ch ymateb.

Ymrwymiad personol:

- Wedi dangos ymrwymiad personol i ddatblygu drwy fynychu hyfforddiant perthnasol mewn perthynas â chydraddoldeb a safonau;
- Wedi gosod esiampl drwy ddangos egwyddorion ymddygiad mewn bywyd cyhoeddus;
- Wedi defnyddio eich dylanwad i hybu diwylliant cadarnhaol;
- Wedi hybu diwylliant sy'n cefnogi safonau ymddygiad uchel ac uniondeb o fewn y grŵp;
- Wedi delio â phroblemau yn syth;
- Wedi hybu cwrteisi a pharch wrth gyfathrebu â'r grŵp ac yn ystod cyfarfodydd o'r grŵp ac yn ystod cyfarfodydd ffurfiol o'r cyngor;
- Wedi gweithio er mwyn gweithredu unrhyw argymhellion gan y Pwyllgor Safonau ynghylch gwella safonau;

Annog aelodau'r grŵp:

- wedi annog aelodau'r grŵp i ddatblygu a mynychu hyfforddiant perthnasol mewn perthynas â chydraddoldeb a safonau;
- wedi sicrhau bod y rhai a enwebir i bwyllgorau wedi derbyn yr hyfforddiant a argymhellir ar gyfer y pwyllgor hwnnw;

Cydweithio gydag eraill:

- wedi hybu datrysiadau anffurfiol yn y cyngor, a gweithio gyda'r pwyllgor safonau a swyddog monitro i ddatrys materion yn lleol;
- wedi mynychu cyfarfod o bwyllgor safonau'r cyngor ar gais i drafod materion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad;
- wedi mynychu cyfarfodydd gyda'r Swyddog Monitro a/neu Arweinyddion Grŵp eraill i drafod materion yn ymwneud ag ymddygiad yn ôl y galw;
- wedi gweithio gyda'r Arweinyddion Grwpiau eraill o fewn rheswm, i gefnogi cynnal safonau ymddygiad uchel ar y cyd o fewn y cyngor.

DRAFT


Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

## **10 Egwyddor Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus statudol yng Nghymru**

- Bod yn anhunanol
- Gonestrwydd
- Uniondeb a Phriodoldeb
- Dyletswydd i hybu'r gyfraith
- Gwarchod
- Gwrthrychedd wrth wneud Penderfyniadau
- Cydradoldeb a pharch
- Bod yn Agored
- Atebolrwydd
- Arwain

DRAFFT


Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

| CYNGOR SIR YNYS MON / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **14 Mehefin 2023** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar yr Adroddiad Penn** |
| **DIEBN YR ADRODDIAD:** | **I'r Pwyllgor Safonau gytuno ar ei ymatebion i'r ymgynghoriad uchod** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Cyfreithiwr – Llywodraethu Corfforaethol**<br>**mwycs@ynysmon.llyw.cymru** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.llyw.cymru**<br>**01248 752586** |

## 1. CEFNDIR

1.1 Ym mis Mawrth 2021, comisiynodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ar y pryd adolygiad annibynnol ar y fframwaith safonau moesegol ar gyfer llywodraethau lleol yng Nghymru, a gafodd ei sefydlu drwy Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Mae'r Fframwaith yn cynnwys cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, cydbwyllgorau corfforaethol, awdurdodau parciau cenedlaethol, awdurdodau tân ac achub a chynghorau tref a chymuned.

1.2 Roedd yr amser yn briodol gan fod modd ystyried y newidiadau a oedd yn cael eu cyflwyno, a bu i hynny effeithio ar y Fframwaith, dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

1.3 Cwblhawyd yr adolygiad gan Richard Penn, cyn Brif Weithredwr awdurdod lleol, a chyn-gadeirydd Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

1.4 Cafodd yr adolygiad ei gyhoeddi pedwar mis yn ddiweddarach, ym mis Gorffennaf 2021, ac roedd yn crynhoi fod y Fframwaith yn 'addas at ei diben' a'i fod yn gweithio'n dda ar waith. Gwnaed sawl argymhelliad. Gellir gweld copi llawn o "Adolygiad Annibynnol o'r Fframwaith Safonau Moesegol yng Nghymru" gan Richard Penn (Ymgynghorydd annibynnol) yma.

## 2. YMGYNGHORIAD PRESENNOL

2.1 Gellir gweld copi o ddogfen ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y cwestiynau a ofynnwyd, yma.

2.2 Yn ei ymgynghoriad, mae Llywodraeth Cymru'n nodi ei fod wedi ymgysylltu gyda sawl trydydd parti ers cyhoeddi'r Adolygiad Penn, ac mae'n egluro fod papur yr ymgynghoriad presennol yn "adeiladu ar argymhellion yr Adolygiad gan roi ystyriaeth i'r trafodaethau a chyfathrebiadau eraill".

2.3 O’r 12 argymhelliad a nodwyd yn Adolygiad Penn, mae 3 yn destun cwestiynau penodol o fewn dogfen yr ymgynghoriad. Nid yw’r 9 argymhelliad arall a wnaed yn yr Adolygiad Penn yn destun trafodaeth/ystyriaeth pellach.

2.4 Mae dogfen yr ymgynghoriad yn cynnwys cyfanswm o 21 cwestiwn.

2.5 Rhaid cyflwyno ymatebion i’r ymgynghoriad i Lywodraeth Cymru erbyn 23 Mehefin 2023.

## 3. Y BROSES A DDILYNWYD GAN CSYM

3.1 Bu i’r Pwyllgor Safonau gwrdd yn anffurfiol ar 12 Mai i drafod dogfen yr ymgynghoriad.

3.2 Oherwydd natur aneglur y ddogfen ymgynghorol, rhannwyd dogfen ychwanegol gyda’r Pwyllgor Safonau oedd yn gosod holl gwestiynnau’r ymgynghoriad gyda’r naratif perthnasol o’r amrywiol rannau o’r ddogfen ymgynghorol. Gweler copi o’r ddogfen yn atodol yn **Atodiad 1.**

3.3 Nodwyd ymatebion y Pwyllgor i gwestiynnau’r ymgynghoriad, a chawsant eu cynnwys mewn ymateb drafft. Mae hwn yn atodol yn **Atodiad 2.**

3.4 Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau’n cyfarfod gydag Arweinyddion Grwpiau ar 8 Mehefin er mwyn trafod ymateb y Pwyllgor Safonau i’r ymgynghoriad. Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau’n cyflwyno diweddariad ar lafar o’r cyfarfod hwnnw yng nghyfarfod y Pwyllgor Safonau ar 14 Mehefin 2023, cyn y cytunir ar ar ymateb terfynol a’i anfon at Lywodraeth Cymru.

## 4. CAMAU ARFAETHEDIG

4.1 Ceisio cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Safonau ar yr ymateb drafft yn **Atodiad 2**, yn dibynnu ar unrhyw newidiadau y cytunwyd arnynt yn dilyn y cyfarfod gyda’r Arweinyddion Grwpiau.

4.2 Bydd y ffurflen ymateb yn cael ei hanfon gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau, ar ran Cyngor Sir Ynys Môn, at Lywodraeth Cymru cyn y dyddiad cau sef 23 Mehefin 2023.

4.3 Bydd y Swyddog Monitro’n hysbysu’r Pwyllgor Safonau o unrhyw ddogfennaeth neu wybodaeth â dderbynnir gan Lywodraeth Cymru yn ei ymgynghoriad ar Adolygiad Penn.

## 5. ARGYMHELLIAD

5.1 I’r Pwyllgor Safonau gytuno â’r Cam Arfaethedig a nodwyd dan adran 4 uchod.

# Ymgynghoriad ar Argymhellion yr Adolygiad Annibynnol o'r Fframwaith Safonau Moesegol (adroddiad Richard Penn)

**Cwestiwn 1**
Ydych chi'n cytuno y dylid diwygio'r rheoliadau perthnasol sy'n ymwneud â'r Fframwaith Safonau Moesegol i gyd-fynd â'r diffiniadau sy'n ymwneud â nodweddion gwarchodedig yn Neddf Cydraddoldeb 2010 ac y dylem ddiwygio'r diffiniad o gydraddoldeb a pharch yn adran 7 o Orchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001?

**Naratif Perthnasol**

**Argymhelliad 4 (Penn)**
Nid yw Paragraff 4a o'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i aelod: 'cyflawni eich dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau gan roi sylw dyladwy i'r egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i bawb, waeth beth fo'u rhyw, eu hil, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hoed neu eu crefydd' yn cynnwys yr holl nodweddion gwarchodedig.

Dylai'r ddarpariaeth yn y Cod gael ei hymestyn i gynnwys pob un o'r naw nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

**Ystyried Argymhelliad 4 (LlC)**
Mae Adran 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ('Deddf 2010') yn darparu ar gyfer y nodweddion gwarchodedig canlynol:

- oedran
- anabledd
- ailbennu rhywedd
- priodas a phartneriaeth sifil
- beichiogrwydd a mamolaeth
- hil
- crefydd neu gred
- rhyw
- cyfeiriadedd rhywiol

Cafodd y Cod Enghreifftiol ei ddrafftio cyn bodolaeth y darpariaethau hyn ac, er bod yr egwyddorion sydd wedi'u nodi yn y Cod Enghreifftiol yn gydnaws ag ysbryd Deddf 2010, cadarnhaodd trafodaethau gyda rhanddeiliaid y byddai cysoni'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol â'r nodweddion gwarchodedig yn Neddf 2010 nid yn unig yn rhoi eglurder ond hefyd, yn bwysig iawn, yn anfon neges gref bod disgwyl i gynghorwyr hyrwyddo a chynnal y safonau ymddygiad uchaf.

Rydym felly'n cynnig diwygio'r diffiniad ym mharagraff 4a o'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol (Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008) i gyd-fynd â'r diffiniad o nodweddion gwarchodedig yn adran 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Byddwn hefyd yn diwygio'r diffiniad o gydraddoldeb a pharch yn adran 7 o Orchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001.

**Cwestiwn 2**
A ddylai Panel Dyfarnu Cymru (y Panel) allu rhoi Gorchmynion Adrodd Cyfyngedig?

**Naratif Perthnasol**

**Gorchmynion Adrodd Cyfyngedig**
Ni all y Panel reoli'r broses o adrodd am unrhyw achos gan y wasg. Mae Llywydd y Panel o'r farn y byddai'r pwerau fel y rhai sydd ar gael i Dribiwnlys Cyflogaeth, i osod Gorchymyn Adrodd Cyfyngedig naill ai hyd ddiwedd achos neu Orchymyn Adrodd Cyfyngedig estynedig, yn briodol i bob un o Dribiwnlysoedd Panel Dyfarnu Cymru lle mae tegwch y tribiwnlys neu ddiogelwch tystion, aelodau panel neu staff o bosibl yn cael ei danseilio.

Felly, rydym yn gofyn am eich barn ynghylch a ddylem wneud darpariaeth ddeddfwriaethol i alluogi'r Panel i gyhoeddi gorchmynion adrodd cyfyngedig.

**Cwestiwn 3**
A ddylid cael darpariaeth gyfreithiol benodol i alluogi'r Panel i sicrhau bod tystion yn aros yn ddienw?

**Naratif Perthnasol**

**Anhysbysrwydd tystion**
Gall y Llywydd gyhoeddi canllawiau i sicrhau cysondeb a thryloywder, ond mae'r Panel o'r farn y byddai pŵer penodol i fod yn ddienw, a ddefnyddir yn gymesur i sicrhau diogelwch tystion, yn briodol ar gyfer tribiwnlysoedd achos ac apêl.

Felly, rydym yn gofyn am eich barn ynghylch a ddylid cael darpariaeth gyfreithiol benodol ar gyfer y Panel er mwyn sicrhau bod tystion yn aros yn ddienw.

**Cwestiwn 4**
Ydych chi'n cefnogi'r newidiadau arfaethedig i'r weithdrefn caniatâd i apelio a amlinellir yn yr argymhelliad hwn? Os nad ydych, pa opsiynau eraill fyddech chi'n eu hawgrymu?

**Cwestiwn 7**
Ydych chi'n cytuno y dylid cael darpariaeth benodol i alluogi cynnal rhan neu'r cyfan o wrandawiadau tribiwnlys yn breifat?

**Cwestiwn 8**
Ydych chi'n cytuno y dylid cadw'r gofyniad i roi dim llai na saith niwrnod o rybudd o ohirio gwrandawiad?

**Naratif Perthnasol**
Mae Llywydd y Panel o'r farn bod y rheoliadau wedi dyddio ac mae wedi cynnig nifer o ddiwygiadau i wneud gweithdrefn y tribiwnlys achosion yn fwy effeithlon a thecach i dystion.

Mae'r cynigion hyn yn ymwneud â'r canlynol:

- darparu darpariaeth ddatganedig ar gyfer gwrandawiadau preifat rhannol gyhoeddus a rhannol breifat
- a ddylid ailystyried y gofyniad i ddarparu saith niwrnod o rybudd o ohirio gwrandawiad i'r aelod a gyhuddir
- y broses ar gyfer ceisio caniatâd i apelio

Mae'r broses bresennol ar gyfer ceisio caniatâd i apelio wedi'i nodi yn Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001, fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Dirymiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygio) 2016.

Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r Llywydd, neu ei enwebai, wneud penderfyniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn cais i apelio. Os bydd y Llywydd yn gofyn am ragor o wybodaeth, mae gan yr ymgeisydd 14 diwrnod i ymateb, ac yna mae gan y Llywydd 14 diwrnod o dderbyn yr wybodaeth bellach i wneud penderfyniad. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd gwahanol ddeongliadau o effaith cais am wybodaeth ychwanegol ar yr amserlen gan nad yw'n glir o bosibl a yw'r 'cloc' ar y 21 diwrnod yn dod i ben tra bo'r wybodaeth ychwanegol yn cael ei cheisio.

Ar ben hynny, nid yw'r rheoliadau'n rhoi cyfle i'r Ombwdsmon gyflwyno sylwadau a chynnal gwrandawiad rhagarweiniol i benderfynu a yw caniatâd i apelio yn bosibl os oes 'amgylchiadau arbennig', ond nid oes estyniad yn yr amser y darperir ar ei gyfer yn y rheoliadau i ganiatáu ar gyfer hyn.

Felly, mae'r Llywydd wedi cynnig dull gwahanol fel a ganlyn:

- cynghorydd yn anfon apêl; ni phennir dyddiad cau ar gyfer penderfyniad gan Banel Dyfarnu Cymru
- y Llywydd/y Cofrestrydd yn gwirio bod yr apêl wedi amgáu penderfyniad y Pwyllgor Safonau ac os nad yw, mae'n rhoi 7 diwrnod i'r cynghorydd ei darparu (ac mae ganddo'r pŵer i ofyn i'r swyddog monitro a yw'n dymuno gwneud hynny am y penderfyniad ac unrhyw wybodaeth arall)
- yr apêl yn cael ei hanfon at yr Ombwdsmon sy'n cael 14 diwrnod i roi sylwadau;
- yr apêl, penderfyniad y pwyllgor safonau ac unrhyw sylwadau gan yr Ombwdsmon yn cael eu rhoi gerbron y Llywydd (neu ei enwebai) ar gyfer penderfyniad ar y papurau; unwaith eto, ni fyddai dyddiad cau yn cael ei bennu ar gyfer penderfyniad;
- gall y Llywydd neu ei enwebai gyfarwyddo bod gwrandawiad rhagarweiniol yn cael ei gynnal os ydynt o'r farn ei bod er 'budd cyfiawnder' i wneud hynny yn hytrach nag 'amgylchiadau arbennig'

Byddem yn croesawu eich barn am y newidiadau arfaethedig hyn i'r weithdrefn caniatâd i apelio. Yn yr un modd, ynghylch a ddylid cael darpariaeth benodol i alluogi cynnal rhan neu'r holl wrandawiad yn breifat, a hefyd a ddylid cadw'r gofyniad i ddarparu dim llai na saith niwrnod o rybudd o ohirio gwrandawiad.

**Cwestiwn 5**
A ddylid cael pŵer penodol i'r Panel alw tystion i dribiwnlysoedd apêl?

**Cwestiwn 6**
A ddylid gwneud unrhyw newidiadau i'r drefn ar gyfer cyfeirio penderfyniadau apeliadau yn ôl i bwyllgorau safonau?

**Naratif Perthnasol**

**Trefn y Tribiwnlys Apêl**
Mae Llywydd y Panel Dyfarnu yn credu y dylid gwneud diwygiadau i drefn y Tribiwnlys

Apêl i gynnwys pŵer datganedig i alw tystion i Dribiwnlys Apêl.

Hefyd, mae rheoliad 9(2) o Reoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001 ("Rheoliadau 2001") yn ei gwneud yn ofynnol i'r pwyllgor safonau ystyried argymhelliad o benderfyniad Panel Dyfarnu Cymru y dylid rhoi cosb wahanol i'r penderfyniad gwreiddiol. Nid yw rhai rhanddeiliaid yn cefnogi'r broses hon er bod Llywydd y Panel yn ei gefnogi gan fod y pwyllgor safonau yn parhau i fod yn gyfrifol ac y gall adlewyrchu ei ymateb i benderfyniad y Panel yn y sancsiwn y mae'n penderfynu ei osod.

Mae'r trefniadau presennol mewn perthynas ag apeliadau wedi'u nodi yn Rheoliadau 2001 ac mewn Canllawiau Llywyddol. Hefyd, ceir Cyfarwyddyd Ymarfer gan Banel Dyfarnu Cymru sy'n nodi gwybodaeth berthnasol am weithdrefnau'r Panel mewn ymateb i gyfeiriad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae'r Canllawiau a'r Cyfarwyddiadau Ymarfer ar gael ar wefan y Panel, drwy ddilyn y ddolen hon Panel Dyfarnu Cymru. Gweler hefyd Ganllawiau a Chyfarwyddiadau Llywyddol y Panel yma Dogfennau Ymarfer.

**Cwestiwn 9**
A ddylai ystod ehangach o sancsiynau fod ar gael i'r Panel, ac os felly, beth ddylai'r sancsiynau fod?

**Naratif Perthnasol**

**Pwerau dedfrydu**
Mae'r pwerau sydd ar gael i Banel Dyfarnu Cymru yn gyfyngedig ac roedd rhai rhanddeiliaid yn teimlo y dylid cael opsiwn i osod sancsiynau mwy amrywiol yn yr un modd â chyn-Banel Dyfarnu Lloegr.

Pan fo tribiwnlys achos yn penderfynu bod aelod wedi methu cydymffurfio â'r cod ymddygiad, nodir y sancsiynau y caiff eu gosod yn adran 79 o Ddeddf 2000.

Caiff y tribiwnlys atal aelod dros dro am gyfnod o hyd at ddeuddeng mis neu ei wahardd am gyfnod o hyd at 5 mlynedd.

Mae gennym ddiddordeb yn eich barn ynghylch a ddylai ystod ehangach o sancsiynau fod ar gael i'r Panel ac os felly, beth ddylai'r rhain fod?

**Cwestiwn 10a**
Ydych chi o blad y diwygiadau arfaethedig i'r broses ar gyfer tribiwnlysoedd achos interim a amlinellir yn yr argymhelliad hwn? Os nad ydych, esboniwch pam.

**Cwestiwn 10b**
Os ydych chi o blaid y newidiadau i'r broses ar gyfer tribiwnlysoedd achos interim, ydych chi'n cytuno y dylid sefydlu trefniant canolradd, h.y. drwy fyrhau a symleiddio'r broses ar gyfer tribiwnlysoedd achos interim yn Rheoliadau Dyfarniadau gan Dribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim (Cymru) 2001? Os ydych chi, oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ynghylch sut y gellid symleiddio'r broses hon o fewn y rheoliadau?

**Naratif Perthnasol**

**Tribiwnlysoedd Achosion Interim**
Mae gan yr Ombwdsmon y pŵer i wneud atgyfeiriadau interim i'r Panel os yw er budd y cyhoedd ac os oes tystiolaeth prima facie fod yr unigolyn wedi methu cydymffurfio â'r cod ymddygiad, y mae ei natur yn debygol o arwain at anghymwyso.

Mae rhanddeiliaid o'r farn bod y trothwy ar gyfer bodloni'r gofynion deddfwriaethol ar gyfer atgyfeiriad interim yn rhy uchel, ond byddai unrhyw newid i'r pwerau hyn yn galw am ddeddfwriaeth sylfaenol gan Lywodraeth Cymru.

Y cynnig yw y dylid symleiddio'r broses gyfan drwy gymhwyso prawf tebyg i'r un a ddefnyddir gan y Tribiwnlysoedd Rheoleiddio megis y Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol. Byddai hwn yn ddiwygiad cymharol fach i'r prawf budd y cyhoedd presennol ond byddai'n gwneud y dull gweithredu i'w fabwysiadu a'r diffiniad o fudd y cyhoedd yn llawer cliriach. Byddai angen deddfwriaeth newydd gan Lywodraeth Cymru.

Hyd yma, ni fu unrhyw dribiwnlysoedd dros dro. Mae rhanddeiliaid wedi awgrymu mai'r rheswm pennaf am hyn yw bod y broses yr un fath ag ar gyfer tribiwnlys achos llawn. Felly ceir tybiaeth fod Rheoliadau Dyfarniadau gan Dribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim (Cymru) 2001 yn rhwystr i'w diben bwriedig.

Mae adrannau 76, 77 a 78 o Ddeddf 2000 yn nodi aelodaeth tribiwnlysoedd interim, gallu'r person sy'n destun y dyfarniad i gael cynrychiolaeth briodol a'r sancsiwn y caiff tribiwnlys interim ei roi (uchafswm o ataliad unwaith-ac-am-byth, chwe-mis neu ataliad rhannol).

Felly, mae'n ymddangos nad yw'r broses a nodir ar hyn o bryd yn addas at y diben o gydbwyso, a pheidio â rhagfarnu, mynediad aelod etholedig at gyfiawnder mewn tribiwnlys achos, a budd y cyhoedd.

Felly, awgrymwyd bod y broses yn cael ei symleiddio drwy ddefnyddio prawf tebyg i'r un a ddefnyddir gan Dribiwnlysoedd Rheoleiddio megis y Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol. Byddai'r tribiwnlys achos interim yn bwrw ymlaen ag aelod cyfreithiol yn eistedd ar ei ben ei hun, ac yn ystyried y cais ar sail y papurau'n unig, ond gyda'r gallu i wahodd sylwadau llafar gan y partïon pe bai'r aelod o'r farn bod hynny er budd cyfiawnder.

Fel nawr, byddai'r broses hefyd yn galluogi'r Ombwdsmon i gyflwyno cyfeiriad at Lywydd y Panel gydag adroddiad yn nodi'r cefndir a pham y ceisiwyd ataliad dros dro.

Ar y mwyaf, dim ond gwaharddiad o chwe mis (rhannol neu lawn) fyddai'n bosibl a gellid ei adnewyddu hyd at gyfanswm o hyd at dair gwaith (18 mis i gyd). Byddai'r aelod a gyhuddir yn cael cyfle i gyflwyno pam na ddylid gwneud yr ataliad dros dro, ond ni fyddai tystiolaeth yn cael ei galw a byddai adroddiad yr Ombwdsmon yn cael ei ystyried yn ei rinwedd ei hun, yn yr un modd ag adroddiad y Cyngor Meddygol Cyffredinol yn y Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol.

Dyma ddull posibl o ymdrin â'r prawf budd y cyhoedd. Byddai'n briodol gwahardd neu wahardd aelod yn rhannol os yw'n ymddangos i'r tribiwnlys achos interim:

- y byddai tribiwnlys achos mewn gwrandawiad terfynol yn debygol o ddyfarnu bod methiant wedi bod i gydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod perthnasol dan sylw

- a bod natur y methiant hwnnw yn golygu ei fod yn debygol o arwain at anghymhwyso o dan adran 79(4)(b) o Ddeddf 2000

- a'i bod er budd y cyhoedd i atal neu atal yn rhannol yr aelod a gyhuddir ar unwaith er mwyn diogelu aelodau o'r cyhoedd, cynnal ffydd y cyhoedd mewn llywodraeth leol, cynnal safonau ymddygiad priodol, neu alluogi ymchwiliad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gael ei gwblhau

Er mwyn cyflawni'r newid hwn yn llawn, byddai angen diwygio Deddf 2000 a Rheoliadau Dyfarniadau gan Dribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim (Cymru) 2001.

Felly, rydym yn gofyn am eich barn am y cynnig hwn a cham canolradd posibl i ddiwygio'r rheoliadau dim ond i symleiddio'r broses ar gyfer tribiwnlysoedd achos interim tan y cyfryw amser, os cefnogir y cynnig, y gellir newid y ddeddfwriaeth sylfaenol. Gallai diwygio'r rheoliadau gynnwys atodlen newydd yn benodol ar gyfer proses fyrrach, symlach ar gyfer tribiwnlysoedd dros dro.

**Cwestiwn 11**
Oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach ar yr argymhellion a wnaethpwyd yng nghyswllt gweithrediad y Panel?

**Naratif Perthnasol**
Gweler y naratif uchod mewn perthynas â phob cwestiwn ac eithrio cwestiwn 1

**Cwestiwn 12**
Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ynghylch sut y gellid bwrw ymlaen â gwaith i godi ymwybyddiaeth o'r Fframwaith Safonau Moesegol, yn enwedig ar gyfer pobl â nodweddion gwarchodedig fel y'u disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010?

**Naratif Perthnasol**

**Argymhelliad 12 (Penn)**
Hygyrchedd y fframwaith safonau moesegol Gwneud y broses fframwaith yn fwy hygyrch i'r cyhoedd.

**Ystyried Argymhelliad 12 (LlC)**
Rydym yn cytuno â'r adolygiad bod hyder y cyhoedd yn y Fframwaith yn hanfodol i'n democratiaeth leol. Un o'r camau i sicrhau hyder yw bod y broses yn hygyrch ac yn cael ei defnyddio'n gyson ledled Cymru. Byddwn felly'n gweithio gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Un Llais Cymru a swyddogion monitro i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r Fframwaith a'r hyn y gall y cyhoedd ei ddisgwyl os byddant yn ei ddefnyddio.

Byddem yn croesawu unrhyw farn ynghylch sut y gellid mynd ati i godi ymwybyddiaeth er mwyn cynnwys pawb ledled Cymru.

**Cwestiwn 13**
Hysbysebu am aelodau annibynnol o bwyllgorau safonau: Ydych chi'n cytuno y dylid dileu'r gofyniad i hysbysebu swyddi gwag ar gyfer aelodau annibynnol ar bwyllgorau safonau mewn papurau newydd?

**Naratif Perthnasol**

**Hysbysebu am Aelodau Annibynnol o Bwyllgorau Safonau**
Mae'r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol bod hysbysebion ar gyfer swyddi gwag ar gyfer aelodau annibynnol o bwyllgorau safonau yn cael eu rhoi mewn papurau newydd lleol. Mae rhai rhanddeiliaid wedi dweud wrthym nad yw hyn yn creu maes o ymgeiswyr a'i fod yn gostus ac yn cymryd llawer o amser. Maent wedi awgrymu bod dulliau eraill o hysbysebu ac estyn allan drwy rwydweithiau cynghorau yn creu maes mwy ac yn cyrraedd ymgeiswyr o gefndiroedd mwy amrywiol. (Gweler rheoliad 13 o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001).

Felly, rydym yn gofyn am farn ynghylch a ddylid dileu'r gofyniad i hysbysebu swyddi gwag ar gyfer aelodau annibynnol ar bwyllgorau safonau mewn papurau newydd.

**Cwestiwn 14a**
Cyn-weithwyr cyngor yn eistedd fel aelodau annibynnol o bwyllgorau Safonau: Ydych chi'n cytuno y dylid dileu'r gwaharddiad gydol oes ar gyn-weithwyr cyngor rhag bod yn aelodau annibynnol o bwyllgor safonau eu cyflogwr blaenorol?

**Cwestiwn 14b**
Os ydych chi, beth, yn eich barn chi, fyddai'n gyfnod gras addas rhwng cyflogaeth a phenodi i bwyllgor safonau, ac a ddylai hyn fod yr un fath ar gyfer holl weithwyr cynghorau, neu'n hirach ar gyfer y rheini a oedd gynt mewn Swyddi â chyfyngiadau statudol neu wleidyddol?

**Naratif perthnasol**

**Cyn-weithwyr cyngor yn eistedd fel aelodau annibynnol ar Bwyllgorau Safonau**
Ar ôl cyfnod gras o ddeuddeg mis, gall cyn-weithwyr cyngor eistedd fel aelodau annibynnol ar bwyllgorau safonau cynghorau os nad oedd y cyngor hwnnw'n un o'u cyn-gyflogwyr, ond nid ar bwyllgor safonau'r cyngor a fu'n eu cyflogi, hyd yn oed os nad y cyngor hwnnw oedd eu cyflogwr diweddaraf.

Mae hyn yn golygu na all pob cyn-gyflogai, gan gynnwys y rheini a allai fod wedi gweithio'n rhan-amser i'r cyngor, efallai pan oeddent yn fyfyrwyr neu'n gynnar yn eu gyrfaoedd, eistedd fel aelodau annibynnol ar bwyllgor safonau'r un cyngor.

Mae rhanddeiliaid wedi awgrymu bod hyn yn anghymesur ac yn eithrio nifer fawr o ymgeiswyr o ansawdd uchel posibl rhag cyflwyno'u hunain fel aelodau neu gadeiryddion annibynnol. (Gweler rheoliad 7 o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001).

Felly, rydym yn ceisio barn ynghylch a ddylid dileu'r gwaharddiad gydol oes ar gyn-weithwyr cyngor rhag bod yn aelodau annibynnol o bwyllgor safonau eu cyn-gyflogwr.

Os felly, beth fyddai'n hyd addas ar gyfer cyfnod gras rhwng cyflogaeth a phenodi i bwyllgor safonau ac a ddylai hyn fod yr un fath ar gyfer holl weithwyr cynghorau, neu'n hirach ar gyfer y rheini a oedd mewn swyddi dan gyfyngiadau statudol neu wleidyddol yn y gorffennol fel y'u diffinnir yn Neddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, er enghraifft y Prif Weithredwr, y Prif Swyddog Cyllid, y Swyddog Monitro a'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd?

**Cwestiwn 15**
Cyn-gynghorwyr yn eistedd fel aelodau annibynnol o bwyllgorau safonau: Ydych chi'n cytuno y dylid dileu'r gwaharddiad gydol oes ar wasanaethu fel aelod annibynnol ar bwyllgor safonau'r cyngor y cafodd cynghorydd ei ethol iddo? Os ydych chi, beth fyddai'n gyfnod gras addas yn eich barn chi?

**Naratif Perthnasol**

**Cyn-gynghorwyr yn eistedd fel aelodau annibynnol ar Bwyllgorau Safonau**
Hefyd, ar ôl cyfnod gras o ddeuddeg mis, gall cyn-gynghorwyr eistedd fel aelodau annibynnol ar bwyllgorau safonau cynghorau na chawsant eu hethol iddynt.

Fodd bynnag, mae gwaharddiad gydol oes arnynt rhag gwasanaethu fel aelodau annibynnol ar bwyllgor safonau'r cyngor y cawsant eu hethol iddo. (Gweler rheoliad 6 o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001).

Erbyn hyn, nid oes cyfnod gras i gynghorwyr sy'n cael eu cyflogi gan y cyngor y cawsant eu hethol iddo'n ffurfiol ac felly rydym hefyd yn ceisio barn ynghylch a ddylid dileu'r gwaharddiad gydol oes ar wasanaethu fel aelod annibynnol ar bwyllgor safonau'r cyngor y cafodd cynghorydd ei ethol iddo.

Os ydych chi'n meddwl y dylai fod cyfnod gras, beth fyddai'n gyfnod addas yn eich barn chi?

**Cwestiwn 16**
Pwyllgorau safonau galw tystion a sancsiynau: A ddylai pwyllgorau safonau gael y pŵer i alw tystion?

**Cwestiwn 17**
Ydych chi'n cytuno y dylid newid neu ychwanegu at y sancsiynau y gall Pwyllgor safonau eu gosod?

**Naratif Perthnasol**

**Pwyllgorau Safonau Galw Tystion a Sancsiynau**
Rôl y pwyllgor safonau yw ystyried adroddiad ac argymhellion gan swyddog monitro neu adroddiad gan yr Ombwdsmon ac, ar ôl clywed sylwadau gan y person yr ymchwilir iddo neu ar ei ran, penderfynu a dorrwyd cod ymddygiad yr awdurdod ai peidio ac, os felly, penderfynu ar y sancsiwn. Gall y Pwyllgor safonau hefyd ofyn i'r swyddog monitro neu'r Ombwdsmon ddod ger ei fron er mwyn, ymhlith pethau eraill, esbonio eu hadroddiad. Darperir ar gyfer hyn yn Rheoliad 8(3A) o'r Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol.

Fodd bynnag, nid oes gan bwyllgorau safonau y pŵer o dan naill ai Reoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001 na Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 i alw tystion. Mae yna farn, pe bai'r pwyllgor safonau yn cael y pŵer i alw tystion, y gellir ystyried ei fod yn tresmasu ar rôl yr ymchwilwyr, h.y. y swyddog monitro a'r Ombwdsmon a bod ei rôl fel penderfynwr yn cael ei chymylu.

Mae rhai rhanddeiliaid hefyd wedi awgrymu bod y sancsiynau presennol sydd ar gael i

| |
|---|
| bwyllgorau safonau yn Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001 yn rhy anhyblyg a/neu ddim yn rhwystr digon cryf. Mae'r sancsiynau presennol yn galluogi pwyllgor safonau i geryddu, atal dros dro neu atal aelod yn rhannol am gyfnod o hyd at 6 mis. |
| **Cwestiwn 18**<br>Pa effeithiau y byddai'n eu cael yn eich barn chi?<br><br>**Cwestiwn 19**<br>Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol a lliniaru'r effeithiau negyddol?<br><br>**Cwestiwn 20**<br>Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gallai'r diwygiadau arfaethedig gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. |
| **Naratif perthnasol**<br>Dim |
| **Cwestiwn 21**<br>Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud ar y materion a godwyd yn yr ymgynghoriad hwn, gan gynnwys ar yr argymhellion hynny yn yr Adroddiad nad oes cwestiwn penodol wedi'i gynnig ynglŷn â hwy? |
| **Naratif perthnasol**<br>Dim |

**Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad**: **WG47012**

Eich enw: John R Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau

Sefydliad (os yw'n berthnasol): Cyngor Sir Ynys Môn / Isle of Anglesey County Council

E-bost/rhif ffôn: JohnJones@ynysmon.llyw.cymru

Eich cyfeiriad: Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn LL77 7TW

**Cwestiynau'r Ymgynghoriad**

Nid ydym yn gofyn am ymatebion penodol ar yr holl argymhellion. O ystyried y trafodaethau a gynhaliwyd gyda rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol, mae ymatebion Gweinidogion Cymru i'r argymhellion yn cynnwys nifer o awgrymiadau ar gyfer newid deddfwriaethol; yn tynnu sylw at rai camau yr aethpwyd i'r afael â hwy ers cyhoeddi'r Adroddiad heb fod angen deddfwriaeth; rhai awgrymiadau ynghylch camau gweithredu heb fod angen deddfwriaeth, ac awgrymiadau pellach ar gyfer gwelliannau, sydd wedi'u nodi mewn trafodaethau â rhanddeiliaid ers cyhoeddi'r Adroddiad.

Fodd bynnag, mae cwestiwn cyffredinol ar ddiwedd y cwestiynau ymgynghori lle gallwch ychwanegu eich sylwadau ar yr argymhellion nad oes cwestiwn penodol ar eu cyfer isod, neu os ydych am wneud unrhyw sylwadau eraill ar y ddogfen ymgynghori.

**Argymhelliad 4** (heading to the page)

C1. Ydych chi'n cytuno y dylid diwygio'r rheoliadau perthnasol sy'n ymwneud â'r Fframwaith Safonau Moesegol i gyd-fynd â'r diffiniadau sy'n ymwneud â nodweddion gwarchodedig yn Neddf Cydraddoldeb 2010 ac y dylem ddiwygio'r diffiniad o gydraddoldeb a pharch yn adran 7 o Orchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001?

Cytuno

**Sylwadau**: Mae hyn yn rhesymol; mae hefyd yn sicrhau dull cyson ledled Cymru.

**Argymhelliad 10**

C2. A ddylai Panel Dyfarnu Cymru (y Panel) allu rhoi Gorchmynion Adrodd Cyfyngedig?

Cytuno

**Sylwadau**: Rydym yn cytuno y dylai'r Panel Dyfarnu allu rhoi Gorchmynion Adrodd Cyfyngedig yn ystod gwrandawiad, a'r gweithdrefnau cysylltiedig.

Fodd bynnag, yn dilyn cyhoeddi penderfyniad Panel Dyfarnu Cymru mewn achos, byddem yn argymell fod y Gorchmynion Adrodd Cyfyngedig yn cael eu gwneud dim ond mewn amgylchiadau penodol ac eithriadol.

Rydym yn gwahaniaethu gwrandawiadau Panel Dyfarnu Cymru oddi wrth Tribiwnlysoedd Cyflogaeth (fel y cyfeiriwyd yn yr Ymgynghoriad). O ran materion

cyflogaeth, mae'r broblem fel arfer rhwng partïon penodol, mewn achosion Panel Dyfarnu Cymru, mae elfen gref o ddiddordeb cyhoeddus yn yr achosion gan eu bod yn berthnasol i'r rheiny sy'n dal swydd gyhoeddus mewn capasiti cynrychiadol.

Mae'n rhaid i hawl Panel Dyfarnu Cymru i gyhoeddi Gorchmynion Adrodd Cyfyngedig weithio gyda'r egwyddorion fod achosion sy'n cynnwys cynghorwyr (a all arwain at ddiarddel cynghorwyr o ddal swydd gyhoeddus) angen y lefel uchaf bosibl o gywirdeb.

C3. A ddylid cael darpariaeth gyfreithiol benodol i alluogi'r Panel i sicrhau bod tystion yn aros yn ddienw?

Cytuno

**Sylwadau**: Dim sylw pellach.

C4. Ydych chi'n cefnogi'r newidiadau arfaethedig i'r weithdrefn caniatâd i apelio a amlinellir yn yr argymhelliad hwn? Os nad ydych, pa opsiynau eraill fyddech chi'n eu hawgrymu?

Ydw

**Sylwadau**: Rydym yn cefnogi newid, ond:-

(A) Mae angen eglurder mewn perthynas â diffiniad "diwrnodau". A yw hyn yn gweithio?

(B) Nid yw 7 diwrnod (boed yn ddiwrnodau gwaith neu beidio) yn amser digonol i Apelydd ddarparu'r ddogfennaeth/gwybodaeth ofynnol. Bydd y rhan fwyaf o Apelwyr yn cynrychioli eu hunain, ac ni fyddant yn gyfarwydd â gweithdrefnau o'r fath. Gall goblygiadau'r apêl fod yn sylweddol iddynt, ac felly, byddai angen mabwysiadu amserlen resymol; a

(C) Rydym yn pryderu am y cynnig i beidio â gosod unrhyw derfyn amser ar Banel Dyfarnu Cymru, yn enwedig gan y bydd gan bob parti arall derfyn amser i'w bodloni (e.e. Apelydd 7 diwrnod, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 14 diwrnod). Mae'n deg fod Panel Dyfarnu Cymru hefyd yn atebol dros ddilyn amserlen. Byddai hyn yn helpu partïon I reoli eu disgwyliadau gan y byddai'n fater pwysig i'r Apelydd, yr Achwynydd a thystion eraill. Ni ddylai'r amserlenni fod yn amhendant. Nid yw oediadau hir yn fuddiol i'r cyhoedd, a byddai'n dod â gwarth ar y broses.

C5. A ddylid cael pŵer penodol i'r Panel alw tystion i dribiwnlysoedd apêl?

Cytuno

**Sylwadau**: Er y byddwn yn cytuno gyda'r egwyddor fod Panel Dyfarnu Cymru yn cael mynegi pŵer i alw ar dystion i dribiwnlysoedd apêl, rydym yn cwestiynu pa mor effeithiol fyddai pŵer o'r fath, oni bai bod sancsiynau dilynol am doriadau. Hoffem wybod beth fydd yn sancsiynau.

DRAFT

C6. A ddylid gwneud unrhyw newidiadau i'r drefn ar gyfer cyfeirio penderfyniadau apeliadau yn ôl i bwyllgorau safonau?

Na

**Sylwadau**: Ni fyddem yn cefnogi newid o'r fath gan fod y trefniadau presennol yn gweithio'n effeithio, ac maent yn ddefnyddiol er mwyn i'r Pwyllgor Safonau dderbyn argymhellion Panel Dyfarnu Cymru, hyd yn oed os na ddilynir yr argymhellion hynny. Mae cyfeirio mater yn ôl i'r unigolyn a wnaeth y penderfyniad gwreiddiol er mwyn ei ail ystyried, gydag argymhellion a hyd yn oed gyfarwyddiadau, yn arfer barnwrol.

C7. Ydych chi'n cytuno y dylid cael darpariaeth benodol i alluogi cynnal rhan neu'r cyfan o wrandawiadau tribiwnlys yn breifat?

Cytuno

**Sylwadau**: Rydym yn credu y dylid rhagdybio y cynhelir pob gwrandawiad yn gyhoeddus, ond byddai'n deg ac yn rhesymol i gynnal rhannau/gwrandawiadau tribiwnlys cyfan yn breifat mewn rhai amgylchiadau penodedig. Mae'r Pwyllgor Safonau, fel y Cyngor, yn gallu gwahardd y wasg a'r cyhoedd mewn amgylchiadau penodol e.e. lle datgelir gwybodaeth bersonol neu fasnachol sensitif, ac mae gan Banel Dyfarnu Cymru hawl i gynnal y gwrandawiad cyfan, neu ran ohono'n breifat, pan fo amgylchiadau'n caniatáu.

C8. Ydych chi'n cytuno y dylid cadw'r gofyniad i roi dim llai na saith niwrnod o rybudd o ohirio gwrandawiad?

Cytuno

**Sylwadau**: Rydym yn argymell y dylid rhoi'r rhybudd cynharaf bosibl i ohirio gwrandawiad a bod y rhybudd o saith diwrnod (gofynnwn am eglurhad ynghylch a yw'r diffiniad hwn yn cynnwys diwrnod gwaith yn unig) yn cael ei nodi fel yr isafswm.

C9. A ddylai ystod ehangach o sancsiynau fod ar gael i'r Panel, ac os felly, beth ddylai'r sancsiynau fod?

Cytuno

**Sylwadau**: Rydym yn cytuno y dylai Panel Dyfarnu Cymru feddu ar agwedd amrywiol a hyblyg at y sancsiynau sydd ar gael iddo, ac rydym yn credu bod opsiynau megis cyfyngu mynediad aelodau at adnoddau'r awdurdod (mewn cyd-destun etholedig) neu osod amodau megis y bydd gwaharddiad yn fyrrach os bydd yr aelod yn ymddiheuro'n ysgrifenedig / derbyn hyfforddiant / cymryd rhan mewn cymodi, yn ddefnyddiol.

Rydym hefyd yn credu y byddai gwaharddiad rhannol yn ddefnyddiol e.e. am fethu â datgan diddordeb personol mewn mater cynllunio, galluogi'r aelod i barhau i weithio ar eu dyletswyddau lleol ond eu bod nhw'n cael eu gwahardd rhag eistedd ar y Pwyllgor Cynllunio am dri mis ac ati. Yn yr amgylchiadau hynny, ni fyddai eu hetholaeth yn cael ei ddifreinio. Gellid cymryd agwedd debyg at rolau cyflogedig

uwch, lle mae dyletswyddau aelod lleol yn parhau ond fod yr aelod wedi'i wahardd rhag ymgymryd â rôl adweinyddol a derbyn yr elfennu honno o'u lwfans.

C10a. A ddylai ystod ehangach o sancsiynau fod ar gael i'r Panel, ac os felly, beth ddylai'r sancsiynau fod?

Cytuno

**Sylwadau:** Byddai hyn yn ddefnyddiol o ran atal cynghorau rhag gorfod ymgeisio am waharddeb i wahardd aelodau, mewn rhai amgylchiadau.

Credir hefyd y byddai gorchymyn i wahardd yn dilyn yr un dull ar gyfer gweithwyr sy'n cael eu gwahardd, ac felly byddai lwfansau/cydnabyddiaeth tâl yn parhau'n llawn.

C10b. Os ydych chi o blaid y newidiadau i'r broses ar gyfer tribiwnlysoedd achos interim, ydych chi'n cytuno y dylid sefydlu trefniant canolradd, h.y. drwy fyrhau a symleiddio'r broses ar gyfer tribiwnlysoedd achos interim yn Rheoliadau Dyfarniadau gan Dribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim (Cymru) 2001?

Os ydych chi, oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ynghylch sut y gellid symleiddio'r broses hon o fewn y rheoliadau?

Nagoes

**Sylwadau**: Byddai defnyddio adnoddau i ddatblygu trefniadau dros dro yn tynnu oddi wrth yr ymdrechion i sicrhau newid hir dymor, ac rydym yn credu y gellid defnyddio adnoddau prin yn well drwy ganolbwyntio ar y strategaeth tymor hir.

C11. Oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach ar yr argymhellion a wnaethpwyd yng nghyswllt gweithrediad y Panel?

Nagoes

**Argymhelliad 12**

C12. Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ynghylch sut y gellid bwrw ymlaen â gwaith i godi ymwybyddiaeth o'r Fframwaith Safonau Moesegol, yn enwedig ar gyfer pobl â nodweddion gwarchodedig fel y'u disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010?

**Sylwadau**: Byddai gweithredu cydlynol canolog yn ddefnyddiol i gyflawni'r nod hwn. I'r perwyl hwn, argymhellir y bydd hyn yn rhywbeth y gallai Cadeiryddion Fforwm Cenedlaethol y Pwyllgor Safonau ei drafod, a chytuno ar ddull cyson.

Fodd bynnag, er bod codi ymwybyddiaeth o'r fframwaith moesegol fel arfer yn gadarnhaol, rydym yn pryderu am reoli disgwyliadau'r cyhoedd. Er y ceir tystiolaeth gyson o doriadau, mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn gosod



DRAFT

trothwy diddordeb cyhoeddus uchel ac mae trefniadau adfer yn lleol yn berthnasol i aelodau lleol ac nid cwynion gan y cyhoedd. Felly, gallai "hysbysebu" neu "hyrwyddo'r" fframwaith arwain at lawer mwy o gwynion a fyddai'n cael eu gwrthod yn y pen draw. Gofynnwn, a yw hynn yn ddoeth?

**Materion cysylltiedig eraill nad ydynt yn rhan o Adroddiad yr Adolygiad**

C13. Hysbysebu am aelodau annibynnol o bwyllgorau safonau: Ydych chi'n cytuno y dylid dileu'r gofyniad i hysbysebu swyddi gwag ar gyfer aelodau annibynnol ar bwyllgorau safonau mewn papurau newydd?

Cytuno

**Sylwadau**: Rydym yn credu y dylai fod yn fater o ddewis ac nid gofyniad deddfwriaethol pan fo swyddi gwag o'r fath yn cael eu hysbysebu.

O brofiad blaenorol, mae hysbysebu drwy bapurau newydd wedi bod yn fuddiol. Fodd bynnag, rydym hefyd wedi defnyddio mathau eraill o hysbysebu gan gynnwys gwefannau a'r cyfryngau cymdeithasol.

Byddwn yn cefnogi arfer sy'n sicrhau bod y nifer uchaf o ymgeiswyr yn cael eu cyrraedd, o amrywiaeth o ddemograffig, lle mae cynhwysiant yn ystyriaeth hanfodol.

Mae Panel Dethol ein Pwyllgor Safonau wedi llenwi swydd wag. Yr argymhelliad fydd i gynnwys hysbysebion papur newydd oherwydd demograffig hŷn yr ardal sy'n cael eu gwasanaethau gan y Cyngor, ac er mwyn osgoi unrhyw bosibilrwydd o wahanrwydd digidol.

C14a. Cyn-weithwyr cyngor yn eistedd fel aelodau annibynnol o bwyllgorau Safonau: Ydych chi'n cytuno y dylid dileu'r gwaharddiad gydol oes ar gyn-weithwyr cyngor rhag bod yn aelodau annibynnol o bwyllgor safonau eu cyflogwr blaenorol?

Cytuno

C14b. Os ydych chi, beth, yn eich barn chi, fyddai'n gyfnod gras addas rhwng cyflogaeth a phenodi i bwyllgor safonau, ac a ddylai hyn fod yr un fath ar gyfer holl weithwyr cynghorau, neu'n hirach ar gyfer y rheini a oedd gynt mewn Swyddi â chyfyngiadau statudol neu wleidyddol?

Credwn y gall y rhan fwyaf o gyn-weithwyr y Cyngor eistedd fel aelod annibynnol ar ôl 12 o ddiwedd eu cyflogaeth.

Fodd bynnag, mae'n rhaid i unigolyn a oedd mewn swydd wleidyddol gyfyngedig ddisgwyl 2 flynedd yn dilyn diwedd eu cyflogaeth cyn eistedd fel aelod annibynnol.



DRAFT

C15. Cyn-gynghorwyr yn eistedd fel aelodau annibynnol o bwyllgorau safonau: Ydych chi'n cytuno y dylid dileu'r gwaharddiad gydol oes ar wasanaethu fel aelod annibynnol ar bwyllgor safonau'r cyngor y cafodd cynghorydd ei ethol iddo? Os ydych chi, beth fyddai'n gyfnod gras addas yn eich barn chi?

Cytuno

**Sylwadau**: Rydym yn ymwybodol y gall Cyn-gynghorydd hefyd eistedd fel aelod annibynnol 2 flynedd ar ôl gadael swydd etholedig.

C16. Pwyllgorau safonau galw tystion a sancsiynau: A ddylai pwyllgorau safonau gael y pŵer i alw tystion?

Na

**Sylwadau**: Nid ydym yn credu fod galw ar dyst anfodlon yn cynorthwyo achos; byddwn yn ceisio clywed gan dystion sy'n barod i gyfrannu at weithdrefnau, ac a fydd yn cynnig gwybodaeth ar eu liwt eu hunain. Byddai darparu pŵer o'r fath heb unrhyw fodd o orfodi yn dod â gwarth ar yr arfer i ddefnyddio pŵer mewn unrhyw achos.

C17. Ydych chi'n cytuno y dylid newid neu ychwanegu at y sancsiynau y gall Pwyllgor safonau eu gosod?

Cytuno

Yn debyg i'r ddarpariaeth i ymestyn sancsiynau Panel Dyfarnu Cymru [a drafodwyd dan gwestiwn 9 uchod], byddwn yn croesawu hyblygrwydd ychwanegol i'r math o sancsiynau sydd ar gael i'r Pwyllgor Safonau.

A ninnau'n Bwyllgor Safonau rhagweithiol, rydym yn credu fod addysg yn hollbwysig. Mae hyn hefyd yn berthnasol i'r rheiny sydd wedi torri'r Cod Ymddygiad. Hoffem gael set o sancsiynau mwy llym a fyddai'n cefnogi'r nod hon yn gyffredinol. Lle bynnag y bo'n rhesymol, ac er budd y cyhoedd, byddwn yn ceisio cefnogi ac annog arfer da yn hytrach na "chosbi".

Byddwn yn cefnogi Panel Dyfarnu Cymru i gael agwedd amrywiol a hyblyg at y sancsiynau sydd ar gael iddo, ac rydym yn credu y byddai opsiynau megis cyfyngu mynediad unigolyn at adnoddau'r awdurdod, cyfyngu mynediad aelod at eiddo'r awdurdod (yn eu capasiti etholedig) neu osod amodau sy'n golygu bydd gwaharddiad yn llai os bydd yr aelod yn ymddiheuro'n ysgrifenedig / yn derbyn hyfforddiant / cymryd rhan mewn cymodi, yn ddefnyddiol.

Rydym hefyd yn credu y byddai gwaharddiad dros dro yn ddefnyddiol e.e. am fethu a datgan diddordeb personol mewn mater cynllunio, caniatáu'r aelod i barhau â'u dyletswyddau lleol er ei fod wedi'i wahardd rhag eistedd ar y Pwyllgor Cynllunio am dri mis ac ati. Yn yr amgylchiadau hynny, ni fyddai eu hetholaeth yn cael ei ddifreinio. Gellid dilyn dull cyffelyb tuag at rolau cyflogedig uwch, lle mae dyletswyddau aelod lleol yn parhau, ond mae aelod wedi'i wahardd rhag ymgymryd â rolau arweiniol a derbyn yr elfen ohono o fewn eu lwfans.

**Y Gymraeg**

Hoffem wybod eich barn am yr effaith a all y newidiadau uchod i'r Fframwaith a Chod Ymddygiad ei gael ar y Gymraeg, yn enwedig ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn gydradd â'r Saesneg.

C18. Pa effeithiau y byddai'n eu cael yn eich barn chi?

C19. Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol a lliniaru'r effeithiau negyddol?

C20. Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gallai'r diwygiadau arfaethedig gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Nodwn bod adroddiad Penn yn dweud ei bod yn "hanfodol bod y Fframwaith yn adlewyrchu'r ddeddfwriaeth sylweddol sydd wedi'i gwneud ers ei sefydlu, yn benodol Deddf Cydraddoldeb 2010, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021". Nid oes cyfeiriad cyffelyb at gyfundrefn gyfreithiol Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, sy'n rhoi statws swyddogol i'r iaith ac sy'n gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i sicrhau:

- nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg; ac
- y dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau'n Gymraeg os ydynt yn dymuno.

Dylid sicrhau bod unrhyw newidiadau yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg, yn ystyriol o bolisïau iaith Gymraeg awdurdodau lleol ac yn parchu rhyddid aelodau etholedig ac eraill i ddefnyddio'r iaith os ydynt yn dymuno.

C21. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud ar y materion a godwyd yn yr ymgynghoriad hwn, gan gynnwys ar yr argymhellion hynny yn yr Adroddiad nad oes cwestiwn penodol wedi'i gynnig ynglŷn â hwy?

Oes

**Sylwadau**: Mae hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad yn hanfodol. Er bod Cod Ymddygiad y Cyngor hwn yn cynnwys yr argymhelliad y bydd aelodau'n cwblhau hyfforddiant ar y Cod cyn pen 6 mis o ddechrau swydd, nid oes gofyniad yn y Cod Model, ac nid oes gofyniad o'r fath ar gynghorwyr tref a chymuned. Rydym o'r farn y dylai'r Cod Model gynnwys y ddarpariaeth hon.

Mae hyfforddiant ar gyfer clerciaid cymunedol hefyd yn rhywbeth y dylid ei ystyried. Mae clerc gwybodus, sy'n deall y Cod Ymddygiad a rheolau'r weithdrefn, yn hanfodol mewn cyngor cymuned gweithgar. Mae swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi adrodd yn gyson fod y rhan fwyaf o

achosion a dderbynnir yn berthnasol i gynghorwyr tref a chymuned. Efallai y byddai hyfforddiant mandadol yn cynorthwyo yn yr ymdrech i leihau'r rhif hwnnw. Rydym wedi trefnu pedwar sesiwn ar gyfer cynghorwyr tref a chymuned, a'u clerciaid, ond mae'r nifer sydd wedi cymryd rhan wedi bod yn isel iawn. Efallai y byddai deunyddiau hyfforddi digidol a chenedlaethol, y gall cynghorwyr tref a chymuned eu defnyddio yn eu cyfarfodydd eu hunain/o bell, yn ddefnyddiol.

Mae ymatebion i ymgyngoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi, ar y we neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: □

Diolch am roi o'ch amser i ymateb i'r ymgynghoriad. Bydd crynodeb o'r ymatebion yn cael ei gyhoeddi maes o law.

DRAFFT

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **14 Mehefin 2023** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Cynlluniau Hyfforddiant Cynghorau Tref a Chymuned** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Cyflwyno i'r Pwyllgor Safonau yr ymatebion a dderbyniwyd gan y Cynghorau Tref a Chymuned i'r cais am gopïau o'u Cynlluniau Hyfforddiant** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Cyfreithiwr – Llywodraethiant Corfforaethol**<br>**mwycs@ynysmon.llyw.cymru** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.llyw.cymru**<br>**01248 752586** |

## 1. CEFNDIR

1.1 Yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, mae bellach angen i bob Cyngor Tref a Chymuned gynhyrchu cynllun hyfforddiant blynyddol ar gyfer cynghorwyr a'i staff. O dan y ddarpariaeth newydd hon yn y ddeddfwriaeth, roedd angen i'r Cynghorau Tref a Chymuned gyhoeddi'r Cynllun Hyfforddiant cyntaf o fewn 6 mis i'r etholiad llywodraeth leol a gynhaliwyd ar 5 Mai, 2022.

1.2 Fel rhan o'i waith o sicrhau lefelau uchel o ymddygiad gan aelodau o'r Cynghorau Tref a Chymuned, mae gan y Pwyllgor Safonau ddiddordeb yn yr hyfforddiant sy'n cael ei gynnig a faint o aelodau sy'n manteisio ar y cyfle i fynychu'r hyfforddiant hwnnw.

## 2. CAIS A WNAED GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

2.1 Yn y cylchlythyr a anfonwyd at y Cynghorau Tref a Chymuned ym Mawrth 2023, gofynnodd y Pwyllgor Safonau i'r Cynghorau Tref a Chymuned ddarparu'r Pwyllgor â chopi o'u Cynlluniau Hyfforddiant cyfredol.

2.2 Gofynnwyd am gopïau o'r Cynlluniau Hyfforddiant erbyn 31 Mai 2023.

2.3 Mae **Atodiad 1** yn nodi manylion yr ymatebion a gafwyd gan y Cynghorau Tref a Chymuned. Dim ond pump o'r pedwar deg Cyngor Tref a Chymuned sydd wedi ymateb.

2.4 Roedd y Cylchlythyr yn egluro y byddai'r ymatebion gan y Cynghorau Tref a Chymuned yn cael eu trafod yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau ym Mehefin 2023.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Safonau:

3.1.1 nodi'r wybodaeth a nodir mewn perthynas â'r Cynghorau Tref a Chymuned yn Atodiad 1; a

3.1.2 penderfynu pa gamau a ddylid eu cymryd, os o gwbl, mewn perthynas â'r Cynghorau Tref/Cymuned heini nad ydynt wedi ymateb.

**ATODIAD 1 / ENCLOSURE 1**

| | **Cyngor Tref a Chymuned / Town and Community Council** | **Dyddiad derbyn yr ymateb gan y CTCT/ Date response received from TCC** |
|---|---|---|
| 1 | Cyngor Cymdeithas **Aberffraw** Community Council | |
| 2 | Cyngor Tref **Amlwch** Town Council | |
| 3 | Cyngor Tref **Biwmares / Beaumaris** Town Council | |
| 4 | Cyngor Cymdeithas **Bodedern** Community Council | |
| 5 | Cyngor Cymdeithas **Bodffordd** Community Council | |
| 6 | Cyngor Cymdeithas **Bodorgan** Community Council | |
| 7 | Cyngor Cymdeithas **Bryngwran** Community Council | 23.05.2023 |
| 8 | Cyngor Tref **Caergybi / Holyhead** Town Council | |
| 9 | Cyngor Bro **Cwm Cadnant** Community Council | |
| 10 | Cyngor Bro **Cylch y Garn** Community Council | |
| 11 | Cyngor Cymuned **Llanbadrig** Community Council | |
| 12 | Cyngor Cymdeithas **Llanddaniel-Fab** Community Council | |
| 13 | Cyngor Cymdeithas **Llanddona** Community Council | |
| 14 | Cyngor Cymdeithas **Llanddyfnan** Community Council | 23.05.2023 |
| 15 | Cyngor Cymdeithas **Llaneilian** Community Council | |
| 16 | Cyngor Cymuned **Llanerchymedd** Community Council | |
| 17 | Cyngor Cymuned **Llaneugrad**Community Council | |
| 18 | Cyngor Cymdeithas **Llanfachraeth** Community Council | |
| 19 | Cyngor Cymdeithas **Llanfaelog**Community Council | |
| 20 | Cyngor Cymdeithas **Llanfaethlu** Community Council | |
| 21 | Cyngor Cymuned **Llanfair Mathafarn Eithaf** Community Council | |
| 22 | Cyngor Cymdeithas **Llanfair yn Neubwll** Community Council | |
| 23 | Cyngor Cymuned **Llanfairpwll** Community Council | |
| 24 | Cyngor Cymdeithas **Llanfihangelesceifiog** Community Council | |
| 25 | Cyngor Tref **Llangefni** Town Council | |
| 26 | Cyngor Cymdeithas **Llangoed a Phenmon** Community Council | |
| 27 | Cyngor Cymdeithas **Llangristiolus** Community Council | 23.05.2023 |
| 28 | Cyngor Cymdeithas **Llanidan** Community Council | |
| 29 | Cyngor Cymdeithas **Mechell** Community Council | |
| 30 | Cyngor Cymuned **Moelfre** Community Council | |
| 31 | Cyngor Cymuned **Penmynydd a Star** Community Council | |
| 32 | Cyngor Cymdeithas **Pentraeth** Community Council | 04.04.2023 |
| 33 | Cyngor Tref **Porthaethwy / Menai Bridge** Town Council | |
| 34 | Cyngor Cymdeithas **Rhoscolyn** Community Council | |
| 35 | Cyngor Cymuned **Rhosybol** Community Council | |
| 36 | Cyngor **Rhosyr** Council | |
| 37 | Cyngor Bro **Trearddur** Community Council | |
| 38 | Cyngor Cymdeithas **Tref Alaw** Community Council | |
| 39 | Cyngor Bro **Trewalchmai** Community Council | 23.05.2023 |
| 40 | Cyngor Cymuned **Y Fali / Valley** Community Council | |

This page is intentionally left blank